



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2021

Mawrth 2021

Wedi'i diweddarau ar 18 Mawrth

llyw.cymru

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	7
Cefndir	8
Cyfraddau treth Cymru	9
A. Datblygu polisiau treth mewn ffordd sydd mor deg â phosibl, yn gyson â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a drwy gydweithredu â rhanddeiliaid	15
1. Cryfhau'r sylfaen drethu yng Nghymru	15
2a. Parhau i adolygu'r Dreth Trafodiadau Tir	21
2b. Parhau i adolygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi	23
3. Datblygu Treth ar Dir Gwag	25
4. Nodi dewisiadau ar gyfer talu am ofal cymdeithasol yn y dyfodol	27
5. Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle bo hynny'n briodol	30
6. Archwilio'r achos dros alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno Treth Twristiaeth	35
7. Cwblhau'r rhaglen gyhoeddedig o welliannau tymor byr a thymor canolig i drethi lleol	36
B. Gweithredu a datblygu trethi Cymru yng nghyd-destun y DU	39
8. Archwilio sut gallai Llywodraeth Cymru ymateb os bydd angen newid Deddfau Trethi Cymru	39
9. Datblygu dull gweithredu mwy strategol o ran y ffyrdd mae trethi'n gweithredu yng Nghymru	41
10. Asesu'r achos dros ddatganoli rhagor o drethi i Gymru	43
C. Cynyddu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o drethi yng Nghymru	45
11. Archwilio sut gallai newidiadau posibl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru effeithio ar drethdalwyr Cymreig	45
12. Rhannu arferion da ynghylch strategaeth a pholisiau treth	47
13. Cynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o bolisiau treth Cymru	48

Atodiad un:	Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru	51
Atodiad dau:	Dadansoddi'r sylfaen treth incwm	56
Atodiad tri:	Newidiadau i gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir	68
Atodiad pedwar:	Gwerthuso rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2019-20	79
Atodiad pump:	Yr acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn	88
Atodiad chwech:	Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth	89

Ffigurau

Tudalen

Ffigur un:	Cyfraddau treth incwm yng Nghymru, 2021-22	10
Ffigur dau:	Rhaniad y rhywiau ar gyfer y rheini sy'n talu treth incwm NSND, yn ôl eu cyfradd ymylol (%)	57
Ffigur tri:	Rhwymedigaeth gyfartalog y pen ar gyfer CTIC, yn ôl Grŵp Oedran	58
Ffigur pedwar:	Dadansoddiad fesul sector o'r rheini sy'n talu CTIC a refeniw CTIC (%)	59
Ffigur pump:	Gwahaniaeth pwynt canran rhwng cyfraniad sectorau i refeniw CTIC a'r refeniw cyfatebol – Cymru, a Lloegr a Gogledd Iwerddon	59
Ffigur chwech:	Cyfran refeniw treth incwm yn ôl band treth	60
Ffigur saith:	Cyfran refeniw treth incwm yn ôl cyfradd ymylol trethdalwyr	61
Ffigur wyth:	Cyfran incwm nad yw'n deillio o gynilion na difidendau yn ôl ffynhonnell	63
Ffigur naw:	Mynegai Cyflogaeth ac Enillion i Gymru ac i Loegr a Gogledd Iwerddon (2002=100)	64
Ffigur deg:	Mynegai'r boblogaeth 16 oed a hŷn yng Nghymru, ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (2000=100)	65
Ffigur un ar ddeg:	Gwahaniaeth rhwng cyfansoddiad sectoraidd refeniw CTIC neu refeniw cyfatebol (pwynt canran), a'r newidiadau yn swyddi'r gweithlu rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mehefin 2020 (%)	66
Ffigur deuddeg:	Prif gyfraddau treth preswyl LTT, SDLT ac LBTT	69
Ffigur tri ar ddeg:	Perfformiad trafodiadau preswyl o'i gymharu â chyfartaledd misol 2019-20	72
Ffigur pedwar ar ddeg:	Perfformiad trafodiadau preswyl yn ôl band prisiau o'i gymharu â chyfartaledd misol 2019-20	73
Ffigur pymtheg:	Cyfraddau preswyl uwch LTT – cyfradd dreth gyfartalog yn ôl pris	74
Ffigur un ar bymtheg:	Prif gyfraddau amhreswyl LTT – cyfradd dreth gyfartalog yn ôl pris	76
Ffigur dau ar bymtheg:	Cyfraddau rhent les amhreswyl LTT – cyfradd dreth gyfartalog yn ôl NPV rhent les	77

Ffigur deunaw:	Datgyfansoddi rhagolwg Rhagfyr 2018 ar gyfer 2019-20	83
Ffigur pedwar ar bymtheg:	Alldro Llywodraeth Cymru, yr OBR a'r SFC o'i gymharu â'r gwahaniaethau yn y rhagolygon, 2019-20	84

Tablau

Tudalen

Tabl un:	Prif gyfraddau preswyl LTT (cyn 27 Gorffennaf 2020 ac o 1 Gorffennaf 2021 ymlaen)	11
Tabl dau:	Prif gyfraddau preswyl LTT (o 27 Gorffennaf 2020 ymlaen a chyn 1 Gorffennaf 2021)	11
Tabl tri:	Cyfraddau preswyl uwch LTT (cyn 22 Rhagfyr 2020)	12
Tabl pedwar:	Cyfraddau preswyl uwch LTT (o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen)	12
Tabl pump:	Prif gyfraddau amhreswyl LTT (cyn 22 Rhagfyr 2020)	13
Tabl chwech:	Prif gyfraddau amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen)	13
Tabl saith:	Cyfraddau rhent les amhreswyl LTT (cyn 22 Rhagfyr 2020)	13
Tabl wyth:	Cyfraddau rhent les amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen)	14
Tabl naw:	Cyfraddau LDT (cyfradd fesul tunnell) 2020-21 a 2021-22	14
Tabl deg:	Cyfraddau LDT (cyfradd fesul tunnell) 2018-19 i 2021-22	24
Tabl un ar ddeg:	Amcangyfrifon y canllaw cyflym ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru (£ miliwn)	46
Tabl deuddeg:	Amcangyfrifon y canllaw cyflym ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru (£ miliwn)	52
Tabl tri ar ddeg:	Enillion amser llawn canolrifol blynyddol, rhwymedigaethau treth incwm a chyfraddau treth cyfartalog yng Nghymru, ar draws nifer o broffesiynau	62
Tabl pedwar ar ddeg:	Alldro 2019-2020 a rhagolwg Rhagfyr 2018	81

Rhagair



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y Cynllun Gwaith Polisi Trethi diweddaraf, a gyhoeddwyd gennyf ym mis Medi 2020. Mae'n disgrifio'r rhaglen o weithgareddau ymchwil, datblygu, adolygu a chyfathrebu yr ydym wedi'u cyflawni i gynyddu ein dealltwriaeth o weithrediad trethi Cymru ac o'r cyfleoedd i ddefnyddio trethi i helpu i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru.

Mae'r gwaith hwn yn dilyn yr egwyddorion sydd wedi'u disgrifio yn ein Fframwaith Polisi Trethi, gan gynnwys ein nod i ddatblygu trethi teg sy'n gyson â blaenoriaethau polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Cyflwynir y pynciau o dan dair prif thema:

- A. Datblygu polisiâu treth mewn ffordd sydd mor deg â phosibl, yn gyson â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a drwy gydweithredu â rhanddeiliaid.
- B. Gweithredu a datblygu trethi Cymru yng nghyd-destun y DU.
- C. Cynyddu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o drethi yng Nghymru.

Yn ogystal â hynny, mae canfyddiadau ymchwil dadansoddol, mwy manwl o drethi Cymru wedi'u darparu yn yr atodiadau. Mae'r rhain yn archwilio effaith y newidiadau diweddar i'r Dreth Trafodiadau Tir, yn gwerthuso'r rhagolygon blaenorol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ac yn edrych yn agos ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru drwy astudio'r sylfaen drethu ac ystyried beth fyddai effaith newid y cyfraddau treth.

Rwyf yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, neu eich bod yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am unrhyw bwnc sy'n cael ei drafod, cysylltwch â Thrysorlys Cymru drwy un o'r sianeli a restrir ar ddiwedd y ddogfen.

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Mawrth 2021

Cefndir

1. Mae'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu yng Nghymru wedi newid yn dilyn cyflwyno tair treth sydd wedi'u datganoli i Gymru – y Dreth Trafodiadau Tir (LTT), y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) a Chyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC).
2. Yn gyfnewid am y referiw treth a gynhyrchir gan drethi Cymru, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau'r cyllid grant bloc mae'n ei roi i Gymru, o swm cyfatebol.
3. Mae'n hanfodol fod trethi Cymru'n cael eu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cynhyrchu'r referiw sydd ei angen i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol Cymru – fel iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a'r seilwaith trafnidiaeth.
4. Mae datganoli pwerau treth yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer trethiant canolog a lleol yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn gallu mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau dinasyddion a busnesau yn well. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei ddull gweithredu yn 2017, yn y Fframwaith Polisi Trethi¹. Mae'n cynnwys pum egwyddor i siapio trethi Cymru:

Dylai trethi Cymru wneud y canlynol:

- Codi referiw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd mor deg â phosibl;
 - Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran cefnogi swyddi a thwf;
 - Bod yn eglur, yn sefydlog ac yn syml;
 - Cael eu datblygu drwy gydweithrediad a chyfranogiad;
 - Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu cylch polisi treth, sy'n cynnwys cyhoeddi cynllun gwaith, wedi'i ddilyn gan waith ymchwil, dadansoddi ac ymgysylltu, cyn adrodd ar y canfyddiadau a'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg.
 6. Rydym yn gobeithio y bydd cyhoeddi'r cynllun gwaith yn codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid a phobl a sefydliadau eraill sydd â diddordeb o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ymchwilio iddo, ac y bydd yn eu galluogi i ofyn cwestiynau a chyfrannu safbwyntiau, gwybodaeth a phrofiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal cynadleddau treth yn ystod 2018, 2019 a 2020 i gefnogi hyn, gan roi cyfle i archwilio rhai o'r ffrydiau gwaith a materion treth eraill mewn mwy o fanylder.

¹ Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/fframwaith-polisi-trethi.pdf>

Cyfraddau treth Cymru

Cefndir

7. Cafodd y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2018 ac maent yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019, ac maent yn cael eu casglu a'u rheoli gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Cyfraddau Treth Incwm Cymru

8. Mae treth incwm wedi'i datganoli'n rhannol i Gymru. Felly, er bod Llywodraeth Cymru'n gallu amrywio'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) i drethdalwyr Cymreig², Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bob agwedd arall ar y dreth ac mae CThEM yn parhau i weinyddu treth incwm yng Nghymru.
9. Fel rhan o'r broses mae Llywodraeth y DU yn lleihau'r tair cyfradd treth incwm i drethdalwyr Cymreig 10c, gan wneud lleihad cyfatebol i grant bloc Cymru, sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n penderfynu a ddylid gosod cyfraddau Cymru ar 10c, gan felly adfer y cyllid i wasanaethau (a chadw cydraddoldeb thwng trethdalwyr Cymreig a Seisnig), neu osod cyfraddau gwahanol.
10. Yn unol â'i hymrwymiad i beidio â chynyddu CTIC yn ystod tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gosod CTIC ar gyfer 2021-22 ar 10c. Mae'n rhaid i'r Senedd gadarnhau'r cynnig hwn, a hynny drwy gynnig cyn cytuno ar y Gyllideb derfynol.
11. Mae ffigur un yn dangos y cyfraddau a'r trothwyon, yn seiliedig ar drothwyon a lwfansau personol Treth Incwm 2021-22, a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2020 ac a fydd yn cael eu cadarnhau yng Nghyllideb y Gwanwyn y DU³.


² Yn y rhan fwyaf o achosion, ystyr trethdalwyr Cymreig yw pobl sy'n byw yng Nghymru, ond mae diffiniad llawn wedi'i ddarparu o dan a.8 o Ddeddf Cymru 2014:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted>

³ Adolygiad o Wariant 2020, 2.8 National Living Wage and personal tax thresholds, "Further, the government will increase the 2021-22 Income Tax Personal Allowance and Higher Rate Threshold in line with the September CPI figure" (Saesneg yn unig):

<https://www.gov.uk/government/publications/spending-review-2020-documents/spending-review-2020>

Ffigur un: Cyfraddau treth incwm yng Nghymru, 2021-22*



* Cyfraddau treth incwm ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2020, ac a fydd yn cael eu cadarnhau yng Nghyllideb y Gwanwyn y DU 2021.

Treth Trafodiadau Tir

Newidiadau i'r gyfradd yn ystod 2021-22, a chyfraddau 2021-22

- I ddechrau, nid oedd cyfraddau 2020-21 LTT wedi newid ers y blynyddoedd blaenorol. Roedd hyn yn cadw'r dull o gynnal cysondeb a sefydlogrwydd yn y marchnadoedd eiddo yng Nghymru.

Prif Gyfraddau Preswyl: Cyfraddau a Bandiau Treth

- Ar 27 Gorffennaf 2020, fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, cafodd cyfraddau a bandiau prif gydraddau LTT eu newid am gyfnod cyfyngedig. Mae'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y cyfnod lleihau treth dros dro yn berthnasol o 27 Gorffennaf 2020 i 31 Mawrth 2021. Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â darparu gostyngiadau treth yn y cyfnod hwn i drethdalwyr sy'n atebol i'r cyfraddau preswyl uwch.
- Cafodd y newidiadau i'r prif gyfraddau preswyl eu gwneud drwy reoliadau cadarnhaol ar 22 Gorffennaf 2020. Daethant i rym ar 27 Gorffennaf 2020. Ni chafodd y cyfraddau sy'n berthnasol i'r cyfraddau preswyl uwch eu newid. Roedd y memorandwm esboniadol⁴ a oedd yn cyd-fynd â'r rheoliadau yn cynnwys datganiad o fwriad y polisi, sef y byddai'r newidiadau yn cael "effaith gadarnhaol ar y farchnad dai ac ar yr economi yn fwy cyffredinol eleni". Cafodd y rheoliadau, ac felly'r newidiadau i'r cyfraddau, eu cymeradwyo gan y Senedd ar 29 Medi 2020.

⁴ 'Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020': <https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld13367-em/sub-ld13367-em%20-w.pdf>

15. Ar 3 Mawrth 2021, gwnaed rheoliadau pellach i ymestyn cyfnod y gostyngiad treth dros dro tan 30 Mehefin 2021 gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd⁵. Bydd y Senedd yn pleidleisio ar gymeradwyo'r rheoliadau hyn ar 23 Mawrth 2021.

Tabl un: Prif gyfraddau preswyl LTT (cyn 27 Gorffennaf 2020 ac o 1 Gorffennaf 2021 ymlaen)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £180,000	0%
Dros £180,000 i £250,000	3.5%
Dros £250,000 i £400,000	5%
Dros £400,000 i £750,000	7.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	10%
£1.5m neu fwy	12%

Tabl dau: Prif gyfraddau preswyl LTT (o 27 Gorffennaf 2020 ymlaen a chyn 1 Gorffennaf 2021)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £250,000	0%
Dros £250,000 i £400,000	5%
Dros £400,000 i £750,000	7.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	10%
£1.5m neu fwy	12%

Cyfraddau Preswyl Uwch: Cyfraddau a Bandiau Treth

16. Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â darparu unrhyw ostyngiadau treth i drethdalwyr sy'n atebol i'r cyfraddau preswyl uwch. Felly, arhosodd y cyfraddau a'r bandiau treth yr un fath ag yr oedd yn daladwy'n wreiddiol o 1 Ebrill 2018 ymlaen, pan ddaeth LTT i rym. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn nhabl tri isod.
17. Fodd bynnag, fel rhan o'r gyllideb ddrafft i Gymru a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, cafodd y cyfraddau preswyl uwch eu cynyddu 1 pwynt canran yr un. Daeth y newid hwn i rym ar 22 Rhagfyr 2020 ac roedd yn darparu rheolau trosiannol i'r trethdalwyr hynny a oedd wedi cyfnewid contractau ar 21 Rhagfyr neu cyn hynny. Roedd Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn disgrifio'r newidiadau

⁵ Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – rheoliadau 3 Mawrth 2021: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-dreth-trafodiadau-tir-ymestyn-cyfnod-y-gostyngiad-dros-dro-yn-y-dreth>
a 'Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) (Diwygio) 2021': <https://senedd.cymru/media/2zkddxz5/sub-ld14189-em-w.pdf>

polisi mewn cysylltiad â'r trethi datganoledig a'r trethi sy'n rhannol ddatganoledig⁶. Cymeradwyodd y Senedd y rheoliadau a oedd yn gwneud y newid ar 2 Chwefror 2021.

18. Mae'r cyfraddau a'r bandiau a oedd yn berthnasol yn ystod y cyfnod hyd at ac yn cynnwys 21 Rhagfyr 2020 wedi'u darparu yn nhabl tri, ac mae'r cyfraddau sy'n berthnasol ers 22 Rhagfyr wedi'u nodi yn nhabl pedwar isod.

Tabl tri: Cyfraddau preswyl uwch LTT (cyn 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £180,000	3%
Dros £180,000 i £250,000	6.5%
Dros £250,000 i £400,000	8%
Dros £400,000 i £750,000	10.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	13%
£1.5m neu fwy	15%

Tabl pedwar: Cyfraddau preswyl uwch LTT (o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £180,000	4%
Dros £180,000 i £250,000	7.5%
Dros £250,000 i £400,000	9%
Dros £400,000 i £750,000	11.5%
Dros £750,000 i £1,500,000	14%
£1.5m neu fwy	16%

Cyfraddau Amhreswyl: Cyfraddau a Bandiau Treth

19. Fel rhan o gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, cafodd y bandiau treth cyfradd sero sy'n berthnasol i drafodiadau eiddo amhreswyl eu cynyddu o hyd at £150,000 i hyd at £225,000. Mae'r newidiadau'n berthnasol i'r prif gyfraddau amhreswyl ac i'r cyfraddau rhent les amhreswyl. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 22 Rhagfyr 2020 ac maent yn darparu gostyngiadau i drafodiadau sy'n cael eu cwblhau ar 22 Rhagfyr 2020 neu ar ôl hynny.
20. Cymeradwyodd y Senedd y rheoliadau a oedd yn gwneud y newid ar 2 Chwefror 2021.
21. Roedd cyllideb ddrafft 2021-22 hefyd yn cynnwys newid i swm penodedig rhent perthnasol, gan gynyddu'r swm 50% o £9,000 i £13,500. Defnyddir swm y rhent

⁶ Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch Trethi Datganoledig a Chyfraddau Treth Incwm Cymru, 21 Rhagfyr 2020: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-trethi-datganoledig-chyfraddau-treth-incwm-cymru-cyllideb-ddrafft-2021-22>

perthnasol i weithredu rheol ar atal osgoi. Mae cynyddu'r swm yr un canran â'r bandiau cyfradd sero amhreswyl yn sicrhau y bydd yn gweithredu yn yr un modd ac i'r un graddau ag yr oedd cyn gwneud y newidiadau. Mae'r swm rhent perthnasol newydd yn berthnasol o 4 Chwefror 2021 ymlaen yn dilyn cymeradwyaeth gan y Senedd.

22. Mae'r cyfraddau a'r bandiau a oedd yn berthnasol yn ystod y cyfnod hyd at ac yn cynnwys 21 Rhagfyr 2020 wedi'u nodi yn nhablau pump a chwech. Mae'r cyfraddau sy'n berthnasol ers 22 Rhagfyr wedi'u nodi yn nhablau saith ac wyth isod.

Tabl pump: Prif gyfraddau amhreswyl LTT (cyn 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £150,000	0%
Dros £150,000 i £250,000	1%
Dros £250,000 i £1,000,000	5%
£1m neu fwy	6%

Tabl chwech: Prif gyfraddau amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £250,000	1%
Dros £250,000 i £1,000,000	5%
£1m neu fwy	6%

Tabl saith: Cyfraddau rhent les amhreswyl LTT (cyn 22 Rhagfyr 2020)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £150,000	0%
Dros £150,000 i £2,000,000	1%
£2m neu fwy	2%

Tabl wyth: Cyfraddau rhent les amhreswyl LTT (o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen)

Trothwy prisiau	Cyfradd y Dreth Trafodiadau Tir
£0 i £225,000	0%
Dros £225,000 i £2,000,000	1%
£2m neu fwy	2%

Treth Gwarediadau Tirlenwi

23. Cafodd cyfraddau 2021-22 eu cymeradwyo gan y Senedd ar 2 Chwefror, a byddant yn cynyddu yn ôl chwyddiant o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae hyn yn parhau â'r polisi o gynnal cysondeb â dull gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraddau treth dirilenwi.

Tabl naw: Cyfraddau LDT (cyfradd fesul tunnell) 2020-21 a 2021-22

Cyfradd	2020-21	2021-22
Safonol	£94.15	£96.70
Is	£3.00	£3.10
Heb awdurdod	£141.20	£145.05

A. Datblygu polisïau treth mewn ffordd sydd mor deg â phosibl, yn gyson â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru a drwy gydweithredu â rhanddeiliaid

1. Cryfhau'r sylfaen drethu yng Nghymru.

Parhau i weithredu i gefnogi twf y sylfaen drethu yng Nghymru a datblygu dull o fonitro cynnydd.

Cefndir

24. Mae lledaeniad COVID-19, a'r camau sydd wedi cael eu cymryd i'w reoli, wedi cael effaith ddramatig ar Gymru ac ar nifer o wledydd ym mhedwar ban byd. Mae'r dirywiad yn amodau'r farchnad lafur, sy'n gysylltiedig â'r pandemig ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, yn debygol o gael effeithiau andwyol parhaol ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol pobl yn y tymor hir. Dengys y dystiolaeth bod hyd yn oed cyfnodau byr o ddiweithdra yn gallu niweidio cyfleoedd pobl o ran cyflogaeth a chyflogau yn y dyfodol, sydd yn ei dro'n cael effaith niweidiol ar y sylfaen drethu yng Nghymru.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

25. Bydd hi'n cymryd rhai blynyddoedd i effaith lawn yr amgylchiadau ariannol presennol ar y sylfaen drethu yng Nghymru ddod i'r amlwg. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gynnal ymchwil i gael gwell dealltwriaeth o'r sylfaen drethu yng Nghymru. Fel rhan o'r ymchwil parhaus hwn, mae dadansoddiad manwl o'r sylfaen drethu ar gyfer CTIC wedi'i ddarparu yn atodiad dau. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o nodweddion y sylfaen treth incwm yng Nghymru, perfformiad cyflogaeth ac enillion yn y gorffennol a rhagolwg o'r perfformiad yn y dyfodol, ac effaith wahaniaethol bresennol bosibl pandemig COVID-19 ar Gymru ac ar Loegr a Gogledd Iwerddon.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

26. Gan gydnabod y risgiau y mae'r amgylchedd economaidd presennol yn eu peri i'r sylfaen drethu yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gymryd camau digynsail i gefnogi unigolion a busnesau yng Nghymru.

Cefnogi Busnesau

27. Mae ein pecyn cymorth i fusnesau, gwerth £2bn, yn golygu bod gan gwmnïau yng Nghymru fynediad at y cymorth mwyaf hael yn y DU. Mae hyn ar ben y cynlluniau cymorth cyflogau sydd ar gael gan Lywodraeth y DU yn ystod y pandemig.

28. Mae ein cymorth yn adeiladu ar seiliau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a gyhoeddwyd yn 2017, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol a rhanbarthau cynhyrchiol. Mae dros 13,000 o fusnesau wedi elwa ar £300m o gymorth o'n Cronfa Cadernid Economaidd, gan ddiogelu 100,000 o swyddi a fyddai wedi cael eu colli fel arall o bosibl. Ym mis Hydref 2020 fe wnaethom ddarparu £300m yn rhagor o gymorth yn nhrydydd cam y gronfa.

29. Cafodd Banc Datblygu Cymru ei lansio yn 2017 ac mae wedi chwarae rôl hollbwysig yn helpu cwmnïau i dyfu, i oroesi ac i ffynnu gydol y tymor. Adroddodd y Banc 457 o fuddsoddiadau yn 2019-20 – cyfanswm o £103.3m. Roedd y nifer hwn yn record ac fe wnaeth greu neu ddiogelu bron i 4,000 o swyddi ledled Cymru. I helpu cwmnïau i dyfu ac i ddarparu swyddi'n gyflymach, lansiodd y Banc fenthyciad llwybr cyflym wedi'i ddiweddarau eleni – bellach mae benthyciadau o hyd at £25,000 ar gael ac mae penderfyniad yn cael ei wneud o fewn dau ddiwrnod gwaith. Yn cynnwys cynllun Cymorth i Brynu - Cymru, mae Banc Datblygu Cymru'n rheoli dros £1.2bn o gyllid Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.
30. Mae Busnes Cymru wedi cynnal ei gymorth hollbwysig i fusnesau Cymru. Mae ei gynlluniau wedi creu 12,700 o swyddi ers mis Ionawr 2016, wedi helpu i greu 3,805 o fentrau newydd, ac wedi cynhyrchu allforion gwerth dros £33.7m. Mae'r llwyddiant hwn wedi parhau eleni: roedd y Rhaglen Cyflymu Twf wedi creu dros 1,660 o swyddi rhwng mis Hydref 2019 a mis Awst 2020. Rydym yn darparu dros £230m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill drwy ein hystod o gynlluniau rhyddhad ardrethi. Ers 2017-18 rydym wedi darparu rhyddhad ychwanegol i fanwerthwyr a busnesau'r stryd fawr. Mae ein cynlluniau rhyddhad ardrethi'n golygu bod tri chwarter yr holl dalwyr ardrethi yng Nghymru wedi cael rhyddhad ardrethi eleni. Ni thalodd dros 70,000 o fusnesau unrhyw ardrethi o gwbl.
31. Mae'r pandemig wedi cael effaith benodol ar y sector lletygarwch ac rydym wedi cymryd camau cyflym i gefnogi'r rhan bwysig hon o'n heconomi. Rydym wedi darparu cyfanswm o £450m o gymorth i'r sector – y pecyn cymorth mwyaf hael yn y DU. Mae'r pecyn yn cynnwys rhyddhad ardrethi o 100% i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch â gwerth ardrethol o £500,000 neu lai, a chronfa £180m penodol i'r sector fel rhan o'r Gronfa Cadernid Economaidd.

Strategaeth Ryngwladol

32. Un o uchelgeisiau ein Strategaeth Ryngwladol yw tyfu cadernid economi Cymru drwy gynyddu allforion a denu mewnfuddsoddiadau. Bydd gwireddu'r uchelgais hon yn creu swyddi a chyfleoedd i bobl yng Nghymru, ac yn helpu i gefnogi ein sylfaen drethu. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddom ein Cynllun Gweithredu Allforio⁷ sy'n nodi'r camau ymarferol y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi allforwyr yng Nghymru – o ran gadael yr UE a helpu i adfer ar ôl pandemig COVID-19, gan gynnwys:
- Cyflwyno cyfres o fesurau i helpu busnesau i allforio yn ystod ac yn syth ar ôl COVID-19 i'w helpu i **adfer** ac i **ailadeiladu**;
 - Sicrhau bod ein hallforwyr yn barod ar gyfer unrhyw amgylchedd masnachu newydd (gofynion) gyda'r UE, ar ôl i'r cyfnod **pontio** ddod i ben wedi i'r DU ymadael â'r UE ac unrhyw gytundebau masnach rydd newydd eraill;
 - **Ailddyfeisio** ein rhaglenni cymorth allforio i addasu i'r 'normal newydd' ar ôl COVID-19;
 - Sbarduno **twf** allforion Cymru yn y tymor hirach, gan gynyddu cyfraniad allforion i economi Cymru, gan gynnwys drwy gynyddu nifer ein hallforwyr.
33. Yn ogystal â hynny, mae'r Strategaeth Ryngwladol yn amlinellu sut byddwn yn sicrhau bod Cymru'n cael ei chydabod fel y lle gorau yn y DU ar gyfer cwmnïau newydd wedi'u

⁷ Cynllun Gweithredu Allforio:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/cynllun-gweithredu-cymru-ar-gyfer-allforio.pdf>

sefydlu gan raddedigion, a fydd yn annog y rhai sy'n astudio yng Nghymru i aros yng Nghymru.

Cefnogi Pobl

Cyflogadwyedd a Sgiliau

34. Yr hyn sydd wrth galon ein dull gweithredu ar gyfer cryfhau ein sylfaen drethu yw helpu pobl i adeiladu'r cyfalaf dynol sydd ei angen arnynt i gael gwaith teg sy'n rhoi boddhad iddynt. Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaethom fuddsoddi £40m i roi hwb i'n Pecyn Swyddi a Sgiliau a'n Hymrwymiad COVID i sicrhau y gall unrhyw un dros 16 oed yng Nghymru gael gafael ar gyngor a chymorth er mwyn cael gwaith, i fod yn hunangyflogedig, neu i ddod o hyd i le mewn addysg neu hyfforddiant.
35. Mae ein Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol, a ddarperir ar y cyd ag awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau, wedi cefnogi dros 54,000 o bobl ers 2015 drwy hyfforddiant, sgiliau hanfodol a lleoliadau gwaith. Mae dros 20,000 wedi cael gwaith. Rydym wedi addasu'r rhaglenni i ddarparu allgymorth parhaus yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed.
36. Ers mis Ebrill 2020, mae 6,620 o bobl wedi cael cymorth i wella eu sgiliau ac mae bron i 3,000 wedi cael gwaith. Mae Cymru'n Gweithio wedi helpu dros 20,000 o bobl ers mis Ebrill 2020 gyda chynghor, arweiniad a chymorth ar draws amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys dysgu ar-lein am ddim i weithwyr ar ffyrlo.
37. Rydym wedi cyrraedd ein targed o greu 100,000 o brentisiaethau uchel eu hansawdd yn nhymor y Senedd hon, gan alluogi pobl i ddatblygu sgiliau ac ennill cyflog. Rydym yn parhau i gynnig cymhellion o hyd at £3,000 i helpu i recriwtio prentisiaid.
38. Rydym hefyd wedi treialu Gradd-brentisiaethau, gan ganolbwyntio ar fylchau sgiliau ym maes Digidol/TGCh ac Uwch Beirianeg. Dros dymor y Senedd hon, byddwn wedi dyrannu £575m ar gyfer prentisiaethau a hyfforddeiaethau. Ers 2014, rydym wedi helpu 26,700 o bobl i gael gwaith ac wedi cefnogi 112,800 o gymwysterau drwy fuddsoddiad gwerth £861m o raglen Cronfa Strwythurol yr UE. Roedd y Rhaglen Cymorth Cyflogadwyedd, a gafodd ei lansio yn 2016, wedi cyrraedd dros 1,800 o gyfranogwyr dros yr un cyfnod. Cafodd 745 o'r rheini waith. Mae cyflwyno'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol yn genedlaethol ym mis Medi 2019 wedi helpu gweithwyr i ailhyfforddi a dod o hyd i waith newydd mewn meysydd lle mae galw am sgiliau.
39. Mae ein system flaengar a theg ar gyfer rhoi cymorth i fyfyrwyr, yr unig un yn Ewrop sy'n rhoi grantiau a benthyciadau costau byw i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig amser llawn a rhan-amser, wedi cyfrannu at gynnydd o 51% mewn ôl-raddedigion amser llawn, blwyddyn gyntaf o Gymru, a chynnydd o 20% mewn ôl-raddedigion rhan-amser o Gymru ers blwyddyn academaidd 2015/16. Mae ein dwy Raglen Seren newydd wedi cyfrannu at nifer uwch nag erioed o fyfyrwyr o gefndir difreintiedig ac anraddodiadol yng Nghymru yn mynd ymlaen i addysg uwch.
40. Mae ein cynllun ReAct yn helpu pobl sydd wedi cael eu diswyddo neu wedi colli gwaith am reswm arall, a hynny drwy gymhorthdal cyflogau a hyfforddiant cysylltiedig â gwaith. Rydym wedi ehangu'r cynllun eleni ac ers mis Ebrill 2020, mae ReAct wedi

darparu bron i 2,000 o grantiau hyfforddiant galwedigaethol i ddysgwyr ac wedi dyfarnu cymorthdaliadau cyflogau i bron i 300 o gyflogwyr.

41. Roedd mis Tachwedd 2020 yn nodi 20 mlynedd ers sefydlu Cronfa Ddysgu Undebau Cymru sydd, ers mis Ebrill 2020, wedi cefnogi dros 5,000 o bobl drwy ddysgu wedi'i achredu a heb ei achredu, cyngor ac arweiniad ar sgiliau hanfodol a chamu ymlaen mewn gyrfa. Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg wedi darparu hyfforddiant i dros 2,000 o weithwyr er mwyn ehangu'r sylfaen talent ddigidol a chefnogi sgiliau'r gweithlu mewn sectorau allweddol fel uwch beirianeg. Mae'r rhaglen hon yn ategu ein buddsoddiad £12m yng nghlwystr lled-ddargludo cyfansawdd cyntaf y byd yng Nghasnewydd, sy'n cyflogi 1,500 o bobl ac yn ein rhoi ar flaen y gad o ran technoleg sydd gyda'r gorau yn y byd.
42. Mae ein Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith wedi bod yn hollbwysig o ran helpu pobl i aros mewn gwaith drwy ffisiotherapi, therapi seicolegol a therapi galwedigaethol. Ers mis Medi 2015, mae'r Gwasanaeth wedi cefnogi bron i 7,200 o bobl gan gynnwys 3,800 gyda phroblemau cyhyrsgerbydol a 3,400 gyda chyflyrau iechyd meddwl. Hefyd, mae ein Gwasanaeth Di-waith wedi gweithio gyda dros 13,000 o bobl, gan helpu dros 2,700 i ennill tystysgrif neu gymhwyster sy'n gysylltiedig â gwaith, a helpu dros 1,000 o bobl i gael gwaith.

Polisi mudo

43. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod pobl o wledydd eraill sydd wedi dewis ymgartrefu yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u bod yn aelodau gwerthfawr o'n cymunedau, gan eu bod yn cyfrannu mewn cymaint o ffyrdd, yn enwedig at gyfoeth economaidd a sylfaen drethu ein gwlad. Rydym yn parhau i annog Llywodraeth y DU i ymgysylltu â ni ar yr holl faterion mudo sydd â goblygiadau trawsbynciol i lawer o agweddau ar y polisiau a'r gwasanaethau cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol am eu cyflawni.
44. O ystyried cryfder buddiannau Cymru mewn cysylltiad â mudo, rydym yn awyddus i ymgysylltu'n ystyrlon â Llywodraeth y DU ynghylch yr agwedd hon ar ei pholisi, y newidiadau i'r system mewnfudo a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2021, a goblygiadau hyn i anghenion a blaenoriaethau busnesau a gwasanaethau rheng flaen hanfodol yng Nghymru.

Cefnogi dinasyddion yr UE i aros yn aros yng Nghymru

45. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gythryblus i lawer, ond yn enwedig i ddinasyddion a ddaeth o leoedd eraill yn Ewrop i ddechrau ac sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru. Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod hawliau a statws dinasyddion yr UE yng Nghymru yn cael eu gwarchod. Rydym yn parhau i helpu gwladolion yr UE i wneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) er mwyn sicrhau eu hawliau drwy ddarparu cymorth a chyngor am ddim iddynt. Tynnwn sylw at ddyddiad cau'r Cynllun, sef 30 Mehefin 2021.
46. Yn ogystal ag ariannu Newfields Law a Chyngor ar Bopeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyngor a chymorth, rydym yn gweithio'n agos gyda Grŵp Cydgysylltu EUSS Cymru sy'n cynnwys nifer o sefydliadau eraill yng Nghymru (gan gynnwys cyllid

gan y Swyddfa Gartref), ac sy'n gweithio i gyflenwi eu gwasanaethau ledled Cymru mewn modd cyd-drefnus, sydd wedi'i gynllunio ac sydd â ffocws clir.

47. Rydym yn dal yn bryderus ynglŷn â'r nifer o ddinasyddion yr UE agored i niwed yng Nghymru nad ydynt o bosibl yn gallu sicrhau eu statws preswlydd sefydlog neu breswlydd cyn-sefydlog am amryw o wahanol resymau, ac y gallai eu statws yn y DU fod yn ansicr, gan arwain at effeithiau cyfatebol ar eu mynediad at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gwaith Teg

48. Rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau a'n huchelgeisiau ar gyfer gwlad o waith teg, gan ddefnyddio pob dull posibl i sicrhau canlyniadau gwaith teg a gwella bywyd gwaith pobl er gwell. Rydym yn arfer pŵer pwrs y wlad a'n dull gweithredu partneriaeth gymdeithasol i hybu arferion gwaith teg ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu'r Fforwm Gofal Cymdeithasol, sy'n ystyried mesurau i wella amodau gwaith a thâl ym maes gofal cymdeithasol. Rydym wedi sefydlu Fforwm Iechyd a Diogelwch cenedlaethol, sy'n casglu partneriaid cymdeithasol, asiantaethau gorfodi ac eraill ynghyd i wella canlyniadau lechyd a Diogelwch. Hefyd, rydym wedi llwydo i lansio ymgyrch wedi'i thargedu at roi gwybodaeth, adnoddau a chymorth i weithwyr a chyflogwyr er mwyn gwneud gweithleoedd yn well, yn decach ac yn fwy diogel.
49. Nid yw ein cefnogaeth i waith teg wedi'i chyfyngu i werth cymdeithasol a dadleuon moesegol – rydym yn credu bod gwaith teg yn rhan annatod o economi ffyniannus. Mae hyn yn adlewyrchu'r berthynas gref rhwng trin cyflogaion yn deg, lles ac ymgysylltiad cyflogaion, ac ymroddiad uwch, cynhyrchiant uwch, llai o absenoldeb, gwell recriwtio a chadw, ac agweddau eraill ar berfformiad busnesau a'r economi. Mae tystiolaeth ryngwladol o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill yn awgrymu bod safonau llafur uchel a llai o anghydraddoldeb o ran dosbarthiad incwm a chyfoeth yn gallu cefnogi llwyddiant economaidd, ac nad yw'n tanseilio cystadleurwydd o bell ffordd.
50. Byddwn yn cynyddu ein gwaith â phartneriaid cymdeithasol i hybu buddion cyflogwyr ac Undebau Llafur, gan weithio fel partneriaid yn ysbryd cydweithredu, ymroddiad ar y cyd a pharch rhwng y naill ochr a'r llall er mwyn gwneud gweithleoedd yn well i bawb – mae gwella mynediad at Undebau Llafur yn allweddol yn hyn o beth. Mae'r cyflogwyr gorau'n darparu gwaith teg ac yn cydnabod bod hynny o fudd i'w busnes, a byddwn yn parhau i eirioli'r achos economaidd a moesegol dros waith teg wrth inni fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040

51. Bydd Cymru'r Dyfodol, fel y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei alw, yn cefnogi twf yn y sylfaen drethu drwy nodi lle bydd tai a chyflogaeth, a'r gwasanaethau a'r seilwaith i'w cefnogi, yn cael eu lleoli.⁸
52. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cymru'r dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ym mis Chwefror 2021. Bydd Cymru'r Dyfodol yn cwmpasu'r cyfnod o 20 mlynedd hyd at 2040 a bydd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.

⁸ Cymru'r dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040:
<https://llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040-0>

53. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi tair ardal ar gyfer twf cenedlaethol – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, Bae Abertawe a Llanelli, a Chaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno gweld twf cenedlaethol yn yr ardaloedd hyn dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd Cymru'r Dyfodol yn sail i benderfyniadau Llywodraeth Cymru ar wariant a buddsoddiadau i gefnogi twf yn yr ardaloedd hyn.
54. Mae cysylltiadau clir rhwng tai a'r economi, a hynny o ran y buddion economaidd uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag adeiladu tai, a phwysigrwydd bod tai o ansawdd da ar gael i helpu i ddenu a chadw gweithlu i gefnogi'r sylfaen drethu. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod angen 110,000 o gartrefi newydd yng Nghymru erbyn 2039 a bydd y rhain yn ymestyn y sylfaen drethu ar gyfer eiddo preswyl. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y llywodraeth hon. Rydym yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd y targed. Rydym yn hyderus y gallwn gyflawni'r ymrwymiad hwn, yn bennaf diolch i'n buddsoddiad uwch nag erioed o £2bn mewn tai yn ystod tymor y Senedd hon.

2a. Parhau i adolygu'r Dreth Trafodiadau Tir

Sicrhau bod y trethi datganoledig yn gweithredu yn ôl y bwriad ac ystyried cyfleoedd i ddefnyddio'r trethi fel dulliau o gefnogi amcanion polisi ehangach. Mae hyn yn cynwys ystyried effaith y newidiadau dros dro i gyfraddau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir mewn ymateb i effeithiau pandemig COVID-19.

Cefndir

55. Mae gofyn talu Treth Trafodiadau Tir (LTT) ar eiddo preswyl sy'n cael ei brynu yng Nghymru, a'r dreth gyngor yn gylchol hefyd.
56. Codir cyfraddau uwch LTT ar eiddo preswyl ychwanegol y mae unigolion sydd eisoes yn berchen ar eiddo yn ei brynu – er enghraifft, ail gartrefi, eiddo prynu-i-osod – ac wrth brynu unrhyw eiddo preswyl os nad yw'r prynwr yn unigolyn, er enghraifft cwmni.
57. Cyflwynwyd treth ar gyfradd uwch ar eiddo ychwanegol ar gyfer treth dir y dreth stamp (SDLT) ym mis Ebrill 2016. Wrth gyflwyno LTT yn lle SDLT yng Nghymru, cafodd y cyfraddau uwch eu dyblygu oherwydd bod rhanddeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd cysondeb ar draws y trethi ac oherwydd y swm sylweddol o refeniw a godir gan yr elfen hon o'r dreth. Pe na fyddai'r cyfraddau uwch wedi cael eu dyblygu, byddai wedi bod yn ofynnol codi'r refeniw yma gan drethdalwyr eraill er mwyn cynnal y cyllid sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd swm net yr arian a godir yn sgil newidiadau mis Rhagfyr 2020 (a fydd yn £14m yn 2021-22 yn ôl amcangyfrifon yr OBR) yn cael ei ddefnyddio i ariannu mentrau tai cymdeithasol.
58. Wrth graffu ar Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, awgrymwyd y dylai awdurdodau lleol allu cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch gordal cyfraddau uwch, er mwyn helpu i fodloni anghenion gwahanol gymunedau yng Nghymru. Gall awdurdodau lleol gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ac ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd at arweinwyr pob awdurdod lleol yng Nghymru, yn eu gwahodd i ymgysylltu ynghylch rhoi gordal cyfraddau uwch ar waith yn eu hardal unwaith y byddai digon o ddata ar gael i fod yn sail i'r trafodaethau hyn.
59. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a Thrysorlys Cymru'n ymgysylltu'n llawn â gwaith Llywodraeth Cymru o ran y pwysau ar dai mewn rhai ardaloedd, yn enwedig manau poblogaidd i dwristiaid, o ganlyniad i dai yn cael eu prynu fel cartref gwyliau neu fel rhan o fusnes llety gwyliau wedi'u dodrefnu, neu fel y ddau. Mae'r meysydd polisi sy'n berthnasol i'r mater hwn yn rhai eang. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried cyfradd yr LTT a godir wrth brynu cartrefi o'r fath.

Tystiolaeth a dadansoddiad

60. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn cyhoeddi data LTT misol a chwarterol. Mae'n cyhoeddi data blynyddol hefyd. Roedd yr ail ddatganiad ystadegol blynyddol ar gyfer LTT yn cwmpasu'r ail flwyddyn weithredu (2019-20), gan ddarparu gwybodaeth amrywiol am drafodiadau eiddo preswyl⁹.

⁹Ystadegau'r Dreth Trafodiadau Tir: Ebrill 2019 i Mawrth 2020:
<https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir-ebrrill-2019-mawrth-2020>

61. Fel yr oedd wedi'i wneud yn flaenorol, fe wnaeth ACC ddadansoddi'r data LTT yng nghyswllt y cyfraddau uwch ar gyfer eiddo ychwanegol yn ôl awdurdod lleol. Mae'r data'n dangos amrywiaeth helaeth rhwng awdurdodau lleol o ran lefel y trafodiadau preswyl cyfradd uwch fel canran o'r holl drafodiadau preswyl.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

62. Byddwn yn parhau i ystyried y dystiolaeth ynghylch trethu eiddo preswyl, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag awdurdodau lleol i ddeall eu profiad o effaith LTT yn eu hardaloedd. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r ffocws ar yr ystyriaethau o'r effaith leol wedi cynyddu wrth i'r mater o berchnogaeth ail gartrefi gael mwy a mwy o sylw dros y flwyddyn ddiwethaf (gan gynnwys dadl yn y Senedd ar effaith perchnogaeth ail gartrefi¹⁰). Mae Trysorlys Cymru, yn ogystal ag ACC, wedi dechrau ystyried rhai o'r rhyngweithiadau yn y ddeddfwriaeth mewn cysylltiad ag eiddo nad ydynt yn brif breswylfeydd.

63. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno cael tystiolaeth o lwyddiant y gostyngiadau yn nhrethi trafodiadau eiddo amhreswyl i weld a yw'r cam wedi bod o gymorth i fusnesau bach a chanolig wrth iddynt ddechrau adfer yn dilyn y camau mae pandemig COVID-19 wedi eu gorfodi i'w cymryd. Efallai y bydd hi'n anodd nodi newidiadau sylweddol y mae'r newidiadau treth wedi'u hachosi, o ystyried maint y newidiadau ac effeithiau economaidd ehangach y pandemig, ond dylai'r newidiadau helpu busnesau sy'n dymuno ehangu neu ddechrau, yn ogystal â'r rhai sydd angen gwaredu eiddo er mwyn goroesi neu gau.

64. Yn ehangach, byddwn yn ystyried y cwmpas a'r trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o LTT. Bydd yr adolygiad yn cyflawni ymrwymiad yn y ddeddfwriaeth i gynnal adolygiad o LTT cyn pen chwe blynedd ar ôl i'r bil gael Cydsyniad Brenhinol (hy erbyn mis Mai 2023).

¹⁰ Dadl y Senedd ar berchnogaeth ail gartrefi, 23 Medi 2020:
<https://record.assembly.wales/Plenary/6566#A60408>

2b. Parhau i adolygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Sicrhau bod y trethi datganoledig yn gweithredu yn ôl y bwriad ac ystyried cyfleoedd i ddefnyddio'r trethi fel dulliau o gefnogi amcanion polisi ehangach.

Cefndir

65. Mae'r Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi yn sefydlu ac yn amlinellu'r fframwaith a'r trefniadau gweithredol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Hon oedd y dreth amgylcheddol gyntaf i'w chyflwyno yn y DU fel y dreth dirlenwi yn 1996. Cafodd ei datganoli i Gymru ym mis Ebrill 2018. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi bod yn casglu ac yn rheoli'r dreth yn llwyddiannus am y tair blynedd ddiwethaf.
66. Cafodd y rheoliadau LDT cyntaf, a oedd yn gosod y cyfraddau, eu gwneud yn 2018 ac ers hynny maent wedi'u gosod yn flynyddol mewn rheoliadau dilynol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Senedd. Hyd yma, mae ein cyfraddau LDT wedi cyfateb i gyfraddau treth dirlenwi'r DU, yn dilyn ymrwymiad i gynnal cysondeb â dull gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraddau'r dreth dirlenwi o ran cyfraddau is a safonol treth yn y ddwy flynedd gyntaf.
67. Drwy osod cyfraddau sy'n gyson â threth dirlenwi'r DU, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i elwa ar refeniw trethi gan sicrhau bod y risg o wastraff ar draws ffiniau'n cael ei lleihau ar yr un pryd. Yn ogystal â hynny, gallai cyfraddau sefydlog elwa busnesau o ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol, sydd wedi'i achosi gan y pandemig ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Tystiolaeth a dadansoddiad

68. Roedd y refeniw LDT yn £37 miliwn yn 2019-20.
69. Rhagolygon yr OBR ar gyfer LDT, a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb ddrafft, yw £28m yn 2020-21 a £33m yn 2021-22. Y rheswm am y lleihad sylweddol yn 2020-21 yw'r cyfyngiadau symud mewn ymateb i COVID-19. Bydd hyn yn effeithio ar y refeniw yn 2021-22 hefyd. Ceir effaith debyg ar y rhagolygon ar gyfer gweddill y DU.
70. Mae'r ansicrwydd ynghylch y rhagolygon refeniw yn arbennig o ddwys yn y tymor byr o ganlyniad i COVID-19. Fodd bynnag, mae'r model sylfaenol yn destun proses sicrhau ansawdd gadarn y mae Llywodraeth Cymru a'r OBR yn rhan ohoni, ac mae'n seiliedig ar yr wybodaeth fwyaf cyfredol a pherthnasol sydd ar gael ar y pryd.
71. Wrth i ni symud tuag at ein nod uchelgeisiol o Gymru ddiwastraff, bydd llai a llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Disgwylir refeniw is o drethi tirlenwi yn holl wledydd y DU yn y dyfodol.
72. Nod pennaf y gyfradd gwarediadau heb awdurdod yw atal gwaredu gwastraff heb awdurdod, yn hytrach na chodi refeniw trethi. Mae ACC yn datblygu ei ddull gweithredu ar gyfer defnyddio'r pwerau treth newydd hyn er mwyn nodi ble byddent yn gallu cael eu defnyddio'n fwyaf effeithiol i helpu partneriaid ledled Cymru i fynd i'r afael â gwaredu gwastraff heb awdurdod. Yn ystod y cam datblygu hwn, nid yw'r lefelau o ddiffyg cydymffurfedd yn hysbys, felly nid yw'n bosibl mesur y lefel o refeniw posibl.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

73. Cafodd cyfraddau 2021-22 eu cymeradwyo gan y Senedd ym mis Chwefror, a byddant yn cynyddu yn ôl chwyddiant o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae hyn yn parhau â'r polisi o gynnal cysondeb â dull gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraddau treth dirlenwi (gweler tabl deg).

Tabl deg: Cyfraddau LDT (cyfradd fesul tunnell) 2018-19 i 2021-22

Cyfradd	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Safonol	£88.95	£91.35	£94.15	£96.70
Is	£2.80	£2.90	£3	£3.10
Addasiadau	£133.45	£137.00	£141.20	£145.05

74. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn ystyried y cwmpas a'r trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o LDT. Bydd yr adolygiad yn cyflawni ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r dreth cyn pen chwe blynedd ar ôl cytuno ar y ddeddfwriaeth (hy erbyn mis Medi 2023).

3. Datblygu Treth ar Dir Gwag

Parhau i geisio pwerau ar gyfer Treth ar Dir Gwag i ganiatáu i Lywodraeth Cymru ystyried dewisiadau treth er mwyn cefnogi'r amcan polisi o ddefnyddio tir segur yn gynhyrchiol unwaith eto.

Cefndir

75. Fel y cyhoeddwyd yn 2018, mae Llywodraeth Cymru'n ceisio cael pwerau trethu newydd ar gyfer Treth posibl ar Dir Gwag. Byddai hyn yn cefnogi'r amcan polisi o ddefnyddio tir segur yn gynhyrchiol unwaith eto, gan gynnwys tir sydd â chaniatâd yn barod neu dir sydd o fewn y cynllun datblygu lleol, ond nad yw'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Wrth fynd ar drywydd y pwerau treth newydd hyn, rydym yn ceisio cael pwerau a allai roi dull ychwanegol inni o gyflawni ein huchelgeisiau tai ac adfywio ar gyfer Cymru, yn ogystal â phrofi mecanwaith Deddf Cymru sy'n ei gwneud hi'n bosibl datganoli pwerau treth newydd.
76. Ym mis Mawrth 2020, yn dilyn cytundeb yng Nghyd-bwyllgor y Trysorlysoedd bod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Treth ar Dir Gwag wedi'u datblygu'n ddigonol i symud i gam nesaf y broses, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gais ffurfiol i Lywodraeth y DU ar gyfer datganoli cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn. Roedd y cais ffurfiol hwn yn gyson â'r broses y cytunwyd arni rhwng Gweinidogion Cymru a'r DU ar gyfer datganoli pwerau treth newydd i Gymru, fel y darperir gan Ddeddf Cymru 2014. Ar 19 Awst 2020, ymatebodd Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys y byddai angen rhagor o fanylion eto gan Lywodraeth Cymru cyn y byddai modd bwrw ymlaen â'r cais ffurfiol.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

77. Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i safleoedd segur yng Nghymru i helpu i ddyllanwadu ar ddatblygiad polisi ac ar ddyluniad treth bosibl ar dir gwag. Tîm traws-bolisi wnaeth baratoi'r fanyleb ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, gan gynnwys Trysorlys Cymru a'r adrannau sy'n arwain ar gynllunio, tai, adfywio, yr economi a llywodraeth leol, yn ogystal ag ACC. Rydym hefyd wedi gweithio gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys adeiladwyr tai, datblygwyr masnachol, tiffeddianwyr, awdurdodau cynllunio, arolygwyr, cymdeithasau tai a'r trydydd sector.
78. Cafodd Arcadis Consulting (UK) Limited ei benodi gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr ymchwil hwn, sy'n adeiladu ar waith blaenorol yn edrych ar safleoedd datblygu segur yng Nghymru ac yn edrych yn fanylach ar hyd a lled a natur safleoedd segur yn eu cyfanrwydd. Pwrpas yr ymchwil hwn yw sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn y gellir ei defnyddio fel rhan o drafodaethau parhaus ynghylch Treth ar Dir Gwag yng Nghymru, gan ystyried trethiant fel arf polisi i ddwyn ymlaen datblygiadau i gefnogi'r angen o ran tai ac adfywio.¹¹
79. Unwaith y bydd cymhwysedd ar gyfer Treth ar Dir Gwag wedi'i ddatganoli, byddwn yn bwrw ymlaen â rhaglen waith sylweddol i ddatblygu polisi manwl, i ymgysylltu â busnesau a'r cyhoedd yn ehangach, ac yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

¹¹ *Ymchwil i safleoedd segur yng Nghymru* adroddiad terfynol, Arcadis, Mawrth 2020: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/ymchwil-i-safleoedd-segur-yng-nghymru.pdf>

Y canlyniadau a'r camau nesaf

80. Mae profiad Llywodraeth Cymru o ddilyn y proses y cytunwyd arni i geisio pwerau treth newydd wedi bod yn un hir a heriol. Mae'n amlwg nawr bod diffygion difrifol yn y broses y cytunwyd arni ar gyfer datganoli rhagor o gymhwysedd treth ac mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle gallai Llywodraeth Cymru ddadlau'n llwyddiannus o blaid rhagor o gymhwysedd treth o dan y trefniadau presennol
81. Er y byddwn yn parhau i geisio pwerau ar gyfer Treth ar Dir Gwag, byddwn hefyd yn cyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU dros adolygiad a diwygiad brys o'r broses ar gyfer cytuno i ddatganoli pwerau treth newydd.

4. Nodi dewisiadau ar gyfer talu am ofal cymdeithasol yn y dyfodol

Ystyried sut gellid defnyddio trethiant i dalu am ofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o'r ystyriaethau o ran casglu, gweinyddu, dosbarthu a gweithredu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynigion.

Cefndir

82. Cafodd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol ei sefydlu i ystyried sut i ymateb i'r angen cynyddol am ofal cymdeithasol, a'i gost gynyddol. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o godi cyllid ychwanegol ar gyfer 'addewid' gofal cymdeithasol yng nghyd-destun cynnig yr Athro Holtham¹² ar gyfer ardoll wedi'i neilltuo i greu cronfa gofal cymdeithasol.
83. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi 2019¹³, mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi llunio ei ddull gweithredu ar gyfer archwilio'r dewisiadau yng nghyd-destun yr ymrwymiad i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac atal a sefydlwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn parhau â chynllun tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach, a'r weledigaeth o wasanaeth di-dor i ddinasyddion.
84. Ar 4 Chwefror 2020, darparodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y Grŵp Rhyngweinidogol¹⁴, gan gynnwys y gwaith a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2020. Elfen allweddol o'r gwaith hwn oedd ymgysylltu a chael 'cyfnod gwranddo', wedi'i ddylunio i ddechrau sgwrs genedlaethol am ofal cymdeithasol a'r heriau sy'n wynebu'r sector, yn enwedig o ran talu am ofal cymdeithasol. Byddai hefyd yn adlewyrchu'r dysgu o'r gwaith wedi'i wneud eisoes yn hyrwyddo achos cadarnhaol dros drethiant yng Nghymru.
85. Cafodd y cyfnod gwranddo ei ganslo o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd nifer o'r rhanddeiliaid yr oedd Llywodraeth Cymru'n dymuno ymgysylltu â nhw ynghylch y materion heriol hyn yn ymwneud yn helaeth â'r ymateb rheng flaen i'r pandemig. Ond er bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith anochel, mae cynnydd wedi'i wneud ar agweddau eraill ar waith y Grŵp Rhyngweinidogol. Mae hyn yn cynnwys: datblygu gwybodaeth, casglu a dadansoddi tystiolaeth i ddeall sut gellid codi unrhyw gyllid i gefnogi addewid gofal cymdeithasol, a chost dewisiadau posibl ar gyfer addewid gofal cymdeithasol.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

86. Wrth ystyried sut gellid ariannu addewid gofal cymdeithasol, mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi dilyn y pedair egwyddor allweddol a nodir yn adroddiad annibynnol yr Athro Holtham. Dyma'r egwyddorion:
 - Archwilio pwysigrwydd neilltuo yng nghyd-destun derbynioldeb ymysg y cyhoedd o unrhyw gynnig newydd;

¹² *Talu am Ofal Cymdeithasol*, Adroddiad Annibynnol yr Athro Holtham, Mehefin 2018: <https://llyw.cymru/talu-am-ofal-cymdeithasol>

¹³ Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2019: <https://llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019>

¹⁴ Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am waith y Grŵp Rhyngweinidogol, gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 4 Chwefror 2020: <https://record.assembly.wales/Plenary/6079#A56122>

- Pwysigrwydd graddoliad a thegwch rhwng y cenedlaethau;
 - A ddylai budd-daliadau fod yn gysylltiedig â chyfraniadau ariannol;
 - A ddylai'r dull gweithredu ar gyfer cynhyrchu adnoddau ddilyn y patrwm traddodiadol 'talw-wrth-ddefnyddio' i fodloni'r costau uniongyrchol, neu fod yn seiliedig ar ddull gweithredu 'wedi'i ariannu' fel bod o leiaf rhywfaint o'r adnoddau a gynhyrchir yn cael eu buddsoddi er mwyn talu costau gofal yn y dyfodol.
87. Yn ogystal â hynny, mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi ystyried enghreifftiau rhyngwladol ac wedi defnyddio'r wybodaeth a'r arbenigedd yn ACC.
88. Yng nghyd-destun yr egwyddorion a nodir uchod, mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi ystyried y canlynol:
- Y *gofyniad cyllido* ar sail flynyddol a chylchol;
 - Gwerth *neilltuo* o'i gymharu â chadw hyblygrwydd ar gyfer anghenion yn y dyfodol;
 - Yr *egwyddor gyfrannol* (y syniad y byddai'r budd-dal ar gael ar sail cyfraniad yn unig, fel drwy gynllun tebyg i yswiriant, yn hytrach na drwy drethiant cyffredinol);
 - Cyfleoedd i fynd i'r afael â *thegwch rhwng y cenedlaethau* drwy amrywio cyfraddau treth yn ôl oedran;
 - Pwysigrwydd *graddoliad i'r rhaglen gyfan* – cydbwysu treth raddoedig ag addewid a allai gynnwys cydran lai graddoedig, fel trefn codi tâl fwy hael;
 - *Ystyriaethau a chostau casglu a gweinyddu* – mae dewisiadau referniw mwy pwrpasol a chymhleth yn debygol o gynyddu costau gweinyddu;
 - Awydd Llywodraeth y DU am ddatganoli rhagor o drethi ar sail y diffyg cynnydd hyd yma o ran datganoli pwerau ar gyfer Treth syml ar Dir Gwag;
 - Archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno treth Gymreig heb ateb i'r DU gyfan, ac effeithiolrwydd a chyfyngiadau posibl hynny yn ymarferol.
89. Wrth edrych ar y mater o degwch rhwng y cenedlaethau, cafwyd cyngor cyfreithiol annibynnol ar rinweddau cydran cysylltiedig ag oedran ar gyfer treth incwm ac mae hynny wedi dylanwadu ar waith meddwl pellach. Yn ogystal â hynny, mae cyngor cyfreithiol ar wahân ar y paramedrau ar gyfer sefydlu a gweithredu cronfa fuddsoddi yng Nghymru, fel yr hyn sy'n caei ei awgrymu gan yr Athro Holtham, yn cael ei geisio ar hyn o bryd.
90. Hefyd mae ACC wedi darparu arbenigedd ar ddylunio trethi er mwyn deall yr ystyriaethau a'r goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig â chasglu, data, gweinyddu, dosbarthu a gweithredu treth newydd. Mae hyn yn hollbwysig i ddatblygu gwybodaeth a galluogrwydd ar gyfer dylunio syniadau newydd sy'n ymwneud â threth. Mae ACC wedi chwarae rôl bwysig yn helpu i asesu syniadau o safbwynt gweithredu ymarferol.
91. Mae'r Grŵp Rhyngweinidogol wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw ateb neu fodel cyllido sy'n cynnwys opsiwn yn ymwneud â threth, yn raddoedig, yn deg i drethdalwyr, ac yn dryloyw o ran sut mae unrhyw referniw ychwanegol a godir yn cael ei wario.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

92. Mae lledaeniad COVID-19 a'r camau i'w reoli wedi arwain at gynnydd sydyn ym menthyca a dyled Llywodraeth y DU¹⁵. Mae'r rhagolygon o ran gweithgarwch economaidd a chyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mewn gwledydd eraill, yn dal yn ansicr iawn. Mae amgylchedd cyllidol mwy a mwy heriol ac ansicr yn golygu bod ateb i'r DU gyfan ar gyfer ariannu gofal cymdeithasol yn fwy a mwy ffafriol, ond mae'n dal yn anodd iawn rhag-weld beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dod i'r casgliad canlynol: "in almost any conceivable world there would be a need, at some point, to raise tax revenues and/or reduce spending (as a share of national income) to put the public finances on a sustainable path".¹⁶
93. Byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid defnyddio arfau polisi treth yng Nghymru, a phryd a sut i wneud hynny, ystyried y canlynol:
- Y posibilrwydd o Lywodraeth y DU yn gweithredu mesurau cyllidol eraill a fyddai'n effeithio ar Gymru;
 - Yr angen i gefnogi adferiad economaidd yng Nghymru i gynhyrchu'r refeniw trethi er mwyn talu am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae sefydliadau annibynnol, fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), wedi rhybuddio rhag peryglon tynhau polisi cyllidol yn rhy gynnwys a rhwystro'r adferiad economaidd o argyfwng COVID-19.
94. Mae'r lleihad tebygol mewn refeniw trethi o ganlyniad i'r lleihad sydyn mewn gweithgarwch economaidd yn golygu y bydd angen refeniw trethi ychwanegol i gefnogi gwariant cyhoeddus presennol o bosibl. Gallai codi trethi ychwanegol i gefnogi gwelliannau pellach neu fuddsoddiadau newydd yn y cyd-destun hwnnw fod yn heriol.
95. Mae'r Grŵp Rhyngweiniadol wedi canolbwyntio ar adeiladu consensws ynghylch yr agenda hon a'r heriau sylfaenol yn y sector drwy ddarparu cyfres o ddatganiadau yn y Senedd, yn ogystal â rhai sesiynau briffio technegol penodol ar waith y Grŵp i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a'r Pwyllgor Cyllid, ym mis Tachwedd 2020. Pwrpas y sesiynau briffio technegol hyn oedd rhannu gwybodaeth am hyd a lled yr heriau o dalu am ofal cymdeithasol, ac i lywio syniadau ar gyfer sut mae ymateb i'r her hon ar draws y Senedd.
96. A thymor y Senedd hon yn dirwyn i ben, bydd y rhaglen waith yn darparu llywodraethau yn y dyfodol â dadansoddiadau defnyddiol a datblygiadau polisi ar gyfer cymorth i'r pwysau cyllido parhaus yn y sector gofal cymdeithasol.

¹⁵ Yn ôl amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol, £8.8 biliwn oedd lefel fenthyca net y sector cyhoeddus y DU ym mis Ionawr 2021, £18.4 biliwn yn fwy o'i chymharu â mis Ionawr 2020, a'r lefel fenthyca uchaf erioed ym mis Ionawr ers dechrau cadw cofnodion misol yn 1993, a'r diffyg ariannol cyntaf a gofnodwyd ym mis Ionawr ers deng mlynedd. Cynyddodd dyled net y sector cyhoeddus gan £316.4 biliwn dros ddeng mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, gan gyrraedd £2,114.6 biliwn erbyn diwedd mis Ionawr, oddeutu 97.9% o gynnyrch domestig gros; gan gynnal lefel nas gwelwyd ers y chwedegau cynnar.

<https://cy.ons.gov.uk/economy/governmentpublicsectorandtaxes/publicsectorfinance/bulletins/publicsectorfinances/january2021>

¹⁶ *Fiscal Sustainability Report*, Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Gorffennaf 2020, tudalen 18 (Saesneg yn unig):

<https://obr.uk/fsr/fiscal-sustainability-report-july-2020/>

5. Ystyried yr achos dros ddatblygu trethi amgylcheddol newydd i Gymru, gan weithio gyda Llywodraeth y DU lle bo hynny'n briodol

Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu a gweithredu Treth Pecynnau Plastig ar draws y DU gyfan, a datblygu sylfaen dystiolaeth i gael gwell dealltwriaeth o effaith trethi eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd.

Cefndir

Pecynnau plastig

97. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i archwilio'r dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â defnyddio a gwastraffu plastig yn ddiangen, gan gydnabod manteision dull gweithredu cyson ar draws y DU. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi ymgynghoriadau ar dreth pecynnau plastig yn y DU, cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr dros becynnau, a chynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.
98. Fel rhan o Gyllideb y DU ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad pellach ar ddyluniad manwl y dreth pecynnau plastig. Cyhoeddwyd crynodeb o'r canfyddiadau ym mis Tachwedd 2020, ynghyd â'r ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft ar gyfer ymgynghoriad technegol. Daeth yr ymgynghoriad technegol i ben ym mis Ionawr 2021.

Cwpanau plastig untro

99. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio'r potensial ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau plastig untro. Roedd ymgynghoriad 'Mwy nag Ailgylchu' Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2020, yn gofyn am safbwyntiau ar y cynigion ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau plastig a chynwysyddion bwyd untro yng Nghymru. Cafodd crynodeb o'r ymatebion ei gyhoeddi ym mis Medi 2020 (gweler paragraff 107 isod).
100. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau pwerau newydd i Weinidogion Cymru o dan Fil Amgylchedd y DU, gan gynnwys y pŵer i osod tâl ar gynnyrch plastig untro, a allai gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â chwpanau plastig untro sydd wedi'u gwneud o blastig yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Ardoll Agregau

101. Mae Llywodraeth y DU wedi cwblhau ei hadolygiad o Ardoll Agregau'r DU (UKAL) a chafodd crynodeb o'r canfyddiadau ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020 (gweler paragraff 108 isod).
102. Fel rhan o ganfyddiadau'r adolygiad, roedd Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei hymrwymiad i barhau i adolygu'r posibilrwydd o ddatganoli UKAL i Gymru, gan nodi effeithiau trawsffiniol fel pryder penodol.

Tystiolaeth a dadansoddiad

Pecynnau plastig

103. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hwyluso ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru mewn perthynas ag ymgynghoriadau diweddar Llywodraeth y DU. Ym mis Mai 2020, cafodd rhanddeiliaid yng Nghymru eu hannog i fynychu digwyddiad rhannu gwybodaeth am y dreth pecynnau plastig dan arweiniad Llywodraeth y DU. Ym mis Awst fe wnaeth Llywodraeth Cymru, ynghyd â WRAP Cymru a Llywodraeth y DU, arwain digwyddiad ymgysylltu yn benodol i randdeiliaid yng Nghymru sy'n rhan o'r diwydiant pecynnau plastig. Drwy gydol 2020, manteisiwyd ar gyfleoedd i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru ar y mesurau cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr.

Cwpanau plastig untro

104. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adeiladu sylfaen dystiolaeth i asesu rhinweddau cyflwyno treth neu dâl Cymreig ar gwpanau plastig untro. Mae diffyg data ar y defnydd o gwpanau untro, ond amcangyfrifir bod tua 2.5 biliwn o gwpanau coffi untro yn cael eu defnyddio yn y DU bob blwyddyn¹⁷, er mae rhai amcangyfrifon yn awgrymu y gallai'r ffigur fod yn agosach i 5 biliwn erbyn hyn¹⁸, a chyn uchod â 10 biliwn ar ôl cynnwys yr holl gwpanau untro. Gan dybio bod 5 biliwn o gwpanau coffi untro yn cael eu defnyddio yn y DU bob blwyddyn, amcangyfrifir y gallai tua 237 miliwn fod yn cael eu defnyddio yng Nghymru¹⁹.

105. Ffactor arall i'w ystyried yw'r cynnydd mewn cwpanau amldefnydd. Mae ymchwil²⁰ yn awgrymu bod 44% o ddefnyddwyr yng Nghymru wedi defnyddio cwpan amldefnydd o leiaf unwaith yn ystod 2020. Yn ôl yr amcangyfrifon, roedd cynnydd o 8% yn y defnydd o gwpanau amldefnydd yn gyffredinol hyd ddiwedd 2019.

106. Mae cynlluniau ailgylchu gwirfoddol wedi helpu i gefnogi'r farchnad, ond dim ond hyn a hyn gallant ei gyflawni. Mae'r cynlluniau presennol yn debygol o ddarparu ar gyfer cyfran o'r farchnad yn unig.

107. Mae'r adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad 'Mwy nag Ailgylchu' yn crynhoi safbwyntiau 200 o ymatebion ysgrifenedig, yn ogystal â thua 800 o ymatebion ychwanegol gan bobl a fynegodd eu safbwyntiau mewn digwyddiadau ymgysylltu. O blith y gyfran isel o ymatebion a oedd wedi trafod trethi neu dâl ar gwpanau untro yn uniongyrchol, roedd rhai o blaid, rhai yn erbyn, ac roedd gan rai ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth. Yn fwy penodol, roedd yr ymatebion yn mynegi diddordeb yn y ffordd orau o ddefnyddio

¹⁷ 'Where will your coffee cup end up? Not in the recycling' (Saesneg yn unig):

<https://conversation.which.co.uk/food-drink/recycling-disposable-coffee-cups-starbucks/>

¹⁸ Deunydd Pacio Untro: Ymchwiliad i Gwpanau Coffi a Photeli Plastig, y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol. Tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i chyflwyno gan Eunomia (Saesneg yn unig):

<http://data.parliament.uk/WrittenEvidence/CommitteeEvidence.svc/EvidenceDocument/Environmental%20Audit/Packaging/written/70645.html>

¹⁹ Opsiynau ar gyfer cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig: gwastraff pecynnu bwyd a diod, adroddiad ymchwil gan Eunomia:

<https://llyw.cymru/opsiynau-ar-gyfer-cyfrifoldeb-cynhyrchwyr-estynedig-gwastraff-pecynnu-bwyd-diod>

²⁰ 'Adolygiad o'r farchnad coffi y tu allan i'r cartref yng Nghymru', gan Brookdale and Category-Insight Consulting, Ionawr 2021:

<https://llyw.cymru/adolygiad-o-farchnad-coffi-tu-allan-ir-cartref-yng-nghymru>

ein pwerau cyllidol i gefnogi'r broses o bontio i economi gylchol²¹. Er enghraifft, roedd yr ymatebion yn trafod buddion trethi neu dâl ar blastig untro, fel bagiau siopa neu gwpanau/cytlteri, ond hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ategu trethi neu dâl â mentrau sy'n hybu aildefnyddio deunyddiau a chynnyrch, yn hytrach na newid o un adnodd untro i un arall.

Ardoll Agregau

108. Yn ystod yr adolygiad o'r ardoll agregau²², roedd nifer o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ynglŷn â goblygiadau gwahanol ardollau ar agregau yn yr Alban a gweddill y DU yn y dyfodol, ac am y posibilrwydd o ddatganoli i Gymru.
109. Roedd y rhanddeiliaid wedi cyfeirio at y problemau presennol ynghylch cydymffurfio a chystadleuaeth sy'n wynebu busnesau yng Ngogledd Iwerddon o ganlyniad i'r ffin â Gweriniaeth Iwerddon. Roedd yr holl randdeiliaid a fynegodd farn yn awyddus cadw'r cysondeb agos rhwng strwythur UKAL ac ardoll yr Alban ar agregau, gan alw am y cysondeb mwyaf posibl rhwng dyluniad a chyfradd y trethi ar ôl datganoli.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

Pecynnau plastig

110. Wrth gydnabod yr ymateb gan y diwydiant yng Nghymru y dylai unrhyw ymyriadau polisi gael eu rhoi ar waith mewn modd cyson ledled y DU, bydd yn bwysig cynnal dull cydweithredol o weithio ar draws llywodraethau. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar roi trefniadau ar waith ar gyfer y dreth pecynnau plastig.
111. Mae gweithgor y diwydiant ar gyfer y dreth pecynnau plastig wedi cael ei sefydlu. Bydd yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau masnach ar draws amrywiaeth o sectorau ac sydd â buddiannau busnes yn holl wledydd y DU. Bydd y gweithgor yn ystyried manylion y dreth, yn benodol y meysydd y tynnwyd sylw atynt yn y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddyluniad y polisi.
112. Yn dilyn ei hymgyngoriad ar y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y dreth, bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth mewn Bil Cyllid yn y dyfodol. Wedyn bydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau yn cael eu cyhoeddi. Bydd hyn yn darparu rhagor o fanylion a fydd yn hanfodol i fusnesau er mwyn iddynt allu paratoi'n briodol ar gyfer y dreth, a bodloni'r gofynion newydd o fis Ebrill 2022 ymlaen.
113. Disgwylir ymgynghoriadau pellach ar gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr a'r cynllun dychwelyd ernes yn ystod gwanwyn 2021.

Cwpanau plastig untro

114. Oherwydd y diffyg data ar gwpanau untro, mae angen gwell tystiolaeth ar y cwpanau untro sy'n cael eu rhoi ar y farchnad a'u hailgylchu yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gasglu rhagor o dystiolaeth gan y diwydiant ar gwpanau untro,

²¹ Ymatebion i'r ymgynghoriad 'Mwy nag Ailgylchu', Medi 2020:

https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-09/tu-hwnt-i-ailgylchu-crynodeb-o-ymatebion_1.pdf

²² Adolygiad Llywodraeth y DU o'r Ardoll Agregau (Saesneg yn unig):

<https://www.gov.uk/government/publications/review-of-the-aggregates-levy>

gan gynnwys data 'rhoi ar y farchnad', tueddiadau'r farchnad a chyfraddau ailgylchu ledled y DU.

115. Yn y cynlluniau arfaethedig ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr mewn cysylltiad â phecynnau, bydd y rhai sy'n cynhyrchu gwastraff ar ffurf pecynnau sy'n cael eu taflu i'r sbwriel fwyaf, fel pecynnau bwyd brys a chwpanau untro, yn gyfrifol am gostau rheoli'r cynhyrchion hyn ar ddiwedd eu hoes. Bydd hyn yn gymhelliant cryf i'r cynhyrchwyr hyn atal sbwriel. Yn ogystal â hynny, bydd gofyn i werthwyr diodydd mewn cwpanau untro gasglu'r cwpanau hyn yn ôl yn y siop i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu hailgylchu. Yn y tymor hwy, bydd targedau'n cael eu gosod a bydd hyn yn helpu i hwyluso cynnydd mewn ailgylchu cwpanau untro 'wrth fynd', mewn mannau fel canolfannau trafndiaeth.
116. O ystyried effaith cynhyrchu a gwaredu cwpanau untro ar yr amgylchedd, mae achos dros archwilio mesurau atal i helpu i leihau eu defnydd yn gyflymach ar lefel defnyddwyr, a hynny drwy osod tâl neu dreth pan fyddant yn cael eu prynu, ac i hyrwyddo'r defnydd o ddewisiadau amgen sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd, fel cwpanau amldefnydd.
117. Mae nifer o ddewisiadau ar gael i fynd ar drywydd trethi neu dâl Cymreig ar gwpanau plastig untro. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer y mecanwaith sydd ar gael ar gyfer cyflwyno trethi Cymreig newydd (gan nodi'r problemau presennol â'r broses, a'r angen i'w hadolygu a'i diwygio). O ran codi tâl, mae darpariaethau Bil Amgylchedd y DU ar gyfer tâl ar eitemau plastig untro yn cael eu harchwilio. Mae amserlenni gwahanol i'r ddau ddewis ac mae angen ystyried nifer o ffactorau ymhellach, gan gynnwys asesu unrhyw effeithiau posibl a goblygiadau anfwriadol. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar ddatblygu'r ddwy broses.
118. Cyhoeddwyd y strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu' ym mis Chwefror 2021²³. Mae'n nodi safbwynt ar gwpanau untro er mwyn datblygu dewisiadau ar gyfer treth neu dâl ar gwpanau plastig a chynwysyddion bwyd untro yng Nghymru. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi camau gweithredu i gael gwared ar eitemau untro diangen o ddigwyddiadau a gweithgareddau arddangos eraill yng Nghymru. Yn y lle cyntaf, bydd hyn yn cynnwys annog pobl i wahardd cwpanau untro o lawer o stadia yng Nghymru.
119. Byddai gofyn i unrhyw fesur codi tâl neu dreth bosibl ar gwpanau diod untro gael ei gyd-drefnu'n ofalus â'r mentrau priodol ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, y cynllun dychwelyd ernes, a gwaharddiadau ar eitemau plastig untro penodol. Bydd yn bwysig hefyd bod unrhyw effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn nyluniad polisïau i sicrhau effaith gymesur ar draws gwahanol grwpiau cymdeithasol. Yr hyn fydd yn allweddol i'n dull gweithredu yma yng Nghymru fydd sicrhau bod y camau gweithredu cywir yn cael eu cymryd i adeiladu ar yr agenda flaengar sydd gan Gymru o ran gwastraff.

Ardoll Agregau

120. Fel rhan o'r camau nesaf, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau cynlluniau i gynnal ymgynghoriad pellach ac ymgysylltu ar y materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad, ac mae wedi ymrwymo i archwilio ffyrdd newydd o gasglu data. Bydd Lywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ymarferion

²³ Strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu', cyhoeddwyd Chwefror 2021:
<https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu>

ymgyngori ac ymgysylltu yn y dyfodol, ac yn helpu i ysgogi mewnbwn gan randdeiliaid yng Nghymru.

121. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth yr Alban wrth iddi fwrw ymlaen â gwaith i ddatganoli'r ardoll, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o oblygiadau posibl datganoli. Bydd hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr ag adolygiad o'r llifoedd a'r farchnad agregau yng Nghymru.

6. Archwilio'r achos dros alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno Treth Twristiaeth

Parhau i gasglu tystiolaeth ac i drafod ac asesu, gydag amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr, a oes achos dros ddarparu pwerau caniataol i awdurdodau lleol roi treth twristiaeth ar waith (ni fyddai hyn yn berthnasol i dymor y Senedd hon). Bydd hyn yn cynnwys ystyried goblygiadau parhaus COVID-19 i'r diwydiant twristiaeth.

Cefndir

122. Gall trethi ar dwristiaeth fod ar sawl ffurf, ond treth ar lety dros nos yw un o'r rhai mwyaf cyffredin. Rydym wedi monitro datblygiadau o ran treth twristiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol ers 2018, ac ein bwriad o'r blaen oedd cyhoeddi cais am dystiolaeth mewn cysylltiad â threth twristiaeth yn 2020. Fodd bynnag, cafodd y gwaith hwn ei oedi yng ngwanwyn 2020 yn sgil ansicrwydd COVID-19 a'i effaith barhaus ar letygarwch.

Tystiolaeth a dadansoddiad

123. Rydym yn parhau i fonitro cynnydd ac ystyried enghreifftiau, yn rhyngwladol ac yn y DU, o sut mae trethi twristiaeth yn gweithio'n ymarferol. Bydd yn bwysig parhau i wneud hyn yn 2021 wrth inni ystyried goblygiadau posibl COVID-19 ar drethi twristiaeth yn rhyngwladol, wrth i'r diwydiant geisio adfer o effaith y pandemig. Mae angen archwilio ac ystyried nifer o faterion polisi ymhellach, gan gynnwys cyfraddau Treth ar Werth ar lety i dwristiaid, yn enwedig nawr bod y DU wedi gadael yr UE, a sut byddai trethi ar dwristiaeth leol yn croestorri meysydd polisi allweddol eraill, fel trethi lleol a phwysau rheoleiddiol presennol, a'r angen posibl am gofrestru statudol.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

124. Cafodd y gwaith o archwilio'r potensial ar gyfer Treth Twristiaeth yng Nghymru ei oedi yn 2020 oherwydd effaith COVID-19. Mae Llywodraeth Cymru yn y dyddiau cynnar o ailafael yn y gwaith. I ddechrau, rydym yn canolbwyntio ar ystyried y potensial codi refereniw gyda'r bwriad o alluogi Llywodraeth nesaf Cymru i fwrw ymlaen â hyn os yw'n dymuno. Bydd y gwaith hwn yn parhau yng nghyd-destun yr angen i gefnogi'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau yn ystod yr adferiad.

7. Cwblhau'r rhaglen gyhoeddedig o welliannau tymor byr a thymor canolig i drethi lleol

Mae'r diweddariad ar Ddiwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, yn nodi'r camau gweithredu i'w cymryd dros y flwyddyn nesaf [2020] er mwyn cwblhau'r gwaith i wella cyfraddau annomestig a'r dreth gyngor, yn unol â'n hymrwymiaidau yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Cefndir

125. Yn ein Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yn 2016, roeddem wedi ymrwymo i wneud y dreth gyngor yn fwy teg, i ddarparu cymorth i fusnesau bach, ac i gefnogi cynaliadwyedd llywodraeth leol yn y dyfodol. Yn dilyn hynny fe wnaethom ddechrau ar raglen weithredu cam wrth gam. Ers hynny, mae llawer o'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig wedi cael eu cyflawni o ganlyniad i gryn ymdrech a chydweithredu rhwng llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac amrywiaeth o sefydliadau eraill.
126. Mae rhagor o fanylion am y rhaglen waith y cytunwyd arni a'n llwyddiannau hyd yma wedi cael eu darparu mewn adroddiadau blynyddol ers 2017²⁴. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r posibiladau o ran diwygio dros y tymor hwy, gan grynhoi canfyddiadau'r rhaglen waith a gyflawnwyd dros dymor y Senedd hon i ddylanwadu ar y ddadl cyn tymor y Senedd nesaf.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

Y Dreth Gyngor

127. Ymysg ein llwyddiannau dros dymor y Senedd hon mae eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag y dreth gyngor nes eu bod yn 25 oed, cael gwared ar y gosb o garcharu am beidio â thalu'r dreth gyngor, gwella'r mynediad at ostyngiadau i bobl â namau meddyliol difrifol, gweithredu protocol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar gyfer rheoli'r gwaith o gasglu'r dreth gyngor ac ôl-ddyledion, ac annog pobl i fanteisio ar ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a chymorth arall ar gyfer y dreth gyngor.
128. Rydym wedi parhau i gyflawni ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i helpu pobl i gael dau ben llinyn ynghyd. Bob blwyddyn, rydym wedi rhoi £244m i awdurdodau lleol er mwyn ariannu gostyngiadau'r dreth gyngor o dan y Cynllun. Mae hyn wedi lleihau biliau treth gyngor blynyddol tua 280,000 o aelwydydd. Nid yw'r rhan fwyaf o'r aelwydydd hyn – tua 220,000 – yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl²⁵.
129. Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi bod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, o ran sicrhau ei fod yn helpu aelwydydd agored i niwed ac incwm isel yn y ffordd fwyaf teg bosibl, ac o ran ymestyn ei gyrhaeddiad. Dyna un rheswm pam ein bod wedi comisiynu ymchwil manwl gan Policy in Practice ym mis Ionawr 2019 i daflu goleuni ar effaith Credyd Cynhwysol ar ein cynllun cymorth treth gyngor cenedlaethol, ar ddyledion y dreth gyngor, ac ar ôl-ddyledion rhent yng Nghymru.

²⁴ Diwygio cyllid llywodraeth leol: diweddariadau blynyddol:

<https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-diweddariadau-blynyddol>

²⁵ Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: adroddiadau blynyddol:

<https://llyw.cymru/cynllun-gostyngiadau-r-dreth-gyngor-adroddiadau-blynyddol>

Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2020²⁶ ac mae angen inni nawr fyfyrion ofalus ynghylch a oes angen ailfeddwl yn sylfaenol am y cynllun er mwyn lliniaru yn erbyn effaith diwygio lles.

130. Rydym hefyd wedi darparu cymorth ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil y cynnydd yn llwyth achosion y Cynllun o ganlyniad i COVID-19. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi darparu £10.9m yn ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn rhoi cymorth i'r rhai sydd wedi gofyn amdano o ganlyniad i'r effaith ariannol ar incwm aelwydydd. Byddwn yn parhau i fonitro'r defnydd o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn wyneb pandemig, ac rydym wedi ymrwymo i ymateb lle bo'n briodol.
131. Rydym hefyd wedi ymestyn yr hyblygrwydd sydd ar gael i awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r dreth gyngor. Ers 1 Ebrill 2017, mae cynghorau wedi gallu codi premiwm treth gyngor o hyd at 100% ar dai sy'n wag yn y tymor hir (heb ddodrefn ac wedi bod yn wag am dros 12 mis) ac ail gartrefi (anheddau nad ydynt yn unig gartref nac yn brif gartref i unigolyn, ac sy'n cynnwys cryn dipyn o ddodrefn). Mae rhai mathau o eiddo wedi'u heithrio o'r premiymau. Pwerau disgresiwn yw'r rhain, a mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu a yw am godi unrhyw bremiwm, ac ar ba lefel. Cyflwynwyd y pwerau mewn ymateb i geisiadau gan rai awdurdodau lleol. Maent yn rhan o becyn adnoddau i helpu awdurdodau i fynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar y cyflenwad tai lleol: ni chawsant eu cyflwyno fel mesur codi referniw.

Ardrethi annomestig

132. O ran ardrethi annomestig, rydym wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian cyhoeddus mewn rhyddhad wedi'i dargedu i fusnesau bach, strydoedd mawr, eiddo lletygarwch a gofal plant; rydym wedi rhoi ymarfer ailbrisio ar waith i gynnal uniondeb y sylfaen drethu, gan gynnwys amddiffyn wrth bontio; ac rydym yn rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig.
133. Rydym ar hyn o bryd yn darparu dros £230m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill drwy ein hamrywiaeth o gynlluniau rhyddhad parhaol sy'n cynnwys Rhyddhad Elusennol a Rhyddhad Eiddo Gwag, yn ogystal â Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Ers 2017-18 rydym wedi darparu rhyddhad ychwanegol i fanwerthwyr a busnesau'r stryd fawr hefyd. Rydym wedi dyrannu £350m yn ychwanegol o gyllid yn 2020-21 i ddarparu rhyddhad ardrethi o 100% i'r holl fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch â gwerth ardrethol o £500,000 neu lai, gan sicrhau bod y sectorau hyn wedi cael cymorth ychwanegol yn y cyfnod anodd hwn.
134. At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £580m o ryddhad i dalwyr ardrethi yng Nghymru eleni. Mae'r cynlluniau rhyddhad ardrethi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod tri chwarter yr holl dalwyr ardrethi yng Nghymru wedi cael rhyddhad ardrethi, ac ni fydd dros 70,000 o fusnesau'n talu unrhyw ardrethi o gwbl.
135. Ar gyfer 2021-22, rydym hefyd yn rhewi'r lluosydd ardrethi annomestig gan sicrhau, cyn rhoi rhyddhad, na fydd biliau ardrethi talwyr ardrethi yn codi. Rydym yn parhau i archwilio'r dewisiadau ar gyfer cymorth pellach yn y flwyddyn dreth nesaf.

²⁶ Credyd Cynhwysol, cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru: <https://llyw.cymru/credyd-cynhwysol-cynllun-gostyngiadau-r-dreth-gyngor-ac-ol-ddyledion-rhent-yng-nghymru>

Diwygio dros y tymor hwy

136. Rydym wedi cyflawni'r uchod o fewn cyfyngiadau ein systemau a'n fframwaith presennol, ond rydym yn cydnabod bod syniadau eraill i'w hystyried. Felly, rydym wedi archwilio a fyddai'n bosibl diwygio'r system yn fwy sylfaenol dros y tymor hwy. Rydym am wneud trethi lleol yn fwy graddoledig ac yn fwy cyson â'n huchelgeisiau polisi ehangach, gan gynnal referniw hollbwysig i wasanaethau lleol ar yr un pryd. Lle bo'n bosibl, rydym am ddefnyddio'r holl arfau sydd ar gael i ni er mwyn trechu tloedi a rhannu cyfoeth.
137. Gyda'r nodau hyn mewn golwg, fe wnaethom gomisiynu ystod o ymchwil manwl i ddylanwadu ar ein syniadau. Cafodd crynodeb o'r gwaith hwn ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021. Hefyd, cafodd ein Cynhadledd Trethi Lleol gyntaf ar yr ymchwil ei chynnal ym mis Tachwedd 2020. Bu hwn yn ymarfer ymgysylltu llwyddiannus lle roedd llawer o'n rhanddeiliaid allweddol yn bresennol, ac fe wnaeth ganiatáu ni i gael gwell dealltwriaeth o ganfyddiadau a'r posibiliadau yn y dyfodol.
138. Mae *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol: Crynodeb o'r Canfyddiadau*²⁷ yn canolbwyntio ar ddyfodol trethi lleol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig – y tu hwnt i dymor y Senedd hon. Mae'n myfyrio ar yr astudiaethau ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Phrifysgol Sheffield am ailbrizio'r dreth gyngor yng Nghymru, a'r posibiliadau gallai hyn eu creu i wneud y system yn fwy graddoledig; ar asesiad cychwynnol Prifysgol Bangor ynghylch a allai treth gwerth tir leol ddisodli'r dreth gyngor neu ardrethi annomestig; ac ar waith Jennie Bunt o Brifysgol Caerdydd sydd wedi archwilio a fyddai'n bosibl seilio trethi lleol ar asesiadau o incwm. At ei gilydd, mae ein cyfres ymchwil yn darparu dadansoddiadau pwysig ac yn amlinellu'r gwaith pellach y byddai angen ei wneud pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu diwygio mewn modd mwy radical.
139. Yn gyffredinol, rydym yn parhau i gydnabod bod gwasanaethau lleol hollbwysig, fel addysg a gofal cymdeithasol, yn dibynnu ar system gyllido deg sy'n addas i'r diben wrth i wasanaethau ddatblygu. Rydym yn defnyddio pob arf sydd gennym i wneud Cymru'n gymdeithas fwy cyfartal, ffyniannus a gwyrdd. Rhaid galluogi llywodraeth leol i barhau i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus i bawb, i ddarparu'r cychwyn gorau mewn bywyd, i roi cymorth i'r rhai sydd ei angen fwyaf, ac i drechu tloedi drwy greu economi ffyniannus sy'n elwa pawb yn deg.

²⁷ Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru: crynodeb o'r canfyddiadau:
<https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-yng-nghymru-crynodeb-or-canfyddiadau>

B. Gweithredu a datblygu trethi Cymru yng nghyd-destun y DU

8. Archwilio sut gallai Llywodraeth Cymru ymateb os bydd angen newid Deddfau Trethi Cymru

Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad: 'Datganoli Trethi yng Nghymru: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru', sy'n archwilio amrywiaeth o sefyllfaoedd ar gyfer y ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gan gynnwys effaith addasiadau i'r grant bloc o ganlyniad i fesurau a gyflwynwyd yng Nghyllideb y DU ar gyfer trethi rhagflaenol y DU (treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi).

Cefndir

140. Ystyrir bod y gallu i sicrhau y caiff Gweinidogion Cymru wneud newidiadau byr rybudd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i 'Ddeddfau Trethi Cymru', yn angenrheidiol mewn nifer o amgylchiadau:
- Er mwyn atal achosion o osgoi neu efadu'r trethi datganoledig;
 - Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol;
 - Mewn amgylchiadau lle mae angen eithriadol, megis mewn ymateb i benderfyniad tribiwnlys neu lysoedd uwch, neu mewn ymateb i argyfyngau cenedlaethol megis COVID-19
 - Mewn amgylchiadau penodol pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny. Yn benodol, fel ymateb i newidiadau i bolisi trethi a wneir gan Lywodraeth y DU i drethi 'rhagflaenol' (hynny yw, un lle mae gennym dreth ddatganoledig gyfatebol).
141. Mae'n bwysig diogelu'r referniw trethi sy'n ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Ar hyn o bryd, mae pob cylch cyllideb y DU yn creu risg o newidiadau sy'n effeithio ar dreth ddatganoledig. Gallai newidiadau o'r fath arwain at oblygiadau i fusnesau, y farchnad eiddo, a chael effaith gyllidebol uniongyrchol ar adnoddau. Gallai hyn fod yn fwy tebygol nawr wrth i fesurau adfer ddechrau cael eu rhoi ar waith. Er enghraifft bydd newidiadau uniongyrchol i dreth dir y dreth stamp, sy'n cynyddu referniw trethi Llywodraeth y DU, yn cynyddu'r addasiad i'r grant bloc ac yn lleihau adnoddau Llywodraeth Cymru. Yn y sefyllfa hon, byddai angen i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu ar gyllideb ostyngedig neu ddod o hyd i ffyrdd amgen o godi'r referniw hyn i gynnal lefelau presennol adnoddau.
142. I'r gwrthwyneb, os bydd Llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau sy'n lleihau referniw trethi'r DU o dreth dir y dreth stamp, bydd yr addasiad i'r grant bloc yn lleihau a bydd cyllideb Lywodraeth Cymru yn cynyddu. Yn y mathau hyn o sefyllfaoedd, lle mae gostyngiadau treth yn cael eu gwneud i drethi rhagflaenol y DU, efallai y bydd angen gweithredu'n gyflym i leihau ystumiadau annymunol mewn marchnadoedd a allai niweidio busnesau yng Nghymru.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

143. Roedd adolygiad o'r materion a allai effeithio ar Lywodraeth Cymru, ar drethdalwyr ac ar fusnesau wedi arwain at ddatblygu cynigion i roi pwerau newydd i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru mewn amgylchiadau penodol. Yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu anffurfiol, cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: *'Datganoli Trethi yng Nghymru – Ei gwneud yn*

*bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*²⁸ ei gyhoeddi ar 16 Gorffennaf 2020. Daeth i ben ar 15 Hydref. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein â rhanddeiliaid allweddol. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i sicrhau eu bod yn gallu gwneud newidiadau byr rybudd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i Ddeddfau Trethi Cymru mewn nifer o amgylchiadau.

144. Cafodd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad²⁹ ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2020. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

145. Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, mae cyfarwyddiadau polisi a chyfreithiol wedi cael eu datblygu. Mae'r rhain yn ymgorffori myfyrdodau allweddol gan nifer isel o gyrrff cynrychioladol proffesiynol. Bydd gwaith yn dechrau yn awr ar lunio deddfwriaeth ddrafft a'r bwriad yw y bydd bil yn barod i'w gyflwyno yn gynnar yn nhymor y Senedd nesaf, pe bai Llywodraeth nesaf Cymru yn penderfynu cyflwyno bil.

²⁸ Ymgynghoriad Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru:

<https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru>

²⁹ Ymgynghoriad Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru – crynodeb o'r ymatebion:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf>

9. Datblygu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer y ffyrdd mae trethi'n gweithio yng Nghymru

Cydweithio â phartneriaid i fynd ati ar y cyd i lunio cydgytundeb ynghylch y disgwyliadau o ran sut dylai trethi presennol, a threthi yn y dyfodol, weithio o safbwynt pobl a busnesau.

Cefndir

146. Mae'r Fframwaith Polisi Trethi³⁰, a gyhoeddwyd yn 2017, yn darparu'r cyd-destun strategol ehangach a'r weledigaeth ar gyfer trethi yng Nghymru. Mae'r Fframwaith hwn yn cydnabod bod datganoli cyllidol yn darparu ar gyfer meysydd gwaith newydd ac, felly, cyfleoedd newydd i ddatblygu a chryfhau ymgysylltiad a chysylltiadau uniongyrchol â dinasyddion, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Ym maes gweinyddu a gweithredu trethi, mae'r ffocws cychwynnol wedi canolbwyntio ar ystyried a phrofi gyda phartneriaid yr achos dros ddatblygu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer y ffordd y mae trethi'n gweithio yng Nghymru.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

147. Mae'r tair treth Gymreig a gesglir yn genedlaethol – Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC), y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) – ynghyd â'r ddwy dreth a gesglir yn lleol, sef y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, yn darparu'r sail ar gyfer ystyried sut ac a ddylid cyflwyno dull system gyfan, gydlynol i fod yn sail i'r gwahanol drefniadau gweinyddol sy'n rheoli'r broses o roi'r trethi hyn ar waith. Fodd bynnag, mae'r cyd-destun yn gymhleth – CThEM sy'n casglu ac yn gweinyddu CTIC, Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) sy'n casglu ac yn gweinyddu'r LTT a'r LDT, a'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y trethi sy'n cael eu casglu'n lleol.

148. Mae gan bob un o'r gwahanol awdurdodau treth a'r trethi unigol wahanol strwythurau, prosesau a gofynion ac, felly, ffyrdd gwahanol o weithredu. Yn ychwanegol at y cymysgedd hwn y mae'r berthynas â gweinyddu'r trethi a'r budd-daliadau y mae'r DU yn eu cadw'n ôl. Wrth edrych tua'r dyfodol, gallai trethi eraill gael eu datganoli i Gymru o bosibl, a gallai unrhyw drethi Gymreig newydd gael eu rhoi ar waith yn y dyfodol.

149. Fe wnaethom ddechrau nodi ac archwilio rhai o'r materion hyn gyda phartneriaid cyn pandemig COVID-19, er bod y ffocws wedi symud wedyn i flaenoriaethau mwy brys, gan gynnwys yr angen i sefydlu a gweinyddu cymorth ariannol hanfodol i ddinasyddion a busnesau. Roedd ein gwaith ymgysylltu cychwynnol wedi dangos – oherwydd y rhyngddibyniaethau a'r heriau sy'n gysylltiedig â gweinyddu, rheoli a delio â chyd-destun sy'n mynd yn fwy ac yn fwy cymhleth i drethdalwyr, awdurdodau treth a'r rheini sy'n llunio polisiau trethi – ei bod yn bwysig deall y cyd-destun hwn yn well er mwyn penderfynu ymhle y gellir cael canlyniadau gweladwy i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, mwy o eglurder a gwelliannau i bawb. Bydd ein gallu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac i symleiddio pethau yn dibynnu hefyd ar uchelgeisiau ein polisiau yn y dyfodol, a'r dewisiadau rydym ni'n eu gwneud ynghylch sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu mewn polisiau trethi.

³⁰ Y Fframwaith Polisi Trethi:
<https://llyw.cymru/fframwaith-polisi-trethi>

150. Roedd yr ymateb i bandemig COVID-19 yn golygu bod angen gweithredu a gweinyddu ar gyflymder a lefel na welir yn aml y tu hwnt i gyfnodau rhyfel. Mae hyn, ynghyd â'r ffordd mae cymdeithas yn gyffredinol a'r economi ehangach wedi symud tuag at fwy o ddigidoleiddio, wedi dangos gallu llywodraethau i drefnu a bwrw ymlaen â diwygiadau. Yn sgil hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cyflymu ei rhaglen 'Troi Treth yn Ddigidol', gan gyhoeddi ei strategaeth 10 mlynedd ym mis Gorffennaf 2020 i foderneiddio'n llwyr y broses o weinyddu trethi yn y DU³¹. Mae Fforwm Gweinyddu Trethi yr OECD³² yn cynnig ffordd arall o gael gwybodaeth am sut mae gwahanol weinyddiaethau treth ar draws y byd hefyd yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil y pandemig i sefydlu modelau newydd ar gyfer gweithredu a rheoli trethi.
151. Mae darparu gwasanaethau o safon i weinyddwyr treth a threthdalwyr yn gofyn am ddealltwriaeth dda o'r ystod o faterion a heriau y mae threthdalwyr a dinasyddion – yn enwedig grwpiau agored i niwed sydd heb lawer o wybodaeth am drethi gwahanol, na phrofiad ohonynt – yn eu hwynebu wrth ryngweithio ag awdurdodau a systemau treth. Yma, mae ein gwaith gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid – gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel (LITRG) – yn hanfodol wrth i ni barhau i ystyried a chanfod cyfleoedd i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn dylanwadu ar y gwaith hwn.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

152. Fel sy'n amlwg o'r uchod, mae llawer o waith ar y gweill ym maes gweinyddu a gweithredu trethi. Mae'n bwysig ein bod ni'n ystyried y gwaith hwn, drwy ymgysylltu'n briodol â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, gan fanteisio ar bob cyfle i ddysgu o arferion da yng Nghymru ac arferion rhyngwladol, er mwyn siapio'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu strategol ar gyfer gweinyddu trethi yng Nghymru.
153. Mae systemau a gweinyddiaethau treth yn datblygu'n wahanol, ac yn cael eu siapio gan wahanol strwythurau llywodraethu a deddfwriaethol, uchelgeisiau polisi, yn ogystal â hanes a diwylliant. Nid yw safoni prosesau gweithredu ar draws yr holl drethi gwahanol yn debygol o fod yn ymarferol nac yn ddymunol hyd yn oed, gan fod y gwahanol drethi'n bodoli at ddibenion gwahanol, ac er mwyn sicrhau canlyniadau gwahanol. Fodd bynnag, byddwn ni'n parhau i adeiladu ar ein profiadau o weithredu trethi yng Nghymru, gan fanteisio ar y cyfle i sefydlu egwyddorion cyffredin ar y cyd i ategu arferion o ansawdd da wrth weinyddu a gweithredu trethi yng Nghymru.

³¹ *Building a trusted, modern tax administration system*, Llywodraeth y DU, Gorffennaf 2020 (Saesneg yn unig): <https://www.gov.uk/government/publications/tax-administration-strategy/building-a-trusted-modern-tax-administration-system#our-10-year-strategy>

³² Fforwm yr OECD ar Weinyddu Trethi (Saesneg yn unig): <https://www.oecd.org/tax/forum-on-tax-administration/>

10. Asesu'r achos dros ddatganoli rhagor o drethi i Gymru

Wrth i amodau a goblygiadau ymadawiad y DU â'r UE a COVID-19 ddod yn gliriach, nodi trethi newydd a phresennol y DU y dylid ystyried eu datganoli i Gymru, a chyflwyno'r ddadl i Lywodraeth y DU.

Cefndir

154. Gall trethiant fod yn gyfrwng pwerus i newid ymddygiad, yn ogystal â chynhyrchu refeniw i gefnogi gwariant cyhoeddus er mwyn diwallu anghenion Cymru, a galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu trethi mwy graddoledig. Mae adrannau cynharach wedi sôn am Dreth ar Dir Gwag, ac wedi nodi'r heriau a wynebwr wrth ddelio â'r broses yr oedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cytuno arni i ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer trethi newydd. Mae methiant y broses hon yn effeithio'n sylweddol ar allu'r llywodraeth hon a llywodraethau'r dyfodol i ddatganoli rhagor o drethi i Gymru, a byddwn ni'n cyflwyno'r ddadl i Lywodraeth y DU dros adolygu a diwygio'r broses ar frys.
155. Mae effaith drychinebus COVID-19 ar y diwydiant awyrennau yn golygu bod ein cais parhaus i Lywodraeth y DU ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr (APD) i Gymru yn un fwy brys.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

156. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau gwaith ymchwil gan Northpoint Consultants i oblygiadau posibl datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru ar y farchnad, ar gystadleuaeth ac ar yr economi.
157. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn: *“parhau i fod yn bryderus ynghylch effaith gystadleuol cyflwyno cystadleuaeth dreth mewn un farchnad awyrennau. Rydym yn credu bod meysydd awyr Caerdydd a Bryste yn gwasanaethu'r un farchnad.”* Fodd bynnag, roedd y dadansoddiad a adolygwyd gan gymheiriaid yn dangos bod meysydd awyr Caerdydd a Bryste yn gweithredu mewn dalgylchoedd penodol iawn. Yn ei adroddiad terfynol, ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus, daeth y Pwyllgor Materion Cymreig i'r casgliad canlynol: *“Rydym yn deall dadleuon Maes Awyr Bryste, ond gan ei fod eisoes yn perfformio'n dda, ac mae ganddo lawer mwy o deithwyr na Maes Awyr Caerdydd, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai ei fusnes llwyddiannus yn dioddef niwed sylweddol a pharhaol, hyd yn oed pe byddai'r Doll Teithwyr Awyr yn cael ei dileu'n gyfan gwbl.”*
158. Mae'r sectorau awyrennau, twristiaeth a busnes yng Nghymru yn unfrydol o blaid datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru, ac mae dystiolaeth gref ynghylch y manteision economaidd a allai ddod yn sgil hynny, gan alluogi twf yn y sector awyrennau a'r economi ehangach.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

159. Byddwn yn cyflwyno'r ddadl i Lywodraeth y DU dros adolygu a diwygio'r broses ar frys er mwyn datganoli mwy o gymhwysedd treth i Gymru.
160. Mae Llywodraeth y DU yn dal yn amharod i dderbyn y dystiolaeth gynyddol y dylid datganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru. Byddwn yn parhau i godi'r mater â

Gweinidogion y DU, ac yn pwyso ar Lywodraeth y DU i adolygu ei safbwynt anghynladwy. Hefyd, rydym yn parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch y manteision y byddai datganoli'r Doll Teithwyr Awyr yn eu cyflwyno i Gymru, er enghraifft drwy alluogi twf yn y sector awyrennau ac yn yr economi ehangach.

C. Cynyddu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o drethi yng Nghymru

11. Archwilio sut gallai newidiadau posibl i Gyfraddau Treth Incwm Cymru effeithio ar drethdalwyr Cymreig

Archwilio effeithiau ariannol codi a gostwng Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar y rheini sy'n talu treth incwm, yn ôl eu hincwm, eu rhywedd, eu grŵp oedran, eu diwydiant, a ble maen nhw'n byw yng Nghymru.

Cefndir

161. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio dau ddarn o ddadansoddiad helaeth ar dreth incwm, a gyhoeddir yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn – canllaw cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru (Atodiad un), a dadansoddiad o'r sylfaen treth incwm (Atodiad dau).
162. Mae'r canllaw cyflym yn rhoi amcangyfrifon o'r effaith bosibl ar refeniw wrth wneud newidiadau i dair Cyfradd Treth Incwm Cymru. Mae rhywfaint o'r gwaith technegol o baratoi'r amcangyfrifon hyn yn adeiladu ar y dystiolaeth a gyflwynodd Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd, ar gyfer ei ymchwiliad i effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol³³. Mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu'r gwaith ar sut byddai gwahaniaethau o ran treth yn y DU yn effeithio ar ymddygiad, fel y nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr ymchwiliad³⁴.
163. Mae'r dadansoddiad o'r sylfaen treth incwm yn rhoi gwybodaeth am strwythur y sylfaen treth incwm yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn dangos pwy sy'n talu cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol CTIC yn ôl rhywedd, oedran ac incwm. Ar sail y dadansoddiad hwn, gellir arsylwi effaith newidiadau posibl i CTIC.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

164. Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrifon y canllaw cyflym ar gyfer CTIC, sy'n cael eu disgrifio'n fanwl yn Atodiad un. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys yr holl effeithiau disgwylidig ar ymddygiad a allai gael effaith sylweddol ar refeniw. Maen nhw'n ystyried yr effaith bosibl ar benderfyniadau ynghylch a ddylid gweithio ai peidio, faint y dylid gweithio, i ba raddau y mae unigolion yn mynd ati i osgoi trethi a chynllunio ar gyfer trethi, ymhle i fyw ac a ddylid corffori.

³³ Ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Senedd i effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol:

<https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx>

³⁴ Ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol:

<https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld13468/gen-ld13468-w.pdf>

Tabl un ar ddeg: Amcangyfrifon y canllaw cyflym ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru (£ miliwn)

		2021-22	2022-23
Cyfradd safonol	Cyfraddau cyfredol	1,779	1,854
	+1c	177	185
	-1c	-177	-185
Cyfradd uwch	Cyfraddau cyfredol	241	248
	+1c	23	24
	-1c	-23	-24
Cyfradd ychwanegol	Cyfraddau cyfredol	44	49
	+1c	3	3
	-1c	-3	-3

Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar Ragolygon Economaidd a Chyllidol yr OBR (Tachwedd 2020) a Rhagolygon Trethi Cymru (Rhagfyr 2020).

165. Gellir defnyddio'r dadansoddiad o'r sylfaen drethu yn Atodiad dau i ystyried sut byddai newid Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn gallu effeithio ar wahanol grwpiau sy'n talu treth incwm. Dyma'r canfyddiadau:

- Mae CTIC yn raddoledig ar y cyfan o ran incwm. Felly, mae lefel y dreth sy'n cael ei thalu yn cynyddu'n gymesur wrth i incwm gynyddu. Gan nad oes rhaid talu CTIC ar incwm hyd at y lwfans personol (£12,500 ar hyn o bryd), nid yw'r rheini sydd ar incwm is yn talu'r dreth, neu dim ond ar gyfran fach o'u hincwm maen nhw'n talu'r dreth.
- O ran y rheini sy'n talu CTIC, mae dynion yn cynrychioli cyfran fwy na menywod. Mae'r gwahaniaethau yn fwy ymysg y rheini sy'n talu'r cyfraddau uwch ac ychwanegol na'r gyfradd sylfaenol.
- Ar gyfartaledd, mae pobl yn talu mwy o CTIC wrth fynd yn hŷn, ac mae hyn yn cyrraedd uchafbwynt ymysg pobl 45 i 54 oed, cyn gostwng yn raddol ymysg grwpiau hŷn. Pobl rhwng 35 a 54 oed sy'n cynrychioli bron i hanner refeniw CTIC, er eu bod yn llai na thraean o'r boblogaeth 16 oed a hŷn.
- Mae dros hanner y trethdalwyr Cymreig naill ai'n bensynwyr neu'n weithwyr yn y sector cyhoeddus. Mae'r grwpiau hyn, ynghyd â gweithwyr y sector cynhyrchu, yn cynrychioli cyfrannau uwch o'r refeniw yng Nghymru nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

166. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu dadansoddiad o effeithiau Cyfraddau Treth Incwm Cymru a'r sylfaen drethdalwyr ar refeniw. Bydd yn ystyried pa ddadansoddiad pellach y gellir ei wneud, a pha ffynonellau data y gellir eu datblygu.

12. Rhannu arferion da ynghylch strategaethau a pholisïau treth

Gweithio gyda Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig ynghyd â sefydliadau a llywodraethau rhyngwladol i gyfnewid arferion da, i gydweithio ar heriau cyffredin, ac i hyrwyddo agwedd Cymru at bolisïau treth.

Cefndir

167. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a Thrysorlys Cymru wedi meithrin cysylltiadau cadarnhaol â chyrrff y trysorlys ac awdurdodau treth eraill yn y DU.
168. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Rhwydwaith Cysylltiadau Cyllidol ar draws Lefelau Llywodraeth yr OECD, er mwyn rhannu arferion da ynghylch dyluniad polisïau gwledydd a sefydliadau sy'n ymwneud â chryfhau capasiti cyllidol, amlinellu cyfrifoldebau ar draws lefelau llywodraeth, a gwella'r cyd-drefnu rhynglywodraethol.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

169. Mae swyddogion Trysorlys Cymru yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion treth o Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i gyfnewid gwybodaeth a rhannu arferion da. Mae hyn yn digwydd yn ffurfiol mewn cyfarfod ddwywaith y mis rhwng y swyddogion, ac ar sail ad hoc ynghylch materion polisi a threth penodol. Hefyd, cafodd yr ail weithdy blynyddol 'Working Together on Tax' rhwng swyddogion y pedair gwlad ei gynnal yn 2020.
170. Mae cynhadledd dreth flynyddol Llywodraeth Cymru yn ffordd ddefnyddiol arall o ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol ynghylch treth, ac o hyrwyddo ein hagwedd unigryw ni yng Nghymru at bolisïau trethi. Cynhaliwyd ein trydedd cynhadledd dreth flynyddol ym mis Hydref 2020 fel digwyddiad ar-lein.
171. Bu swyddogion Trysorlys Cymru yn cymryd rhan yn 16^{eg} Cyfarfod Blynyddol Rhwydwaith Cysylltiadau Cyllidol ar draws Lefelau Llywodraeth yr OECD ym mis Rhagfyr 2020, ac yng Nghyfarfod 'Brys' Arbennig y Rhwydwaith ar Ymateb i Bandemig COVID-19.
172. Bu swyddogion Trysorlys Cymru yn cydweithio â Demos i ddeall agwedd y cyhoedd tuag at gynyddu trethi.³⁵ Cyflwynodd Demos ei ganfyddiadau yn y gynhadledd dreth flynyddol.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

173. Bydd y gwaith yn parhau i feithrin a gwella cysylltiadau rhynglywodraethol ymhellach, ac i barhau i ddysgu o brofiadau rhyngwladol o ddatganoli cyllidol.

³⁵ *A people's budget: how the public would raise taxes*, Demos, Medi 2020 (Saesneg yn unig): <https://demos.co.uk/wp-content/uploads/2020/09/A-Peoples-Budget-Sept-2020-v5.pdf>

13. Cynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o bolisiau treth Cymru

Defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a chynhadledd dreth flynyddol, i geisio hysbysu grwpiau rhanddeiliaid a threthdalwyr Cymreig yn well am ddatblygiadau ym maes polisiau treth.

Cefndir

174. Cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC), ym mis Ebrill 2019, oedd elfen olaf y broses datganoli trethi a gyflwynwyd yn sgil Deddf Cymru 2014. Roedd yn ddiwedd ar gyfnod unigryw, pan fu Llywodraeth Cymru yn ceisio cyfleu gwybodaeth am fanylion ac effaith datganoli cyllidol yng Nghymru.
175. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych tuag allan am yr arferion gorau ar gyfer ymgysylltu ynghylch trethiant, yn enwedig eleni, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd drwy gysylltiadau ag adran gyllidebol Talaith Philadelphia. Mae datganoli trethi i Gymru wedi ehangu cyllideb Cymru o fod yn ddigwyddiad gwariant yn unig, i un sy'n ymgorffori'r mesurau cyllidol sy'n cefnogi blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru. Yn sgil hynny, mae'r ffordd rydym yn cyfathrebu wedi ehangu er mwyn ystyried y naratif treth a gwariant, fel y mae'n cael ei gyfleu drwy brif ddigwyddiadau cyllidol Llywodraeth Cymru, yn enwedig y Gyllideb ddrafft.
176. Mae Trysorlys Cymru yn canolbwyntio ar greu cynnwys cyfathrebu digidol 'yn fewnol'. Yn ogystal â chyfleu datblygiadau polisi, mae ymgyrchoedd rhagweithiol wedi cael eu datblygu i greu cynnwys ar gyfer sianeli Llywodraeth Cymru sy'n ymestyn y tu hwnt i sylfaen rhanddeiliaid Trysorlys Cymru. Er enghraifft, cyn y Gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2019, trefnwyd rhaglen ymgysylltu i alluogi'r Gweinidog Cyllid i gwrdd â defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus. Yn amgylchiadau mwy heriol 2020, cynhaliwyd ymgyrch ymwybyddiaeth cyn y gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, cafodd animeiddiad newydd ei greu gyda'r nod o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, gan gyfleu rôl y Gweinidog Cyllid a sut mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn gwario arian yng Nghymru.
177. Fel rhan o gam arall ymlaen, mae cynnwys sydd wedi cael ei greu gan Drysorlys Cymru wedi cael ei rannu ar sianeli adrannau eraill Llywodraeth Cymru, er mwyn i ni gyfathrebu mwy am wariant ar draws gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru, gan ymestyn y naratif treth a gwariant i ddangos ei effaith.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

178. Cafodd cyfres o astudiaethau achos eu dynodi i ddangos effaith treth a gwariant cyn y Gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2019. Roedd y dulliau cyfathrebu yn cynnwys graffeg weledol ac animeiddiadau. Tynnwyd sylw at naw o brif feysydd gwariant y Llywodraeth, ac yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y meysydd hyn, cafwyd perfformiad rhagorol ar draws holl sianeli'r llywodraeth. Roedd yr animeiddiad digidol ynghylch y gyllideb wedi dangos bod yr ymgysylltu wedi cynyddu 230% ers y flwyddyn flaenorol.
179. Cafodd mwy o gynnwys digidol ei greu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gyllideb ddrafft yn 2020. Roedd datganoli yng Nghymru wedi dod o dan y chwyddwydr yn sgil effaith COVID-19, ac roedd ymgyrch ymwybyddiaeth cyn y Gyllideb wedi ceisio cyfleu pwysigrwydd y digwyddiad cyllidol hwn o ran datgan blaenoriaethau treth a gwariant.

Yr animeiddiad digidol newydd oedd y darn o gynnwys a berfformiodd orau yn yr ymgyrch, gyda'r ffilm Gymraeg yn cael ei gweld 182 o weithiau ar gyfryngau, a'r ffilm Saesneg yn cael ei gweld 2,200 o weithiau. Mae hyn wedi bod yn bwysig i dargedu cynulleidfaoedd newydd.

180. Mae sianeli Twitter @TrysorlysCymru ac @WelshTreasury yn dal yn bwysig i gyfleu datblygiadau ym maes polisiau treth i'n rhanddeiliaid, a hynny am ddim. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2021, roedd nifer dilynwyr @Trysorlys Cymru wedi cynyddu 9.1%, o 977 i 1,075, a nifer dilynwyr @WelshTreasury wedi cynyddu 17.6%, o 2,285 i 2,775. Mae llif cyson o gynnwys newydd a difyr wedi bod yn effeithiol i hoelio sylw pobl, ac i sicrhau bod y deunydd yn cael ei rannu ar draws Llywodraeth Cymru a sianeli adrannau, gan sbarduno twf parhaus y sianeli hyn. Mae'r gymhareb uchel rhwng dilynwyr y cyfrif Gymraeg a dilynwyr y cyfrif Saesneg yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir ar gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
181. Mae Trysorlys Cymru wedi mynd ati'n frwd i ymgysylltu'n ddigidol â rhanddeiliaid, sy'n hollbwysig i gynyddu ein dilynwyr. Er enghraifft, gan fod adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynghylch Cyfraddau Treth Incwm Cymru wedi cael ei gyhoeddi ar ei sianeli cyfryngau cymdeithasol, roedd yr adroddiad wedi cyrraedd y 133,300 o ddilynwyr sydd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cymerwyd camau tebyg gyda CThEM, sydd â 61,000 o ddilynwyr. Roedd Trysorlys Cymru hefyd wedi hyrwyddo ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar dreth pecynnau plastig, gan dynnu sylw at gyfleoedd i ymgysylltu a chymryd rhan. Roedd y cynnwys digidol hwn a oedd yn cyfeirio rhanddeiliaid yng Nghymru at ymgynghoriad Llywodraeth y DU wedi sicrhau lefel uchel o ymgysylltu, ac yn dangos gwaith partneriaeth rhagorol gyda swyddogion cyfatebol y DU.
182. Mae ymgysylltu â phartneriaid yn dal yn ffordd allweddol o roi gwybod am ddatblygiadau ym maes polisiau treth. Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), adran anweinidogol Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT), wedi defnyddio ei dulliau arferol i hysbysu ac ymgysylltu â'i sylfaen o gwsmeriaid am newidiadau yn y polisi LTT yn ystod y flwyddyn. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys gweithio gyda chyrff proffesiynol, gweminarau a fideos, er mwyn darparu hyfforddiant technegol a lledaenu gwybodaeth allweddol yn gyflym drwy sianeli cwsmeriaid. Roedd y nifer isel o alwadau i'r ganolfan i gwsmeriaid yn dilyn y newid yn y polisi LTT, a gyhoeddwyd yn ystod cyllideb ddrafft 2020, yn dangos cryfder y partneriaethau hynny. Mae rheolwyr cysylltiadau cwsmeriaid ACC hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda gweithredwyr safleoedd tirlenwi, i'w helpu i ddechongli a thalu'r LDT yn gywir.
183. Cafodd Grŵp Cyngorol Trethi Cymru, a oedd yn rhoi cyngor strategol i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar faterion gweinyddu a pholisiau treth yn ystod y gwaith o ddatblygu a chyflwyno trethi Cymru, ei ddiddymu ym mis Chwefror 2020. Mae Grŵp Ymgysylltu ar Drethi wedi cael ei sefydlu yn ei le, er mwyn parhau â'r gwaith hollbwysig o drafod datblygiadau ym maes polisiau treth gyda'r rheini sy'n gallu cynrychioli safbwyntiau trethdalwyr Cymreig.
184. Daeth dros 100 o randdeiliaid i'r drydedd gynhadledd dreth flynyddol, a gynhaliwyd fel digwyddiad ar-lein eleni. Yn ôl arolwg a anfonwyd ar ôl y digwyddiad at y rheini a oedd yn bresennol, roedd 51% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y gynhadledd yn ardderchog. Roedd 43% yn meddwl ei bod yn dda, a 6% yn meddwl ei bod 'yr un fath â'r disgwyl'. Cafodd y cyflwyniadau eu canmol gan y rheini a oedd yn bresennol, oherwydd eu bod

yn “gymysgedd da o gynnwys arbenigol am drethi, a chynnwys mwy eang”, a bod “yr amrywiaeth yn rhagorol”. Bu'r digwyddiad ar-lein yn ffordd ddefnyddiol ac effeithiol o ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob rhan o Gymru, ac mewn rhannau eraill o'r DU, a bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i lywio cynlluniau'r digwyddiad ar-lein nesaf.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

185. Nododd yr Adroddiad ar Bolisi Trethi 2019³⁶ mai un o amcanion pwysig yr ymgyrch gyfathrebu ar y cyd yn 2019 oedd codi ymwybyddiaeth o'r ffaith y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau Treth Incwm gwahanol o 6 Ebrill 2019 ymlaen. Cafodd arolygon eu cynnal ym mis Mawrth 2019 a mis Mehefin 2019, a'u mesur yn erbyn yr arolwg sylfaenol a ddaeth i law ym mis Mehefin 2018. Roedd canfyddiadau'r arolygon diweddarach, a gyhoeddwyd yn 2020, yn dangos bod yr ymwybyddiaeth wedi cynyddu, o 24% i 38%³⁷. Mae 14% o gynnydd yn ganlyniad cadarnhaol ar gyfer gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu, ac mae wedi bod yn llwyfan cryf i adeiladu arno. Yn ystod 2020, mae pob math o gynnwys digidol, hygyrch wedi cael ei greu i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, gan gynnwys ffilmiau, animeiddiadau a chyfrifiannell ar gyfer CTIC.
186. Mae codi ymwybyddiaeth ymysg rhanddeiliaid o'r broses o wneud newidiadau i bolisi trethi fel rhan o ddigwyddiad cyllidol – cyllideb Cymru – yn hollbwysig er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o oblygiadau datganoli cyllidol i bobl a busnesau. I fesur effeithiolrwydd ein prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu yn hyn o beth, disgwylir y bydd rhagor o waith ymchwil yn cael ei gomisiynu drwy Beaufort Research Ltd, er mwyn deall dealltwriaeth y cyhoedd o gyllideb Cymru.
187. Mae prosiect ymgysylltu â phobl ifanc yn cael ei dreialu drwy gydol 2021, sy'n cynnwys myfyrwyr Economeg a Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd y prosiect hwn yn edrych ar ddulliau newydd o hysbysu a chynnwys pobl ifanc mewn pynciau fel llythrennedd yn y gyllideb, treth a gwariant. Bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu dadansoddi ar ddiwedd 2021.

³⁶ Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2019:
<https://llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019>

³⁷ *Dealltwriaeth y Cyhoedd o Ddatganoli Trethi: adroddiad diweddar*: Chwefror 2020. Tudalen 20, 'A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019?':
<https://llyw.cymru/dealltwriaeth-y-cyhoedd-o-ddatganoli-trethi-adroddiad-diweddar-2020>

Atodiad un: Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Cyflwyniad

Beth ydy hyn?

- A1.1 Mae'r canllaw cyflym ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn set o amcangyfrifon ar gyfer yr effaith ar refeniw wrth wneud newid o 1c (neu un pwynt canran) i bob un o gyfraddau Cymru (sylfaenol, uwch ac ychwanegol).
- A1.2 Mae'r canllaw cyflym yn dangos sut bydd newidiadau i gyfraddau Cymru yn effeithio ar refeniw treth incwm ddatganoledig – sy'n cyfrannu at gyllideb Llywodraeth Cymru. Nid yw'n cynnwys unrhyw effaith ar refeniw treth Llywodraeth y DU nac effeithiau ehangach ar yr economi ac ar drethi datganoledig neu leol eraill yng Nghymru.
- A1.3 Mae'r canllaw cyflym yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer yr holl effeithiau disgwylidig ar ymddygiad a allai gael effaith sylweddol ar refeniw. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith bosibl ar benderfyniadau ynghylch a ddylid gweithio ai peidio, faint y dylid gweithio, a ddylid corffori (fel bod unigolion yn talu trethi incwm sy'n gysylltiedig â busnes), a mudo.

Pwy sydd wedi ei ddatblygu?

- A1.4 Mae canllaw cyflym CTIC wedi cael ei ddatblygu gan CThEM a Llywodraeth Cymru. Mae'r dull hwn o weithredu wedi manteisio ar brofiad CThEM wrth greu prisiadau ar gyfer newidiadau i bolisiau treth incwm y DU a'r Alban ar ran Trysorlys EM ar gyfer digwyddiadau cyllidol y DU, a rhagolygon cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Mae CThEM hefyd yn gallu cael gafael ar ddata manwl am dreth sy'n ddefnyddiol wrth greu'r amcangyfrifon hyn, ac nid yw'r data hyn ar gael i eraill am resymau cyfrinachedd.
- A1.5 Ymgynghorwyd â'r OBR wrth ddatblygu canllaw cyflym CTIC. Mae'r OBR yn darparu rhagolygon treth annibynnol ar gyfer Llywodraeth Cymru, a rhagolygon yr OBR yw sail y canllaw cyflym. Os bydd polisi'n cael ei newid yng nghyswllt CTIC, gofynnir i'r OBR graffu ar y prisiad cysylltiedig a fyddai'n cael ei ddefnyddio yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, a chymeradwyo'r prisiad hwnnw. O dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd yr OBR, dim ond prisiadau polisi ar gyfer polisiau sydd wedi'u datgan gan y Llywodraeth y mae'r OBR yn gallu eu hardystio. Y rôl y mae'r OBR wedi bod yn ei chyflawni mewn perthynas â'r canllaw cyflym yw adolygu'r dulliau a ddefnyddir. Mae wedi barnu bod y dulliau hyn yn rhesymol, wrth iddyn nhw ddefnyddio modelau a dulliau sefydledig lle bynnag y bo modd.
- A1.6 Roedd yr OBR hefyd wedi tynnu sylw at yr hyn sy'n cael ei ystyried fel y prif ffynonellau o ansicrwydd, a allai olygu bod cost wirioneddol polisi yn wahanol i'r canllaw cyflym. Yn benodol, soniodd am ansicrwydd oherwydd y coronafeirws ynghylch y rhagolwg sylfaenol ar gyfer refeniw o gyfraddau Cymru; ansicrwydd data wrth aros am y data alldro llawn ar gyfer cyfraddau Cymru yn 2019-20; ac ansicrwydd o ran ymddygiad yng nghyswllt mudo trawsffiniol, yn enwedig ymysg y rheini sy'n talu'r dreth ychwanegol, lle nad oes llawer o dystiolaeth ar gael i fod yn sail i amcangyfrifon.

Amcangyfrifon

A1.7 Mae'r tabl isod yn dangos y rhagolygon refeniw ar sail y cyfraddau treth cyfredol, ac amcangyfrifon y canllaw cyflym. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau ar ymddygiad, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 3.

Tabl deuddeg: Amcangyfrifon y canllaw cyflym ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru (£ miliwn)

		2021-22	2022-23
Cyfradd safonol	Cyfraddau cyfredol	1,779	1,854
	+1c	177	185
	-1c	-177	-185
Cyfradd uwch	Cyfraddau cyfredol	241	248
	+1c	23	24
	-1c	-23	-24
Cyfradd ychwanegol	Cyfraddau cyfredol	44	49
	+1c	3	3
	-1c	-3	-3

Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar Ragolygon Economaidd a Chyllidol yr OBR (Tachwedd 2020) a Rhagolygon Trethi Cymru (Rhagfyr 2020).

Sut mae'r amcangyfrifon yn cael eu creu?

A1.8 Yn gyntaf, amcangyfrifir y costau statig yn sgil newid y cyfraddau (nid yw'r rhain yn cynnwys ymatebion ymddygiadol). Mae'r amcangyfrifon statig yn seiliedig ar Ragolygon Economaidd a Chyllidol yr OBR ym mis Tachwedd 2020, a Rhagolygon Trethi Cymru ym mis Rhagfyr 2020. Gan mai 10c yw'r cyfraddau a ddefnyddir ar gyfer CTIC yn y rhagolygon hyn, mae cost statig sydd 1c yn fwy neu'n llai yn cyfateb i ddim ond 10% o ragolwg CTIC ar gyfer y band penodol.

A1.9 Mae'r ail gam yn cynnwys yr effeithiau disgwylidiedig ar ymddygiad. Mae newid cyfraddau treth yn debygol o effeithio ar ymddygiad pobl, a gallai hynny yn ei dro effeithio ar faint o dreth sy'n cael ei chynhyrchu yn nes ymlaen. Mae'r ymddygiadau hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch a ddylid gweithio ai peidio, faint y dylid gweithio ac i ba raddau y mae unigolion yn mynd ati i osgoi trethi a chynllunio ar gyfer trethi. Mae maint yr effeithiau hyn yn dibynnu ar incwm y trethdalwr, felly rhagdybir y bydd rhywun sydd ag incwm uwch yn ymateb gryn dipyn yn fwy na rhywun sydd ag incwm is. Ac eithrio mudo, mae'r effeithiau ar ymddygiad yn cael eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y mae CThEM a'r OBR yn eu defnyddio wrth brisio newidiadau i dreth incwm y DU. Gelwir y rhain yn elastigeddau incwm trethadwy.

A1.10 Mae'r canllaw cyflym hefyd yn cynnwys effaith newidiadau mewn cyfraddau ar gorffori am resymau treth. Mae newidiadau i gyfraddau treth incwm yn effeithio ar y gwahaniaeth rhwng cyfraddau treth incwm difidend/treth gorfforaeth, ac felly'n newid y rhesymau sydd gan unigolion i fynd ati i gorffori. Bydd newidiadau i ymddygiad corffori yn effeithio ar refeniw treth incwm. Mae CThEM yn modelu'r cymhellant i gorffori ar sail trethi'r DU nad ydynt wedi'u datganoli a threth incwm nad yw'n deillio

o ddifidendau nac o gynilion i ddarparu amcangyfrif o gorffori am resymau treth sy'n adlewyrchu'r poblogaethau o unigolion a chwmnïau yng Nghymru.

- A1.11 Yn ogystal â'r uchod, mae'r canllaw cyflym yn cynnwys amcangyfrif o effeithiau ar ymddygiad mudo. Disgwylir y bydd gwahaniaethau mewn cyfraddau treth incwm rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU yn arwain at rywfaint o fudo trawsffiniol. Dim ond ar gyfer newidiadau yn y gyfradd ychwanegol y mae'r amcangyfrifon yn berthnasol. Mae effaith absoliwt newidiadau i'r cyfraddau sylfaenol neu uwch yn fwy cyfyngedig nag effaith newidiadau i'r gyfradd ychwanegol, yn enwedig ar y rheini sydd ar incwm uchel iawn. Mae casgliad o lenyddiaeth empirig hefyd, sy'n dangos mai'r rheini sydd ar yr incwm uchaf sydd fwyaf tebygol o fudo o ganlyniad i newidiadau i'r dreth incwm³⁸.
- A1.12 Mae'r amcangyfrif o'r effaith ar fudo yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys maint y newid yn y dreth, incwm y trethdalwyr, y llif mudo presennol rhwng lleoliadau a dwyster yr ymateb ymddygiadol neu'r elastigedd. Mae'r rheini sy'n ennill incwm uwch yn gallu gostwng eu rhwymedigaethau treth fwy drwy fudo i neu o Gymru, gan ddibynnu ar y newid yn y dreth. Felly po uchaf yw'r incwm, y mwyaf tebygol ydyw y bydd trethdalwr yn mudo mewn ymateb i newid yn y dreth. Mae hefyd yn bosibl y bydd y rheini sydd â mwy nag un man preswyllo yn gallu newid eu prif fan preswyllo at ddibenion treth, heb i hynny amharu fawr ddim ar eu ffordd o fyw.
- A1.13 Gellir defnyddio llifau mudo ac amcangyfrifon poblogaeth i gyfrifo'r tebygolrwydd presennol o symud i ac o Gymru yn ôl lleoliad. Mae'r data'n dangos bod unigolion sy'n byw mewn cymunedau sy'n agos at y ffin yn fwy tebygol o fudo. Gallai hyn fod oherwydd bod symud pellteroedd llai yn arwain at newidiadau bach iawn i ffordd o fyw, rhwydweithiau cymdeithasol a threfniadau gwaith. Yn gyffredinol, y pellaf o'r ffin y mae pobl yn byw, y lleiaf tebygol ydynt o fudo rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU.
- A1.14 Mae maint yr ymateb ymddygiadol, neu'r elastigedd, yn dangos i ba raddau y disgwylir i'r llifau mudo presennol newid yn sgil newid yn y dreth. Daw hyn o'r llenyddiaeth empirig. Daw'r amcangyfrif canolog o astudiaeth yn y Swistir³⁹, sydd â chanfyddiadau ynghylch y newidiadau i lifau mudo oherwydd newidiadau i'r dreth incwm. Mae'r astudiaeth hon yn seiliedig ar ddata treth incwm, felly bydd yn cynnwys y rheini sydd â mwy nag un man preswyllo, ac yn newid eu prif fan preswyllo at ddibenion treth. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod hwylustod newid o'r fath, neu fudo ar bapur, yn y DU yn wahanol i'r Swistir.

Cyfyngiadau ac elfennau o ansicrwydd

- A1.15 Mae'r amcangyfrifon yn dangos yr effaith ddisgwyliedig ar refeniw wrth gynyddu neu ostwng pob un o Gyfraddau Treth Incwm Cymru 1c (neu un pwynt canran), yn annibynnol ar ei gilydd. Oherwydd y ffordd y mae treth incwm wedi cael ei datganoli

³⁸ I gael crynodeb, edrychwch ar yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018, Llywodraeth Cymru (2018) o dudalen 57 ymlaen, sydd ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf>

³⁹ Martinez, Isabel, Beggar-Thy-Neighbour Tax Cuts: Mobility after a Local Income and Wealth Tax Reform in Switzerland (2017) (Saesneg yn unig). Cyfres Papurau Gweithio 2017-08 o Luxembourg Institute of Socio-Economic Research (LISER), ar gael yn SSRN:

<https://ssrn.com/abstract=2979275> neu <http://dx.doi.org/10.2139/ssrn.2979275>

i Lywodraeth Cymru, gellir newid cyfraddau gwahanol ar yr un pryd, ac efallai i wahanol gyfeiriadau ac i wahanol raddau. Er enghraifft, gellid cyfuno gostyngiad o 1c yn y gyfradd sylfaenol â chynnydd o 2c yn y gyfradd ychwanegol. Nid oes amcangyfrifon ar wahân wedi cael eu cynhyrchu o'r effaith ar refeniw wrth gyflwyno gwahanol gyfuniadau o newidiadau i gyfraddau. Gellir cyfuno newidiadau ar draws bandiau, a'u graddio i fyny neu i lawr er mwyn rhoi syniad o'r effeithiau posibl wrth wneud newidiadau mwy i'r cyfraddau. Er enghraifft, mae gostyngiad o 2c mewn cyfradd dreth yn debygol o gostio tua dwywaith gymaint â gostyngiad o 1c. Mae'r brasamcan hwn yn rhesymol ar gyfer newidiadau o hyd at ychydig o bwyntiau canran i'r naill gyfeiriad neu'r llall.

- A1.16 Mae'r canllaw cyflym yn defnyddio cyfraddau treth cyfredol y DU. Mae'n rhagdybio na fydd y rhain yn newid yn y blynyddoedd sy'n berthnasol i'r canllaw cyflym. Yn ogystal â hyn, rhagdybir y bydd lwfans personol y DU a throthwy'r gyfradd uwch yn cynyddu yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, ac y bydd trothwy'r gyfradd ychwanegol yn aros yr un fath, yn unol â'r polisi presennol sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth y DU.
- A1.17 Fel y nodwyd, mae'r amcangyfrifon a ddarperir yma yn cyd-fynd â Rhagolygon Economaidd a Chyllidol yr OBR ym mis Tachwedd 2020, a Rhagolygon Trethi Cymru ym mis Rhagfyr 2020. Nodweddir y rhagolygon hynny gan lefel anarferol o uchel o ansicrwydd oherwydd yr amgylchiadau economaidd presennol. Felly, mae'r amcangyfrifon yn debygol o newid yn unol â rhagolygon yr OBR yn y dyfodol.
- A1.18 Hefyd, ac yn yr un modd â'r rhan fwyaf o brisiadau polisïau treth eraill, mae'r effeithiau ar ymddygiad sydd wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon hyn yn cael eu hystyried yn rhai ansicr iawn. Pan fo modd, mae amcangyfrifon sefydledig wedi cael eu defnyddio. Pan fydd dulliau newydd wedi cael eu defnyddio, fel gyda mudo o fewn y DU, defnyddiwyd y dystiolaeth a'r wybodaeth orau a oedd ar gael. Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth yn gyfyngedig, ac mae ei pherthnasedd i amgylchiadau Cymru yn ansicr.
- A1.19 Mae'r canllaw cyflym yn rhoi prisiad cadarn o newidiadau posibl i CTIC, ar sail gwybodaeth gyfredol. Fodd bynnag, oherwydd y risgiau a'r cyfyngiadau sydd wedi cael eu hegluro uchod, mae'n bosibl y bydd prisiad unrhyw newidiadau i CTIC a ddefnyddir yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn wahanol i'r amcangyfrifon yn y ddogfen hon.

Pa ganllawiau cyflym eraill sydd eisoes yn bodoli?

- A1.20 Dyma'r canllaw cyflym cyntaf ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Mae'n ychwanegol at y set bresennol o ganllawiau cyflym a wnaed gan CThEM ar gyfer newidiadau treth Llywodraeth y DU.
- A1.21 Mae canllawiau cyflym diweddaraf CThEM yn darparu amcangyfrifon o'r effeithiau ar refeniw wrth wneud newidiadau enghreifftiol i drethi Llywodraeth y DU rhwng 2021-22 a 2023-24, gan gynnwys pob un o gyfraddau treth incwm Llywodraeth y DU.⁴⁰

Y camau nesaf

⁴⁰ Maen nhw ar gael yma (Saesneg yn unig):
<https://www.gov.uk/government/statistics/direct-effects-of-illustrative-tax-changes>

A1.22 Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cyhoeddi diweddariadau o'r canllaw cyflym er mwyn cadw'r amcangyfrifon yn berthnasol. Yn y cyfamser bydd yn parhau i weithio gyda CThEM, yr OBR, Llywodraeth yr Alban a Chomisiwn Cyllidol yr Alban i sicrhau dull cydweithredol o gael rhagor o wybodaeth am dreth incwm y DU, yn enwedig yr elfennau sy'n ymwneud â'r ffrydiau refeniw datganoledig. Y gobaith yw y bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i ddeall y sylfaen drethu a'i deinameg yn well, a allai – yn ei dro – wella'r amcangyfrifon yn y canllaw cyflym a'r rhagolygon a'r prisiadau posibl ar gyfer polisi CTIC yn y dyfodol. Bydd y dyfarniadau a'r rhagdybiaethau allweddol hefyd yn cael eu hadolygu'n gyson, a bydd unrhyw dystiolaeth newydd a allai helpu i lywio'r amcangyfrifon yn cael ei hystyried a'i hadlewyrchu mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Atodiad dau: Dadansoddi'r sylfaen treth incwm

Cyflwyniad

- A2.1 Ers datganoli treth incwm yng Nghymru yn 2019, mae perfformiad refeniw treth incwm wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gyllideb Llywodraeth Cymru, ac wedi effeithio ar y gyllideb honno. Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau a gwendidau'r sylfaen drethu yng Nghymru yn fewnbwn pwysig i'r prosesau treth a pholisi ehangach yn Llywodraeth Cymru.
- A2.2 Mae datganoli treth incwm yng Nghymru wedi golygu gostyngiad o 10c ym mhob un o gyfraddau treth y DU ar incwm nad yw'n deillio o ddifendau nac o gynilion (NSND). Mae Llywodraeth Cymru wedyn yn pennu ei chyfradd ei hun ym mhob un o'r tri band treth, sef Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC).
- A2.3 Mae sylfaen CTIC yn cael ei dadansoddi yma'n bennaf drwy ddefnyddio'r Arolwg o Incwm Personol (SPI) gan CThEM. Mae'n sampl o gofnodion treth dienw yn y DU, sy'n cael ei grosio i gynrychioli poblogaeth trethdalwyr y DU.
- A2.4 Oherwydd y trefniadau adrodd ar gyfer ffurflenni treth, mae oedi rhwng pryd y daw'r Arolwg o Incwm Personol ar gael, a'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Adeg cyhoeddi, mae'r fersiwn ddiweddaraf yn cyfateb i gofnodion treth 2017-18, felly mae pob siart a ffigur yn berthnasol i 2017-18, oni nodir yn wahanol. Mae'r dadansoddiad yn rhagdybio bod pob un o gyfraddau Cymru wedi'u gosod ar 10c, fel y maen nhw wedi bod ers datganoli.
- A2.5 Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y sylfaen treth incwm yn y dyfodol agos, ond nid ydym yn gwybod eto beth fydd yr effeithiau tymor hwy. Am y tro, data manwl yr Arolwg o Incwm Personol ar gyfer 2017-18 yw'r set ddata fanwl orau sydd ar gael i edrych ar y sylfaen drethu yng Nghymru.
- A2.6 Gan nad oedd CTIC na'r codau 'C' cysylltiedig yn berthnasol tan 2019-20, rhagdybir bod trethdalwyr sy'n byw yng Nghymru yn talu CTIC o bosibl.
- A2.7 Mae'r dadansoddiad o'r sylfaen treth incwm wedi'i rannu'n dair adran: nodweddion, perfformiad cyflogaeth ac enillion yn y gorffennol a rhagolwg o'r perfformiad yn y dyfodol, ac effaith wahaniaethol bosibl pandemig COVID-19 ar Gymru ac ar Loegr a Gogledd Iwerddon.

Sylfaen treth incwm – nodweddion

Rhywedd


- A2.8 Dynion yw 62% o'r rheini sy'n talu treth incwm yng Nghymru, ac maen nhw'n cynrychioli 71% o'r refeniw treth incwm⁴¹, sy'n adlewyrchu gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran cyflogaeth ac incwm.
- A2.9 Mae Ffigur dau yn dangos rhaniad y rhywiau ar gyfer y rheini sy'n talu treth incwm NSND yn ôl eu cyfradd ymylol, ar gyfer Cymru ynghyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon.

⁴¹ Ystadegau Incwm Personol CThEM, Tabl 3.12, 2017-18.

Mae menywod yn cynrychioli cyfran lai o'r trethdalwyr yn y bandiau treth uwch ac ychwanegol.

A2.10 Mae dynion yn cynrychioli'r un gyfran o'r rheini sy'n talu treth incwm NSND yng Nghymru ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (58%). Ar draws yr holl gyfraddau ymylol, mae dynion yn cynrychioli cyfran ychydig yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, sy'n adlewyrchu'r dosbarthiad incwm gwahanol rhwng y ddau ranbarth. Mae'r rhaniad o ran y rhywiau yng nghyswllt refeniw CTIC yn fwy anghyson, gyda dynion yn cynrychioli 67% o refeniw CTIC yng Nghymru a 70% o'r refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon

Ffigur dau: Rhaniad y rhywiau ar gyfer y rheini sy'n talu treth incwm NSND, yn ôl eu cyfradd ymylol (%)



Ffynhonnell y Data: SPI 2017-18

Oedran

A2.11 Mae trethdalwyr yng Nghymru sydd rhwng 35 a 54 oed yn cynrychioli bron i hanner y refeniw treth incwm yng Nghymru, er eu bod yn llai na thraean o'r boblogaeth 16 oed a hŷn⁴². Mae hyn yn dangos pwysigrwydd grwpiau oedran canol oed yn y sylfaen drethu.

A2.12 Mae Ffigur tri yn dangos rhwymedigaeth CTIC y pen ar gyfartaledd yn ôl grŵp oedran. Fel arfer, unigolion rhwng 16 a 24 oed sydd â'r rhwymedigaethau isaf ar gyfer CTIC (£150), sy'n adlewyrchu'n bennaf y gyfran is o unigolion sydd mewn gwaith⁴³. Mae'r rhwymedigaethau cyfartalog yn codi gydag oedran, gan gyrraedd uchafbwynt ymysg pobl 45-54 oed, cyn gostwng yn gyson ymysg grwpiau hŷn.


⁴² Amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Canol-blwyddyn 2017.

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland>

⁴³ Y Farchnad Lafur Ranbarthol: Amcangyfrifon Cyflogaeth, yn ôl Oedran

A2.13 Mae gwahanol lefel a chyfansoddiad rhwymedigaethau CTIC yn seiliedig ar y dosbarthiad incwm amrywiol ar draws grwpiau oedran. Ar gyfartaledd, roedd pobl 55 i 64 oed yn talu mwy o CTIC ar y Gyfradd Ychwanegol na'r grŵp oedran 45 i 54, er bod eu rhwymedigaeth gyffredinol ar gyfer CTIC £250 yn is. Mae hyn yn awgrymu mwy o ystod mewn incwm ymysg y grŵp oedran 55 i 64.

Ffigur tri: Rhwymedigaeth gyfartalog y pen ar gyfer CTIC, yn ôl Grŵp Oedran




Ffynhonnell y Data: SPI 2017-18

Y sector diwydiant

A2.14 Mae Ffigur pedwar yn dangos dadansoddiad fesul sector o'r rheini sy'n talu CTIC a refeniw CTIC. Mae pensiynwyr a gweithwyr yn y sector cyhoeddus yn cynrychioli tua chwarter bob un o'r trethdalwyr yng Nghymru. Gan fod eu hincwm yn is na'r cyfartaledd, mae pensiynwyr yn cynrychioli dim ond tua 20% o refeniw CTIC. Mae sectorau eraill, fel cynhyrchu a gweithgareddau proffesiynol, yn cyfrannu cyfran uwch o refeniw na'u cyfran o drethdalwyr.


Ffigur pedwar: Dadansoddiad fesul sector o'r rheini sy'n talu CTIC a referniw CTIC (%)



Ffynhonnell y Data: SPI 2017-18. Mae 'Arall' yn cynnwys y diwydiannau Amaethyddiaeth, Eiddo Tiro, y Celfyddydau, Gwasanaethau Eraill a Chartrefi Preifat, yn ogystal â'r rheini sy'n ddi-ddosbarth neu'n anhysbys.

A2.15 Mae Ffigur pump yn dangos y gwahaniaeth cymharol rhwng cyfansoddiad sectoraidd referniw CTIC yng Nghymru, a'r referniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cyfran y referniw sy'n dod o'r sectorau cyhoeddus, cynhyrchu a phensiwn yn sylweddol uwch yng Nghymru, fel y mae'r bariau gwyrdd yn dangos.

Ffigur pump: Gwahaniaeth pwynt canran rhwng cyfraniad sectorau i referniw CTIC a'r referniw cyfatebol – Cymru, a Lloegr a Gogledd Iwerddon




Ffynhonnell y Data: SPI 2017-18

Treth yn ôl band a chyfradd ymylol

A2.16 Mae Ffigur chwech yn dangos pwysigrwydd cymharol refeniw'r gyfradd sylfaenol yng nghyfanswm y derbyniadau treth incwm. Mae'r gyfradd sylfaenol yn cynrychioli tri chwarter y refeniw treth incwm yng Nghymru, o'i gymharu â hanner yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. O ran CTIC (10c o bob cyfradd dreth), mae'r gyfradd sylfaenol yn cynrychioli 85% o gyfanswm y refeniw yng Nghymru.


Ffigur chwech: Cyfran refeniw treth incwm, yn ôl band treth



Ffynhonnell y Data: SPI 2017-18

A2.17 Er bod refeniw CTIC yn cael ei gynhyrchu'n bennaf drwy'r gyfradd sylfaenol, mae'r rheini sy'n talu treth incwm ar y gyfradd sylfaenol *yn unig* (talwyr y gyfradd sylfaenol) yn cynrychioli dim ond rhan o'r gyfran hon. Gwelir hyn yn Ffigur saith, sy'n dangos cyfran y refeniw treth incwm a gynhyrchir gan drethdalwyr ym mhob grŵp cyfradd ymylol. Yng Nghymru, dim ond 15% o refeniw CTIC sy'n cael ei gynhyrchu drwy'r cyfraddau uwch ac ychwanegol (ffigur chwech), ond mae trethdalwyr sy'n talu CTIC ar y cyfraddau hyn yn cyfrannu dros draean (34%) o refeniw cyffredinol CTIC. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfraniad cymharol uchel at refeniw CTIC gan y rheini sy'n ennill incwm uwch, yn bennaf drwy gyfradd sylfaenol CTIC.

Ffigur saith: Cyfran refeniw treth incwm, yn ôl cyfradd ymylol trethdalwyr



Ffynhonnell y Data: SPI 2017-18

Rhwymedigaethau treth nodweddiadol a chyfraddau treth cyfartalog yng Nghymru

- A2.18 Mae Tabl tri ar ddeg yn dangos yr enillion amser llawn canolrifol, rhwymedigaethau treth incwm cysylltiedig, a chyfraddau treth incwm cyfartalog (rhwymedigaeth treth incwm wedi'i rhannu ag incwm), ar draws amrywiaeth o broffesiynau yng Nghymru.
- A2.19 Mae cyfraddau treth cyfartalog yn cynyddu gydag incwm, sy'n dangos bod cyfanswm y dreth incwm a CTIC yn raddoledig mewn perthynas ag incwm. Mae CTIC yn raddoledig ar gyfer incwm hyd at £125,000. Uwchlaw'r lefel honno, mae'r gyfradd dreth gyfartalog yn sefydlog ar 10%, oherwydd nid oes lwfans personol ar y lefel honno o incwm.

Tabl tri ar ddeg: Enillion amser llawn canolrifol blynyddol, rhwymedigaethau treth incwm a chyfraddau treth cyfartalog yng Nghymru, ar draws nifer o broffesiynau

Proffesiwn	Enillion Amser Llawn Canolrifol Blynyddol	Rhwymedigaeth Treth Incwm (Cyfradd Gyfartalog Treth Incwm)	Ar sail hynny: Rhwymedigaeth CTIC (Cyfradd gyfartalog CTIC)
Swyddog Rheoli Traffig Awyr	£94,000	£25,100 (27%)	£8,150 (9%)
Cynnal a Chadw Awyrennau	£43,000	£6,100 (14%)	£3,050 (7%)
75 Canradd	£38,000	£5,100 (13%)	£2,550 (7%)
Milfeddyg	£35,000	£4,500 (13%)	£2,250 (6%)
Trydanwr	£29,000	£3,300 (11%)	£1,650 (6%)
Canolrif Cymru	£27,000	£2,900 (11%)	£1,450 (5%)
Gweithiwr Post	£26,000	£2,700 (10%)	£1,350 (5%)
Peintiwr a Phapurwr	£22,000	£1,900 (9%)	£950 (4%)
25 Canradd	£20,000	£1,500 (8%)	£750 (4%)
Pobydd	£19,000	£1,300 (7%)	£650 (3%)
Cynorthwydd Manwerthu	£18,000	£1,100 (6%)	£550 (3%)
Glanhâwr	£16,000	£700 (4%)	£350 (2%)

Ffynhonnell y data: ONS – Annual Survey of Hours and Earnings (2019)


Mae rhwymedigaethau treth yn rhagdybio bod yr holl enillion yn rhai nad ydynt yn deillio o ddifidendau na chynilion, eu bod yn drethadwy, ac nad oes rhyddhad na didyniadau eraill yn berthnasol iddynt.

A2.20 Ar gyfer incwm hyd at £50,000 nad yw'n deillio o ddifidendau na chynilion, mae hanner yr holl rhwymedigaethau treth incwm wedi'u datganoli (10c o'r gyfradd sylfaenol gyffredinol o 20c). Ar gyfer incwm uwch, mae'r gyfran hon yn gostwng gan fod CTIC yn cynrychioli cyfran lai o'r cyfraddau treth uwch ac ychwanegol cyffredinol. Yn nhabl 13, dim ond y swyddog rheoli traffig awyr sy'n perthyn i'r grŵp hwn.

Ffynhonnell yr Incwm

A2.21 Mae Ffigur wyth yn dangos cyfran yr incwm nad yw'n deillio o ddifidendau na chynilion, sy'n dod o wahanol ffynonellau. Cyflogaeth sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r incwm yng Nghymru (69%) ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (72%). Mae cyfrannau pensiynau preifat a phensiynau'r wladwriaeth yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cyfran yr incwm sy'n deillio o hunangyflogaeth yn gymharol isel yng Nghymru.

Ffigur wyth: Cyfran yr incwm nad yw'n deillio o gynilion na difidendau, yn ôl ffynhonnell




Ffynhonnell y Data: SPI 2017-18

Perfformiad cymharol cyflogaeth ac enillion

- A2.22 Gyda datganoli, mae perfformiad refeniw treth incwm yng Nghymru yn cael effaith uniongyrchol ar gyllideb Llywodraeth Cymru.
- A2.23 Oherwydd y ffordd y mae Fframwaith Cyllidol Llywodraeth Cymru⁴⁴ yn gweithio, y twf cymharol yn refeniw CTIC, o'i gymharu â'r refeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, sy'n pennu effaith net treth incwm ar adnoddau cyffredinol Llywodraeth Cymru.
- A2.24 Gellir archwilio tueddiadau cyflogaeth ac enillion cymharol blaenorol i roi syniad o sut gallai treth incwm ddatganoledig berfformio yn y dyfodol.
- A2.25 Mae Ffigur naw yn dangos enillion a chyflogaeth yng Nghymru ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon dros y ddau ddegawd diwethaf, wedi'u mynegeo i 2002. Mae'r twf yng Nghymru ar gyfer y ddau fesur wedi dilyn trywydd tebyg iawn i Loegr a Gogledd Iwerddon dros y cyfnod hwn.
- A2.26 Mae hyn yn awgrymu pe bai treth incwm wedi cael ei datganoli dros y cyfnod hwn, a chyfraddau wedi aros yr un fath, ni fyddai hynny wedi cael effaith ariannol sylweddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

⁴⁴<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf>

Ffigur naw: Mynegai Cyflogaeth ac Enillion – Cymru, a Lloegr a Gogledd Iwerddon (2002=100)




Ffynhonnell y Data: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion, Arolwg o'r Llafurlu

Amcanestyniadau i'r dyfodol

A2.27 Yn y tymor hir, mae twf y boblogaeth 16 oed a hŷn yn ddangosydd cyffredinol o sut gallai'r sylfaen trethdalwyr gynyddu. Mae Ffigur deg yn dangos twf yn y boblogaeth 16 oed a hŷn rhwng 2000 a 2019, a'r twf a ragwelir rhwng 2020 a 2030. Rhwng 2000 a 2008, roedd y gyfradd twf yng Nghymru yn debyg i'r gyfradd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, ers 2008, mae'r twf yng Nghymru wedi arafu, gan achosi mwy a mwy o wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffigurau cyflogaeth yn ffigur naw oherwydd mae'r gyfradd cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu, wrth gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon.

A2.28 Mae amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y bydd y gwahaniaeth hwn yn cynyddu hyd at 2030. Petai hyn yn digwydd, a heb welliant cymharol parhaus yn y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru, mae'n debygol y bydd gostyngiad cymharol yn y sylfaen drethu yng Nghymru yn y tymor hwy. Cafodd yr amcanestyniadau a ddefnyddiwyd yma eu llunio cyn dechrau'r pandemig, ac roedden nhw'n seiliedig ar dueddiadau diweddar yn y boblogaeth. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd y pandemig yn cael effaith sylweddol a pharhaol ar dueddiadau poblogaeth yn y DU.

Ffigur deg: Mynegai'r boblogaeth 16 oed a hŷn yng Nghymru, ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (2000=100)



Ffynhonnell y data: Amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac amcanestyniadau poblogaeth sy'n seiliedig ar 2018

Sylfaen Treth Incwm – Dadansoddiad COVID-19

- A2.29 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith uniongyrchol ar gyflogaeth ac incwm yn 2020-21, gan achosi ansicrwydd mawr ynghylch twf cyflogaeth ac enillion yn y dyfodol, ac felly ynghylch amcanestyniadau treth incwm. Bydd effaith wahaniaethol y pandemig ar y sylfaen drethu yng Nghymru ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn arwyddocaol wrth bennu perfformiad cymharol derbyniadau CTIC dros y tymor canolig.
- A2.30 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effeithiau amrywiol ar wahanol sectorau'r economi⁴⁵. Er ei fod wedi cael effaith andwyol ar rai sectorau, mae sectorau eraill wedi tyfu. Mae deall y cyfansoddiad sectoraidd yng Nghymru yn gallu bod yn help i ddeall sut gallai'r pandemig effeithio ar drethdalwyr a referniw CTIC.
- A2.31 Mae Ffigur un ar ddeg yn dangos effaith wahaniaethol y pandemig ar swyddi'r gweithlu mewn gwahanol sectorau, a'r graddau y mae'r sectorau hynny'n fwy neu'n llai pwysig i sylfaen drethu Cymru o'i gymharu ag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. I gael gwybod beth oedd effaith ton gyntaf y pandemig, mae data sy'n ymwneud â marchnad lafur y DU ym mis Mehefin 2020 yn cael eu harchwilio. Rhagdybir bod sioc y pandemig i sectorau yn berthnasol i'r DU i gyd.
- A2.32 Mae swigod mwy yn adlewyrchu diwydiannau sy'n cynrychioli cyfran fwy o referniw CTIC a gynhyrchir yng Nghymru. Mae'r echelin lorweddol yn dangos y gostyngiad canrannol yn nifer swyddi'r gweithlu rhwng Rhagfyr 2019 a Mehefin 2020⁴⁶, gan gynnwys swyddi sydd wedi cael cefnogaeth gan y Cynllun Cadw Swyddi drwy


⁴⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Cynnyrch Domestig Gros misol, yn ôl Gwerth Ychwanegol Gros

⁴⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Swyddi'r Gweithlu yn ôl Diwydiant

gyfnod y Coronafeirws (CJRS) neu'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws (SEISS)⁴⁷.

A2.33 Yr echelin fertigol yw'r gwahaniaeth pwynt canran yng nghyfran y sector o reffeniw CTIC yng Nghymru, neu'r reffeniw cyfatebol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae gwerth cadarnhaol i'r sectorau sy'n cynrychioli cyfran fwy o reffeniw CTIC yng Nghymru.

Ffigur un ar ddeg: Gwahaniaeth rhwng cyfansoddiad sectoraidd reffeniw CTIC neu reffeniw cyfatebol (pwynt canran), a'r newidiadau yn swyddi'r gweithlu rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mehefin 2020 (%)



Ffynonellau'r data: SPI 2017-18, Swyddi Gweithlu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Coronafeirws (COVID-19) CThEM
Gwerth tebygolrwydd = 0.57, $R^2 = 0.22$, cyfernod llethr = 0.036

A2.34 Gwelir bod y berthynas yn ddiarwyddocâd, felly nid oes tystiolaeth i awgrymu bod Cymru yn fwy agored i effaith y pandemig na Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Cymru yn dibynnu mwy ar sectorau nad yw'r pandemig wedi effeithio rhyw lawer arnynt o ran reffeniw CTIC, fel addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae sectorau eraill sydd wedi'u gwarchod i raddau (gweithgareddau proffesiynol a chyllid) yn cynrychioli cyfran fwy o reffeniw cyfatebol i CTIC a gynhyrchir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, sy'n golygu nad oes unrhyw wahaniaeth rhanbarthol yn cael ei amcangyfrif.

A2.35 Ni welir unrhyw effaith wahaniaethol wrth efelychu hyn ar gyfer mis Medi 2020 – cyfnod pan oedd y cyfyngiadau wedi'u llacio i raddau helaeth – sydd eto ddim yn darparu llawer o dystiolaeth bod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar reffeniw CTIC a'r reffeniw cyfatebol wrth gymharu Cymru â Lloegr a Gogledd Iwerddon.

⁴⁷ CThEM (Saesneg yn unig): Ystadegau Coronafeirws (COVID-19)

A2.36 Hefyd, mae ystadegau'r farchnad lafur ranbarthol yn dangos nad oedd fawr o wahaniaeth yn y gostyngiad canrannol ar gyfer swyddi'r gweithlu yng Nghymru (33%), o'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon (34%)⁴⁸⁴⁹ rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Mehefin 2020.

Datblygiadau i'r dyfodol

A2.37 Disgwylir y data alldro cyntaf ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru yr haf hwn, pan fydd CThEM yn cyhoeddi'r alldro ar gyfer 2019-20. Efallai y bydd gan hyn oblygiadau pwysig i gyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac i'r dadansoddiad sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon.

A2.38 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadansoddi'r sylfaen treth incwm yng Nghymru i sicrhau bod ganddi ddealltwriaeth gynhwysfawr a chyfredol o nodweddion y sylfaen treth incwm. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda CThEM i barhau i wella'r data ar dreth incwm er mwyn gallu dadansoddi ymhellach, a cheisio sicrhau bod y data ar gael i ymchwilyr yn fwy cyffredinol, lle bynnag y bo modd.

⁴⁸ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Ystadegau Rhanbarthol ar Swyddi'r Gweithlu

⁴⁹ CThEM (Saesneg yn unig): Ystadegau Rhanbarthol ar CJRS a SEISS

Atodiad tri: Newidiadau i gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir

Cyflwyniad


- A3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r newidiadau diweddar i'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT), a beth yw effeithiau disgwylidig tebygol y newidiadau hynny.
- A3.2 Gwnaed tri phrif newid i'r LTT yn 2020-21, sef:
- i) Cynnydd dros dro i drothwy cyfradd sero'r prif gyfraddau preswyl;
 - ii) Cynnydd yn y cyfraddau preswyl uwch; a
 - iii) Cynnydd i drothwyon y gyfradd sero amhreswyl.
- A3.3 Mae pob un o'r newidiadau hyn yn cael eu trafod isod.

i) Cynnydd dros dro i drothwy cyfradd sero'r prif gyfraddau preswyl

Cefndir

- A3.4 Ar 14 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd dros dro i drothwy cyfradd sero'r prif gyfraddau preswyl. Roedd y newid yn cynyddu'r trothwy cychwynnol o £180,000 i £250,000. Mae hyn yn golygu gostyngiad treth o hyd at £2,450. Mae'r mesur yn berthnasol i drafodiadau sy'n cael eu cwblhau rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r rheolau treth sy'n berthnasol i drafodiadau eiddo preswyl ar gyfraddau uwch, sy'n effeithio'n bennaf ar brynwyr eiddo prynu-i-osod neu ail gartrefi.
- A3.5 Roedd y mesur LTT yn dilyn gostyngiad yn nhreth dir y dreth stamp (SDLT) sy'n daladwy ar drafodiadau preswyl yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Roedd y mesur hwnnw wedi cynyddu'r trothwy cychwynnol i £500,000, ac yn berthnasol i bob pryniant preswyl, gan gynnwys ail gartrefi a phryniannau prynu-i-osod. Mae'r mesur SDLT hefyd i fod i ddod i ben ar 30 Mehefin 2021, gyda trothwy o £250,000 yn berthnasol hyd at 30 Medi, a'r trothwy £125,000 yn berthnasol o 1 Hydref 2021
- A3.6 Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi defnyddio trothwy cychwynnol preswyl uwch dros dro ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (LBTT). Mae'r trothwy wedi cael ei gynyddu o £145,000 i £250,000. Yn yr un modd â'r SDLT, mae'r trothwy uwch hwn hefyd yn berthnasol wrth brynu ail gartrefi ac eiddo prynu-i-osod. Mae'r polisi'n berthnasol i drafodiadau rhwng 15 Gorffennaf 2020 a 31 Mawrth 2021.
- A3.7 Roedd trethdalwyr SDLT ac LBTT sy'n talu'r cyfraddau uwch yn dal yn gorfod talu'r elfen gordal ar gyfer yr SDLT a'r LBTT – dim ond i'r elfen o rwymedigaeth a gyfrifir gan ddefnyddio'r prif gyfraddau preswyl yr oedd y gostyngiadau treth yn berthnasol.
- A3.8 Mae Ffigur deuddeg yn dangos effaith y newidiadau hyn i'r LTT, SDLT a'r LBTT ar gyfraddau treth cyfartalog. Heb y mesurau a'r rhyddhad dros dro, yr LTT sydd â'r trothwy cychwynnol uchaf – sef £180,000 – ac mae'r dreth sy'n ddyledus yr un fath neu'n is na'r SDLT hyd at oddeutu £400,000.
- A3.9 O dan y mesurau dros dro, yr LBTT sydd debycaf i'r LTT, gyda'r un dreth yn berthnasol ar drafodiadau hyd at £325,000. Mae'r cyfraddau treth cyfartalog o dan yr LTT a'r LBTT yn uwch nag o dan yr SDLT ar gyfer trafodiadau sy'n fwy na £250,000.

Ffigur deuddeg: Prif gyfraddau treth preswyl LTT, SDLT ac LBTT



Nodyn: mae'n dangos y dreth sy'n berthnasol i brif fannau preswyl, nid tai prynu-i-osod na thai gwyliau, ac nid yw'n cynnwys rhyddhad i brynwyr tro cyntaf nac unrhyw ryddhad arall.

Tystiolaeth a dadansoddiad

- A3.10 Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, £170,000 oedd pris cyfartalog tai yng Nghymru ym mis Gorffennaf, a £146,000 oedd y pris cyfartalog a dalwyd gan brynwyr tro cyntaf. Felly, hyd yn oed cyn y mesur dros dro, roedd trothwy cychwynnol parhaol yr LTT eisoes yn uwch na'r pris cyfartalog i brynwyr. Nid oedd hyn yn wir yn Lloegr nac yn yr Alban, lle'r oedd y prisiau cyfartalog yn uwch na'r trothwyon treth perthnasol.
- A3.11 O ganlyniad i'r newid yn yr LTT, gan ddefnyddio data 2019-20, dim ond yr 20% uchaf o drafodiadau preswyl yng Nghymru fyddai uwchlaw'r trothwy cyfradd sero dros dro, i fyny o tua 40% gyda'r trothwy cyfradd sero o £180,000. Mae'r newidiadau dros dro i'r SDLT yn golygu bod y 10% uchaf o brynwyr tai yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon yn talu treth o dan y prif gyfraddau preswyl. Yn sgil y newidiadau i'r LBTT, bydd oddeutu'r 20% uchaf o brynwyr tai yn yr Alban yn talu treth wrth brynu eu cartref.
- A3.12 Amcangyfrifir y bydd tua 10,000 o drafodiadau preswyl ar y prif gyfraddau yn elwa o'r gostyngiad treth yng Nghymru, a fydd yn costio £19 miliwn yn 2020-21⁵⁰.
- A3.13 Gan fod dyddiad dod i ben y polisi, sef 31 Mawrth 2021, wedi cael ei gyhoeddi ymlaen llaw, roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn disgwyl i'r polisi

⁵⁰ Ar gael yn: <https://obr.uk/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2020/>

achosi rhywfaint o ragbrynu – bydd trafodiadau wedi cael eu dwyn ymlaen er mwyn manteisio ar y drefn trethi is cyn y newid i gyfraddau LTT ar 1 Ebrill 2021 bryd hynny. Ar sail cyfnodau blaenorol o ragbrynu yn y farchnad eiddo ar lefel y DU⁵¹, mae'r OBR yn amcangyfrif y bydd tua 1,000 o drafodiadau yng Nghymru yn cael eu dwyn ymlaen i 2020-21 o 2021-22. Mae hyn yn cynyddu'r refeniw LTT tua £3 miliwn yn 2020-21, ac yn ei leihau £4 miliwn yn 2021-22.

- A3.14 Gan fod y mesur yn lleihau'r LTT, disgwylir hefyd y bydd yn cynyddu nifer y trafodiadau ryw ychydig yn 2020-21, yn ychwanegol at yr effaith rhagbrynu, er y bydd effaith hyn yn llai. Disgwylir effaith gadarnhaol fach ar brisiau preswyl hefyd.
- A3.15 Gallai cynnydd yn nifer y trafodiadau eiddo preswyl yn 2020-21 hefyd gael effaith gadarnhaol ar yr economi yn fwy cyffredinol eleni. Mae tystiolaeth y DU ynghylch y dirywiad economaidd rhwng 2008 a 2009 yn awgrymu bod gostwng trethi trafodiadau eiddo preswyl wedi rhoi hwb i'r farchnad eiddo, ac wedi ysgogi'r economi⁵². Mae gwaith ymchwil dilynol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn awgrymu buddion cadarnhaol wrth ddwyn trafodiadau ymlaen, ond budd cyffredinol llai yng Nghymru nag y mae tystiolaeth y DU yn ei awgrymu⁵³. Fodd bynnag, mae'r dirywiad economaidd presennol yn wahanol iawn i'r un a ddigwyddodd yn 2008, ac mae'r system dreth yng Nghymru hefyd yn wahanol (er enghraifft, newidiwyd o system 'slabiau' i system 'dafello' ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl yn 2014). Felly mae'n anodd cymhwysu'r astudiaethau blaenorol hyn yn uniongyrchol i'r sefyllfa bresennol.
- A3.16 O ganlyniad i'r mesurau dros dro, mae gwahaniaethau treth sylweddol wrth brynu eiddo drutach yng Nghymru wrth gymharu â'r SDLT yn Lloegr. I brynwyr tai yng Nghymru, mae gwahaniaethau treth yn digwydd o £250,000 i fyny. Yn 2019-20, roedd tua 10% o eiddo yn drafodiadau gwerth £300,000 neu fwy Ar y pris hwnnw, £2,500 yw'r gwahaniaeth mewn treth rhwng yr LTT a'r SDLT â'r mesurau dros dro presennol yn 2020-21. Gwerthwyd tua 5% am £380,000 neu fwy yn 2019-20 – ar y pris hwnnw, £6,500 yw'r gwahaniaeth mewn treth. Gwerthwyd tua 1% am £600,000 neu fwy – ar y pris hwnnw, £17,500 yw'r gwahaniaeth mewn treth.
- A3.17 Mae tystiolaeth gan Hilber a Lyytikäinen (2012)⁵⁴ yn awgrymu bod newidiadau i drethi trafodiadau eiddo, neu wahaniaethau rhyngddynt, yn fwy tebygol o effeithio ar symud pellter byr nag ar symud yn bell i ffwrdd. Felly, yng Nghymru, mae'r gwahaniaethau newydd hyn yn fwy tebygol o effeithio ar y trafodiadau sy'n agos iawn at Loegr. Gallai hyn effeithio ar rai marchnadoedd eiddo lleol sy'n pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, gan ystumio'r farchnad eiddo rywfaint yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, gan mai ar nifer bach o eiddo y disgwylir y bydd hyn yn effeithio, disgwylir i'r effaith gyffredinol fod yn gymharol fach.

⁵¹ I gael rhagor o fanylion am ragbrynu, edrychwch ar *Forestalling ahead of property tax changes* OBR (2016), sydd ar gael yn (Saesneg yn unig):

https://obr.uk/docs/dlm_uploads/Working-paper-No.10-1.pdf

⁵² Gweler Best, M. a Kleven, H. (2018) *Housing Market Responses to Transaction Taxes: Evidence from Notches and Stimulus in the UK*, The Review of Economic Studies, 85, tud. 157-193.

⁵³ Gweler TARC (2019) *An Evaluation of the 2008-2009 Stamp Duty Holiday in Wales* sydd ar gael yn (Saesneg yn unig):

https://tarc.exeter.ac.uk/media/universityofexeter/businessschool/documents/centres/tarc/publications/report_s/An_Evaluation_of_the_2008-2009_Stamp_Duty_Holiday_in_Wales.pdf

⁵⁴ Ar gael yn (Saesneg yn unig):

<http://www spatialeconomics.ac.uk/textonly/SERC/publications/download/sercdp0115.pdf>

A3.18 Mae cyfyngu'r gostyngiad treth dros dro i'r rheini sy'n prynu eu prif fan preswyl, ac nid i drafodiadau prynu-i-osod nac ail gartrefi, wedi cynyddu'r gwahaniaeth mewn treth rhwng y gwahanol fathau o bryniannau preswyl yng Nghymru. Byddai'r gostyngiad cymharol mewn treth i'r rheini sy'n prynu cartref i fyw ynddynt eu hunain, o'i gymharu â phryniannau ail gartrefi a phryniannau prynu-i-osod, hefyd yn gallu newid cyfansoddiad trafodiadau preswyl. Gallai hyn gynyddu rhywfaint ar gyfran y trafodiadau prynu cartref yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf 2020 a Mehefin 2021.


Canlyniad

A3.19 Gellir ymchwilio i effaith bosibl y dreth drwy gymharu perfformiad trafodiadau ar y prif gyfraddau â thrafodiadau preswyl ar gyfraddau uwch – sydd heb gael gostyngiad treth.

A3.20 Mae'r ddau fath o drafodiad wedi gweld cynnydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol hon, fel y dangosir yn Ffigur tri ar ddeg. Ym mis Ebrill, roedd trafodiadau ar y cyfraddau uwch a thrafodiadau ar y prif gyfraddau tua 60 y cant yn is na'r cyfartaledd misol ar gyfer 2019-20. Ym mis Gorffennaf, roedd trafodiadau ar y cyfraddau uwch 27% yn is na'u cyfartaledd misol ar gyfer 2019-20, ac roedd trafodiadau ar y prif gyfraddau wedi gostwng 37%. Efallai fod hyn wedi digwydd oherwydd i'r farchnad eiddo ailagor yn raddol, cyn ailagor yn llawn ar 27 Gorffennaf.

A3.21 O ystyried y bwlbwch rhwng cychwyn a chwblhau trafodiadau eiddo, mae'n debygol y bydd oedi o ychydig fisoedd efallai cyn y bydd y newid yn y dreth wedi effeithio ar drafodiadau a gofnodwyd. Mae trafodiadau wedi parhau i gynyddu ar gyfer y ddau fath o drafodiad, ond ers mis Medi mae trafodiadau ar y prif gyfraddau wedi cynyddu'n gyflymach na thrafodiadau ar gyfraddau uwch.

Ffigur tri ar ddeg: Perfformiad trafodiadau preswyl, o'i gymharu â chyfartaledd misol 2019-20




DS Mae'r cyfraddau uwch yn cael eu dangos cyn i unrhyw ad-daliadau posibl gael eu gwneud.
Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru

A3.22 Yn ogystal ag amrywio yn ôl y math o drafodiad, roedd y gostyngiad treth ym mis Gorffennaf hefyd yn amrywio yn ôl pris. Ar gyfer y brif gyfradd, nid oedd unrhyw newid ar gyfer trafodiadau o dan £180,000 nad oeddent eisoes yn talu treth, roedd effaith wrth gynyddu o £180,000 i £250,000, a gostyngiad sefydlog o £2,450 ar gyfer trafodiadau uwchlaw'r pris hwnnw. Mae Ffigur deuddeg yn dangos llwybr diweddar y trafodiadau yn y tri band hynny ar gyfer y prif gyfraddau a'r cyfraddau uwch.

A3.23 Gan edrych ar y cyfnod ers mis Gorffennaf, mae trafodiadau â phrisiau uwch wedi cynyddu mwy'n gyffredinol na thrafodiadau â phrisiau is ac, ar wahân i'r band isaf, mae trafodiadau ar y prif gyfraddau wedi cynyddu mwy na rhai ar gyfraddau uwch. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth betrus bod newid y dreth wedi effeithio ar drafodiadau. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod dylanwadau ehangach ar y farchnad eiddo, sy'n deillio o'r argyfwng presennol. Mae ynysu effaith y newid yn y dreth yn anodd iawn pan fo effeithiau mawr eraill ar waith sy'n berthnasol i'r holl farchnad eiddo. Mae'r OBR⁵⁵ wedi awgrymu y gallai tueddiadau tebyg ar draws marchnad eiddo'r DU fod o ganlyniad i aelwydydd yn defnyddio arian o gynilion ychwanegol yn ystod y pandemig i brynu tai drutach. Byddai hyn hefyd yn egluro'r adferiad mwy serth mewn trafodiadau â gwerth cymharol uchel.

⁵⁵ Tystiolaeth ar lafar a ddarparwyd gan yr OBR ym Mhwyllgor Cyllid Senedd yr Alban ar 27 Ionawr 2021. Mae'r trawsgrifiad ar gael yn (Saesneg yn unig): <https://www.parliament.scot/parliamentarybusiness/report.aspx>

Ffigur pedwar ar ddeg: Perfformiad trafodiadau preswyl yn ôl band prisiau, o'i gymharu â chyfartaledd misol 2019-20



DS Mae'r cyfraddau uwch yn cael eu dangos cyn i unrhyw ad-daliadau posibl gael eu gwneud.
Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru

A3.24 Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod nifer o heriau wrth werthuso effeithiau posibl y mesur preswyl dros dro ar drafodiadau. Er bod tua chwe mis o ddata LTT ar gael ar hyn o bryd ers i'r mesur gael ei gyflwyno, mae hyn yn dal yn eithaf cyfyngedig o ystyried yr oedi a nodwyd uchod.

A3.25 Hefyd, mae nifer o ffactorau eraill yn debygol o fod yn effeithio ar y farchnad eiddo ar yr un pryd â'r gostyngiad treth. Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau symud a'r galw a oedd wedi cronni, ac yna'r cyfyngiadau symud lleol a'r cyfnod atal byr ar gyfer Cymru gyfan, i gyd wedi effeithio ar y farchnad dai. Os felly, mae'r rhain i gyd yn debygol o ystumio'r farchnad eiddo, a'i gwneud yn anodd iawn i ynysu effaith y mesur treth dros y cyfnod hwn.

ii) Cynnydd yn y cyfraddau preswyl uwch

Cefndir


A3.26 Mae LTT ychwanegol yn berthnasol i bryniannau pan fydd gan y prynwr fwy nag un eiddo preswyl ar adeg y pryniant (fel bod yn berchen ar gartref a phrynu eiddo buddsoddi). Mae cwmnïau sy'n caffael unrhyw eiddo preswyl hefyd yn talu'r cyfraddau preswyl uwch. Tan 27 Gorffennaf, roedd yn gyfradd sefydlog sengl o 3% ar ben y prif gyfraddau. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021, mae trothwy treth y prif gyfraddau preswyl wedi cynyddu dros dro o £180,000 i £250,000, ac nid yw hynny'n berthnasol i eiddo preswyl ychwanegol. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwahaniaeth treth rhwng y cyfraddau

uwch a'r prif gyfraddau yn gyson ar 3% mwyach. Mae'n cynyddu i dros 3% o £180,000 i ychydig o dan 4% ar gyfer eiddo â phris o £250,000.

A3.27 Ers 22 Rhagfyr, mae'r cyfraddau preswyl uwch wedi cynyddu o 3% i 4%. Yn y cyfnod rhwng 22 Rhagfyr 2020 a 30 Mehefin 2021, mae'r gwahaniaeth hwn o'r prif gyfraddau yn codi i ychydig dros 4% o £180,000 i ychydig o dan 5% ar gyfer eiddo â phris o £250,000. O fis Gorffennaf 2021 ymlaen, bydd y gyfradd dreth uwch yn dychwelyd i gyfradd safonol o 4% yn ychwanegol at y prif gyfraddau preswyl. Y swm yma o dreth fydd yn cael ei ad-dalu os bydd trafodiad yn gymwys i gael ad-daliad dros y 36 mis ar ôl dyddiad cwblhau gwreiddiol y trafodiad. Felly, bydd gwerth ad-daliadau dros y blynyddoedd i ddod o drafodiadau sy'n digwydd o fis Gorffennaf 2020 a thu hwnt hefyd yn cynyddu o ganlyniad i'r polisi hwn.

A3.28 Mae Ffigur pymtheg yn dangos y cyfraddau treth cyfartalog ar gyfer cyfraddau preswyl uwch a oedd yn berthnasol cyn 22 Rhagfyr 2020, y rheini sy'n berthnasol o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen, y prif gyfraddau preswyl, a'r prif gyfraddau preswyl sydd ond yn berthnasol yng nghyfnod y gostyngiad treth dros dro rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 30 Mehefin 2021 (mae'r ddau hefyd yn cael eu dangos yn Ffigur tri ar ddeg). Mae'n dangos sut mae'r cyfraddau preswyl uwch newydd un pwynt canran yn uwch ar draws y dosbarthiad prisiau. Mae hefyd yn dangos y bwlch rhwng y cyfraddau uwch a'r prif gyfraddau (gyda a heb y mesur dros dro ar gyfer y prif gyfraddau preswyl).

Ffigur pymtheg: Cyfraddau preswyl uwch LTT – cyfradd dreth gyfartalog yn ôl pris



Tystiolaeth a dadansoddiad

A3.29 Tua £160,000 oedd pris cyfartalog trafodiad ar gyfraddau preswyl uwch yn 2019-20. Felly, mae'r cynnydd yn y dreth yn ychwanegu tua £1,600 at bris cyfartalog trafodiad ar gyfraddau uwch, gan ei gynyddu i oddeutu £6,400.

- A3.30 Mae Rhagolygon Trethi Cymru yr OBR (Rhagfyr 2020) yn cynnwys 4,000 o drafodiadau yr effeithir arnynt yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021, a thua 16,000 y flwyddyn ar ôl hynny. Rhagwelir y bydd y mesur hwn yn cynhyrchu £16 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd o 2021-22 ymlaen.
- A3.31 Disgwylir i'r polisi leihau trafodiadau a phrisiau tai ychydig. Mae hyn yn debygol o effeithio ar y trafodiadau hynny sydd ar y cyfraddau preswyl uwch, ac i raddau llai ar y trafodiadau hynny sydd ar y prif gyfraddau preswyl. Mae'r ail effaith yn deillio o'r disgwyliad y bydd pobl yn prynu tai i fyw ynddynt eu hunain, yn hytrach nag ail gartrefi a thai prynu-i-osod.


iii) Cynnydd i drothwyon y gyfradd sero amhreswyl

Cefndir


- A3.32 Mae gan yr LTT ddwy set o fandiau a chyfraddau amhreswyl. Mae'r set gyntaf yn berthnasol wrth drosglwyddo eiddo amhreswyl y rhydd-ddaliad, 'premiymau' (y ffi ymlaen llaw sy'n cael ei thalu wrth gael les newydd), ac 'aseinio' les (trosglwyddo les bresennol). Cyfeirir at y rhain fel y 'prif gyfraddau amhreswyl'.
- A3.33 Mae'r ail set o gyfraddau a bandiau yn berthnasol i werth net presennol (NPV) rhenti les amhreswyl dros gyfnod y lesddaliad. Dim ond pan fydd les yn cael ei rhoi o'r newydd y mae'r rhain yn berthnasol ac, yn gyffredinol, ni fyddant yn berthnasol pan fydd les bresennol yn cael ei throsglwyddo neu ei haseinio.
- A3.34 Roedd gan y ddwy set o gyfraddau a bandiau fand cyfradd sero hyd at £150,000, ac yna band 1% o £150,000 i £250,000. Roedd y mesur polisi wedi cynyddu'r trothwyon ar gyfer y ddwy atodlen o £150,000 i £225,000, 50% o gynnydd. Daeth y newid parhaol hwn i rym ar 22 Rhagfyr 2020. Mae'r mesur yn lleihau'r dreth hyd at £750 ar y ddau fath o drafodiad amhreswyl.
- A3.35 Hefyd, roedd polisi cysylltiedig wedi cynyddu swm y 'rhent perthnasol' yn unol â'r cynnydd cyfatebol i'r trothwyon, o £9,000 i £13,500 (50% o gynnydd). Dyma lefel y rhent blyneddol sydd, o'i chroesi, yn arwain at drafodiadau lle mae'n rhaid talu treth ar NPV rhent les a phremiwm, gan gollu trothwy'r gyfradd sero sy'n berthnasol i'r gydnabyddiaeth a roddir ar wahân i rent. Mae hyn yn golygu bod y gyfradd dreth gyntaf (1%) yn berthnasol hyd at £250,000. Drwy gynyddu swm y 'rhent perthnasol', bydd llai o drafodiadau'n colli'r band cyfradd sero, a bydd yn berthnasol yn yr un ffordd gyfrannol â phan oedd y trothwy cyfradd sero yn is.
- A3.36 Mae'r mesurau hyn yn fwy tebygol o fod o fudd i fusnesau bach a chanolig, gan ddarparu'r un gostyngiad treth mwyaf ar gyfer rhai trafodiadau amhreswyl mwy hefyd.
- A3.37 Mae Ffigur un ar bymtheg yn dangos y prif gyfraddau amhreswyl, y rheini sy'n berthnasol i drosglwyddo eiddo, premiymau ac aseiniadau les. Mae'r LTT yr un fath â'r SDLT a'r LBTT hyd at £150,000. Ar gyfer trafodiadau â chydabyddiaeth o £150,000 i ychydig dros £1m, mae'r LTT yn is na'r SDLT a'r LBTT. Pan fydd y gydnabyddiaeth ychydig dros £1m, mae'r LTT yn uwch na'r ddwy dreth arall ar drafodiadau eiddo yn y DU.

A3.38 Mae Ffigur dau ar bymtheg yn dangos cyfraddau rhent lesioedd amhreswyl. Yn yr un modd â'r brif gyfradd amhreswyl, mae'r LTT yr un fath â'r SDLT hyd at £150,000, yna'n is na'r SDLT hyd at £2m, ac wedyn yn uwch pan fydd gwerth presennol net rhent y les yn fwy na £2m. Gyda'r LBTT, mae'r un fath â'r LTT cyn mis Rhagfyr 2020, felly mae'r LTT o fis Rhagfyr 2020 ymlaen yr un fath â'r LBTT hyd at £150,000, ac wedyn yn is ar ôl hynny.

Ffigur un ar bymtheg: Prif gyfraddau amhreswyl LTT – cyfradd dreth gyfartalog yn ôl pris



Ffigur dau ar bymtheg: Cyfraddau rhent les amhreswyl LTT – cyfradd dreth gyfartalog yn ôl NPV rhent les



Tystiolaeth a dadansoddiad

A3.39 Mae Rhagolygon Trethi Cymru yr OBR (Rhagfyr 2020) yn cynnwys tua 1,500 o breimiau ac aseiniadau les amhreswyl, a thrafodiadau trosglwyddo rhydd-ddaliad bob blwyddyn a fydd yn berthnasol i'r trothwy uwch newydd o £225,000 o 2021-22 ymlaen. Ar ben hynny, mae tua 1,000 o lesoddd newydd amhreswyl yn cael eu rhoi bob blwyddyn, ac mae disgwyl i'r rhenti (NPV) hefyd fod yn berthnasol i drothwy uwch newydd o £225,000. Bydd gan yr holl drafodiadau hyn hyd at £750 yn llai o rwymedigaeth treth. Disgwylir i'r newidiadau gael effeithiau cadarnhaol bach iawn ar brisiau a thrafodiadau eiddo amhreswyl.

A3.40 Mae'r OBR yn amcangyfrif y bydd y mesurau hyn yn costio llai na £1 miliwn yn 2020-21, ac wedyn £1 miliwn y flwyddyn ar ôl hynny.

Y camau nesaf

A3.41 Fel gyda holl bolisïau treth Llywodraeth Cymru, byddwn ni'n parhau i fonitro effaith y polisïau LTT a gyhoeddwyd yn 2020-21. Fodd bynnag, gan fod y pandemig yn tarfu'n sylweddol ar y farchnad eiddo, bydd yn anodd iawn cynnal unrhyw werthusiad posibl yn y dyfodol sy'n ceisio ynysu effaith y polisïau hyn. Mae data LTT yn cael eu cyhoeddi bob mis gan Awdurdod Cyllid Cymru⁵⁶. Bydd y data hyn yn dal

⁵⁶ Maen nhw ar gael yma:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Taxes-devolved-to-Wales/Land-Transaction-Tax>

ar gael i'r cyhoedd er mwyn gallu dadansoddi'n ehangach berfformiad yr LLT eleni ac yn y dyfodol.

Atodiad pedwar: Gwerthuso rhagolygon Llywodraeth Cymru o'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2019-20

Cyflwyniad

- A4.1 Roedd Llywodraeth Cymru wedi paratoi rhagolygon reffeniw'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ar gyfer cyllideb derfynol 2019-20, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018. Sicrhawyd y rhagolygon hyn gan Ysgol Busnes Bangor.
- A4.2 Mae alldro reffeniw treth 2019-20 bellach ar gael ar gyfer yr LTT a'r LDT. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i werthuso rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd yr alldro'n cynnwys rhai o effeithiau cychwynnol pandemig COVID-19 yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, bydd yr effaith ar reffeniw cyffredinol 2019-20 yn gyfyngedig iawn.
- A4.3 Mae'r ddogfen hon yn dilyn yr un dulliau a ddefnyddiwyd i werthuso rhagolygon 2018-19 Llywodraeth Cymru, fel y cawsant eu cyhoeddi yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi 2019⁵⁷.
- A4.4 Y rhagolygon hyn oedd y rhai olaf i gael eu llunio gan Lywodraeth Cymru a'u sicrhau gan Ysgol Busnes Bangor. Yn unol â thelerau cytundeb fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, mae rhagolygon treth a fydd yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru bellach yn cael eu llunio'n annibynnol. Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sy'n llunio'r rhagolygon, a bydd hefyd yn gyfrifol am eu gwerthuso.

Yr hyn sy'n cyfyngu ar ragolygon

- A4.5 Mae rhagolygon yn golygu amcangyfrif rhywbeth sy'n ansicr: sut bydd reffeniw trethi yn newid yn y dyfodol. Felly, nid yw'n annisgwyl i alldro reffeniw fod yn wahanol i'r rhagolygon. Oherwydd bod disgwyl i'r rhagolygon fod yn wahanol i'r alldro, mae'n bwysig bod y gwahaniaethau hyn yn cael eu dadansoddi er mwyn tynnu sylw at unrhyw ansicrwydd penodol neu ragdybiaethau anghywir a ddefnyddiwyd y gellir, os ydynt yn berthnasol, eu defnyddio i wella rhagolygon yn y dyfodol.
- A4.6 Nid yw rhagolwg sy'n wahanol i'r alldro yn cael ei ddisgrifio fel 'gwall' yma, yn unol â dull gweithredu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Cyfeirir atynt fel 'gwahaniaethau'. Mae hyn oherwydd eu bod yn anochel i raddau helaeth, wrth ystyried yr wybodaeth oedd ar gael adeg y rhagolwg. Mae hyn yn wahanol i wallau gwirioneddol a all ddigwydd mewn model rhagamcanu. Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth hwn wrth werthuso rhagolygon.
- A4.7 Mae'r modelau rhagamcanu a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhagolygon hyn wedi bod drwy gyfres o brosesau sicrhau ansawdd, cyn cael eu harchwilio'n allanol ymhellach gan Ysgol Busnes Bangor⁵⁸. Dylai'r broses sicrhau

⁵⁷ Ar gael yn yr atodiad yn y fan yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019.pdf>

⁵⁸ I gael rhagor o fanylion, ewch i:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adroddiad-terfynol-rhagfyr-2018.pdf>

ansawdd leihau'r risg o wallau modelu, a sicrhau bod y rhagdybiaethau neu'r safbwyntiau a ddefnyddiwyd yn rhesymol ac yn seiliedig ar yr wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

Y Dreth Trafodiadau Tir

Crynodeb o'r alldro a'r rhagolygon

- A4.8 £260.3m oedd yr alldro blynyddol ar gyfer yr LTT yn 2019-20, fel y cyhoeddwyd yng nghyfrifon cyhoeddus Awdurdod Cyllid Cymru.⁵⁹
- A4.9 Lluniwyd rhagolygon ar gyfer cyllidebau Drafft a Therfynol 2019-20. Gan mai rhagolygon y Gyllideb derfynol sy'n cael eu defnyddio yn y pen draw i bennu cyllideb Llywodraeth Cymru bob blwyddyn, mae'r rhagolygon hyn wedi'u gwerthuso yma. Mae'r rhagolwg hwn yn cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr adrannau canlynol.

Perfformiad rhagolwg mis Rhagfyr 2018

- A4.10 Mae Tabl pedwar ar ddeg yn dangos bod yr alldro £3.8m yn uwch na rhagolwg Cyllideb Derfynol 2019-20 Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018 (£256.4m). Fodd bynnag, mae'r alldro'n cynnwys y referniw o drosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd rhwng Network Rail a Trafnidiaeth Cymru. Cafodd y rhwymedigaeth hon ei hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Ni ddisgwylid y trafodiad eithriadol hwn na'r referniw perthnasol ym mis Rhagfyr 2018, felly ni chafodd ei gynnwys yn y rhagolwg ar y pryd. Wrth ei hepgor ceir alldro o £232.0m, £24m yn is na'r rhagolwg.
- A4.11 Roedd yr alldro yn is na rhagolwg Rhagfyr 2018 ar gyfer pob un o'r tri math o drafodiad, ond i raddau gwahanol. Roedd y diffyg yn fwy yn ôl cyfran ar gyfer trafodiad amhreswyl (17%) na'r ddau fath arall o drafodiad (y naill a'r llall tua 9%).

⁵⁹ Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/awdurdod-cyllid-cymru-cyfrifon-blynyddol-2019-2020.pdf>

Tabl pedwar ar ddeg: Alldro 2019-2020 a rhagolwg Rhagfyr 2018

Math o drafodiad	Rhagolwg Rhag-18 (£m)	Alldro (£m)	Gwahaniaeth rhwng yr alldro a'r rhagolwg (£m)	Gwahaniaeth rhwng yr alldro a'r rhagolwg (%)
Preswyl (heb gynnwys preswyl ychwanegol)	111.6	102.1	-9.5	-9.3%
Preswyl ychwanegol	64.6	59.5	-5.1	-8.6%
Amhreswyl	80.2	68.5	-11.7	-17.1%
Arall		30.2	+30.2	
Cyfanswm	256.4	260.3	+3.8	+1.5%
Cyfanswm (heb gynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd)		232.0	-24.4	-10.5%

Datgyfansoddiad o'r gwahaniaeth rhwng yr alldro a rhagolwg Rhagfyr 2018

- A4.12 Er mwyn datgyfansoddi'r gwahaniaeth rhwng alldro a rhagolwg 2019-20, defnyddir y ddwy elfen ganlynol, sy'n cyd-fynd â sut mae'r OBR yn gwerthuso ei rhagolygon:
1. Ffactorau economaidd
 2. Ffactorau modelu
- A4.13 Y ffactorau economaidd ar gyfer yr LTT yw rhagolygon twf trafodiadau a phris eiddo. Defnyddir y rhain ar gyfer y modelau i gynrychioli'r newidiadau a ddisgwyllir yn y farchnad eiddo. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ragolygon yr OBR ar gyfer y DU gyda'r ddau ffactor hyn.
- A4.14 Mae'r ffactorau modelu yn cynnwys holl elfennau eraill y gwahaniaeth rhwng y rhagolwg a'r alldro. Mae elfennau posibl eraill yn cynnwys: newidiadau i ddosbarthiad pris eiddo o'i gymharu â'r rhagolwg sylfaenol a ddefnyddiwyd yn y modelau, a'r effeithiau ar ymddygiad ar ôl newid cyfradd y dreth⁶⁰. Mae Ffigur deunaw yn dangos dadgyfansoddiad o'r gwahaniaeth rhwng yr alldro â'r rhagolwg, gan ddefnyddio'r ffactorau hyn ar draws y tri phrif fath o drafodiad.
- A4.15 Ar gyfer y prif gyfraddau preswyl, mae'r ffactorau economaidd yn egluro tua hanner y gwahaniaeth, a'r ffactorau modelu yn egluro'r hanner arall. Roedd y ddwy elfen hyn yn gymharol fach.
- A4.16 Ar gyfer y cyfraddau uwch ar eiddo preswyl ychwanegol, roedd y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth rhwng yr alldro a'r rhagolwg yn deillio o ffactorau modelu. Gan mai un gyfradd safonol yw'r elfen hon o'r system dreth, nid oedd y newid yn y dosbarthiad wedi effeithio o gwbl ar hyn. Y prif fater modelu yn yr achos hwn oedd yr addasiad i ystyried data yn ystod y flwyddyn yn 2018-19, a'i effaith ddilynol yn 2019-20.
- A4.17 Roedd y penderfyniad ynghylch refeniw yn ystod y flwyddyn, a'r effaith a gafodd hyn ar y rhagolwg, hefyd yn nodwedd o'r gwerthusiad o ragolwg 2018-19⁶¹. Roedd y gwerthusiad hwnnw'n tynnu sylw at y ffaith nad oedd y proffil yn ystod y flwyddyn a ddefnyddiwyd bryd hynny'n cyfleu'n llawn y gostyngiad diwedd blwyddyn yn y math hwn o weithgarwch trafodiadau eiddo. Roedd y mater proffilio yn rhagolwg 2018-19 ym mis Rhagfyr 2018 yn golygu bod rhagolwg 2019-20 wedi dechrau ar sylfaen rhy uchel.
- A4.18 Yn dilyn y gwerthusiad o ragolwg 2018-19, mae'r ffordd y mae cyfraddau uwch yn ystod y flwyddyn ar refeniw preswyl ychwanegol yn cael eu modelu, ac yna eu barnu, wedi cael ei diweddarau. Rhoddwyd hyn ar waith fel rhan o ragolygon Cyllideb 2020-21, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.
- A4.19 Roedd gwahaniaethau cymharol fawr ar gyfer yr elfen ddibreswyl, er bod rhai'n gwneud iawn yn rhannol am wahaniaethau i'r rhagolwg a achoswyd gan y ffactorau economaidd a modelu. Mae'r diffyg oherwydd ffactorau economaidd yn adlewyrchu prisiau cyfartalog is nag a ragwelwyd ar gyfer trafodiadau amhreswyl. Rhagwelwyd y derbyniadau treth amhreswyl ar sail sylfaen drethu 2017, a oedd yn cynnwys rhai

⁶⁰ Byddai newidiadau polisi ar ôl i'r rhagolwg gael ei baratoi yn rheswm arall posibl dros wahaniaethau rhwng alldro a rhagolygon. Nid oedd newidiadau o'r fath yn yr achos hwn.

⁶¹ Edrychwch ar dudalennau 65-66, *Gwerthuso rhagolygon Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi*, sydd ar gael yn:


<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2019.pdf>

trafodiadau a oedd â gwerth eithriadol o uchel. Mae'n ymddangos bellach bod y sylfaen uchel honno yn 2017 yn adlewyrchu ffactorau untro yn hytrach na lefel gyson o refeniw. Gan fod y sylfaen uchel yn 2017 wedi cael ei defnyddio i greu rhagolwg hyd at 2019-20, roedd y pris cyfartalog yn rhy uchel.

A4.20 Roedd y ffactorau modelu hefyd yn sylweddol, ond wedi lleihau maint cyffredinol y gwahaniaeth yn y rhagolwg a achoswyd gan y penderfyniadau economaidd. Y rheswm am hyn yw bod y ffactorau modelu wedi ystyried gwybodaeth yn ystod y flwyddyn yn 2018-19, a oedd eisoes yn awgrymu nad oedd sylfaen uchel 2017 yn un barhaol.

A4.21 At ei gilydd, mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â rhagolygon refeniw amhreswyl, oherwydd dibyniaeth ar ychydig o drafodiadau masnachol uchel eu gwerth i gynhyrchu refeniw. O ganlyniad, mae'r refeniw hwn yn gyfnewidiol iawn, ac felly'n dueddol o arwain at anghywirdeb mewn rhagolygon. Bydd y risg yma'n parhau mewn rhagolygon refeniw LTT yn y dyfodol.

Ffigur deunaw: Datgyfansoddi rhagolwg Rhagfyr 2018 ar gyfer 2019-20



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Sut mae hyn yn cymharu â rhagolygon eraill?

A4.22 Ym mis Hydref 2018, lluniodd yr OBR ragolygon o'r LTT a threth dir y dreth stamp (SDLT) ar gyfer 2019-20. Lluniodd Comisiwn Cyllidol yr Alban (SFC) ragolwg o'r Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (LBTT) ar gyfer 2019-20⁶² ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r amseroedd arwain ar gyfer y rhagolygon hyn yn debyg i rai Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain i gyd i'w gweld yn ffigur pedwar ar bymtheg. Roedd rhagolwg


⁶² Y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (LBTT) yw'r dreth gyfatebol i'r LTT a'r SDLT sydd ar waith yn yr Alban.

LTT yr OBR ar y pryd yn seiliedig ar fodolau Llywodraeth Cymru, sy'n egluro'r tebygrwydd â rhagolwg Llywodraeth Cymru.

A4.23 Roedd alldro 2019-20 ar draws y tair treth, a'r elfennau oddi mewn iddynt, yn is nag unrhyw un o'r rhagolygon. Yr elfen amhreswyl oedd â'r gwahaniaeth mwyaf, a oedd yn fwy na 10% ym mhob achos.

A4.24 Ar gyfer 3 o'r 4 rhagolwg, y prif gyfraddau preswyl oedd y gwahaniaeth mwyaf nesaf – yr eithriad oedd rhagolwg SDLT yr OBR. Rhagolwg yr SFC ar gyfer dwy elfen breswyl yr LBTT oedd yr agosaf at yr alldro.

Ffigur pedwar ar bymtheg: Alldro Llywodraeth Cymru, yr OBR a'r SFC o'i gymharu â'r gwahaniaethau yn y rhagolygon, 2019-20



Ffynhonnell: Yr OBR, SFC a CThEM (alldro dros dro)

Casgliadau

A4.25 Roedd yr alldro ar gyfer referniw LTT yn 2019-20 yn is na'r rhagolygon a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018. Y prif reswm am hynny oedd gwahaniaeth cymharol fawr rhwng yr alldro a'r rhagolwg yn elfen amhreswyl y dreth. Roedd perfformiad rhagolwg LTT Llywodraeth Cymru yn debyg i berfformiad yr OBR a'r SFC ar gyfer trethi trafodiadau eiddo.

Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Crynodeb o'r Alldro a'r Rhagolwg

A4.26 £36.9m oedd alldro 2019-20 o'r LDT, fel y gwelir yng nghyfrifon blynyddol Awdurdod Cyllid Cymru⁶³.

A4.27 Mae hyn £6.1m yn llai na rhagolwg Rhagfyr 2018 Llywodraeth Cymru, sef £43m. Mae hyn yn wahaniaeth cymharol o -17%⁶⁴ yn y rhagolwg.

Perfformiad rhagolwg mis Rhagfyr 2018

A4.28 Yn dilyn yr elfennau datgyfansoddi a ddefnyddir ar gyfer yr LTT a chan yr OBR, mae'r gwahaniaethau rhwng y rhagolwg a'r alldro wedi cael eu rhannu rhwng dosbarthiad dwy ffordd:

1. Ffactorau Economaidd
2. Ffactorau Modelu⁶⁵

A4.29 O ran yr LDT, mae'r ffactorau economaidd yn gyfyngedig. Y rheswm am hyn yw bod y prisiau fesul tunnell o wastraff yn cael eu pennu ymlaen llaw, ac yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

A4.30 Mae'r ffactorau modelu yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r fethodoleg, data newydd am wastraff, newidiadau i'r rhagdybiaethau ynghylch seilwaith gwastraff, a dehongliad o'r refeniw yn ystod y flwyddyn. Y prif elfennau sy'n achosi ansicrwydd yw cyfanswm cyfaint y gwastraff a'r rhaniad rhwng y cyfraddau safonol ac is ar gyfer gwastraff. Byddai'r ddwy elfen yn cael eu hystyried yn ffactorau modelu.

A4.31 Roedd rhagolwg y model yn rhy uchel ar gyfer gwastraff cyfradd safonol a chyfradd is, a hynny am dri rheswm:

1. Y prif reswm yw nad oedd y model wedi dileu digon o wastraff a oedd wedi derbyn rhyddhad a disgownt. Yn sgil hynny, rhagwelwyd y byddai cyfran fwy o wastraff yn drethadwy Adeg y rhagolwg, dim ond dau chwarter o ddata ACC oedd ar gael ar gyfer yr LDT, sy'n golygu mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael am faint o ddisgownt a rhyddhad oedd yn debygol o gael eu hawlio. Roedd y model yn gallu dileu rhyddhad chwarela gan fod hyn yn gallu cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio data CNC. Fodd bynnag, nid oedd modd amcangyfrif disgowntiau dŵr na mathau eraill o ryddhad gan ddefnyddio data CNC.
2. Rhagdybiwyd y byddai cyfaint y gwastraff cyfradd is yn aros yn gyson ar sail y duedd dros y tair blynedd flaenorol. Fodd bynnag, roedd y gwastraff cyfradd is wedi gostwng yn sylweddol yn 2019-20, ac roedd dros 50% yn is na'r rhagolwg.

⁶³ Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-cyfrifon-blynyddol-2019-2020>

⁶⁴ Gwahaniaeth cymharol yn y rhagolwg = (yr alldro-rhagolwg)/yr alldro.

⁶⁵ Mae'r OBR hefyd yn cynnwys ffactorau polisi, ond nid oedd y polisi ar gyfer tirlenwi wedi newid rhwng y rhagolygon, ac felly nid yw hynny wedi cael unrhyw effaith.

3. Roedd y model wedi defnyddio addasiad refeniw yn ystod y flwyddyn ar sail proffil a oedd yn deillio o gyfartaledd wyth mlynedd o ddata chwarterol CThEM am dreth dirlenwi ar gyfer y DU. Roedd yn addasu ar gyfer patrwm tymhorol gwastraff, gyda mwy o wastraff yn cael ei roi mewn safleoedd tirlenwi yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Roedd proffil CThEM yn awgrymu y byddai 54% o'r refeniw yn ddyledus yn y ddau chwarter cyntaf. Fodd bynnag, yng Nghymru yn 2018-19, roedd y ddau chwarter hynny'n cynrychioli 57% o'r LDT. Felly, roedd yr addasiad wedi goramcangyfrif y swm a fyddai'n ddyledus yn ystod dau chwarter olaf 2018-19, ac y byddai sylfaen drethu uwch ar gyfer 2018-19 yn cael ei throsglwyddo i 2019-20.

Sut mae hyn yn cymharu â rhagolygon eraill?

- A4.32 Roedd rhagolwg Tachwedd 2018 yr OBR ar gyfer LDT 2019-20 yn £40m, sydd £3m yn llai na rhagolwg Llywodraeth Cymru. Nid oedd wedi ystyried data LDT yr ail chwarter, ac roedd hynny wedi gwthio amcangyfrif mis Rhagfyr Llywodraeth Cymru i fyny ac ymhellach oddi wrth yr alldro yn y pen draw ar gyfer 2018-19. Y gwahaniaeth cymharol yn y rhagolwg rhwng rhagolwg Hydref yr OBR a'r alldro oedd -8%.
- A4.33 Roedd rhagolwg Rhagfyr 2018 Comisiwn Cyllidol yr Alban ar gyfer SLfT yn 2019-20 £15m yn is na'r alldro. Mae hyn yn wahanuaeth cymharol o +13% yn y rhagolwg. Y rheswm am y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth hwn oedd yr oedi cyn i'r capasiti llosgi fynd ar-lein.

Casgliadau

- A4.34 Roedd rhagolwg Rhagfyr 2018 ar gyfer yr LDT yn uwch na'r alldro. Ers y rhagolwg hwn, mae'r model wedi cael ei ddiweddarau i roi sylw i'r materion a amlygwyd, lle bo hynny'n bosibl. Gan nad yw gwastraff sydd wedi derbyn rhyddhad a disgownt yn gallu cael ei amcangyfrif yn uniongyrchol, mae cyfaint gwastraff CNC yn cael ei gymharu â chyfaint ACC, gan eithrio gwastraff sydd wedi derbyn rhyddhad a disgownt. Proffil tymhorol Cymru sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer addasiadau yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na phroffil CThEM. Mae'r rhagolwg ar gyfer gwastraff cyfradd is wedi cael ei ddiweddarau i ddefnyddio gostyngiad cyfartalog dros bedair blynedd. Mae hyn yn golygu bod blynyddoedd annodweddiadol yn cael llai o effaith ar y rhagolwg.
- A4.35 Yn wahanol i'r LTT, nid oedd data treth ar wahân ar gael ar lefel Cymru ar gyfer rhagflaenydd yr LDT. Cafodd y rhagolwg hwn ar gyfer 2019-20 ei lunio ar sail dau chwarter o ddata LDT yn 2018-19. Bydd rhagolygon LDT yn y dyfodol yn elwa o gofnod hanesyddol hirach.

Y camau nesaf ar gyfer rhagolygon LTT ac LDT

- A4.36 Bydd rhagolygon yn y dyfodol ar gyfer refeniw LTT ac LDT i gyd-fynd â chyllidebau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi gan yr OBR. Fodd bynnag, bydd dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn dal yn rhan o'r gwaith o lunio'r rhagolygon hynny, gan ddefnyddio'r modelau a drafodir yma. Bydd yr wybodaeth a geir o'r gwerthusiad hwn, ac o'r broses o gynnal y rhagolygon, yn helpu i lywio penderfyniadau am ragolygon a newidiadau modelu yn y dyfodol.

A4.37 Bydd yr OBR yn cyhoeddi gwerthusiadau o'i rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig sy'n cael eu llunio ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Atodiad pump: Yr acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

APD	Toll Teithwyr Awyr
CJRS	Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws
CPI	Mynegai Prisiau Defnyddwyr
CTIC	Cyfraddau Treth Incwm Cymru
CThEM	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
EUSS	Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
LBTT	Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau
LDT	Treth Gwarediadau Tirlenwi
LITRG	Grŵp Diwygio Treth Incymau Isel
LTT	Treth Trafodiadau Tir
NPV	Gwerth Presennol Net
NSND	Ddim yn deillio o Ddifidendau na Chynilion
OBR	Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
SDLT	Treth Dir y Dreth Stamp
SEISS	Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig
SFC	Comisiwn Cyllidol yr Alban
SPI	Yr Arolwg o Incwm Personol
UKAL	Ardoll Agregau'r DU

Atodiad chwech: Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am drethi Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/trethi-cymru>

<https://gov.wales/welsh-taxes>

Gallwch chi gysylltu â ni:

drwy gyfrifon Twitter Trysorlys Cymru:

@TrysorlysCymru

@WelshTreasury

neu drwy anfon e-bost:

TrysorlysCymru@llyw.cymru

WelshTreasury@gov.wales